



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG45470**

Llywodraeth Cymru  
**Dogfen Ymgynghori**

# Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau - Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau - Darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

## Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 23 Rhagfyr 2022. Gallwch ymateb ar-lein, dros e-bost neu drwy'r post.

### Ar-lein

A fydddech cystal â llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru.

### E-bost

Dylech lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i:  
[Substance.Misuse@llyw.cymru](mailto:Substance.Misuse@llyw.cymru)

### Post

Dylech lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd at:  
Y Tîm Polisi a Chyflawni ar gyfer Camddefnyddio  
Sylweddau  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Polisi a Chyflawni ar gyfer Camddefnyddio  
Sylweddau  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ  
E-bost: [Substance.Misuse@llyw.cymru](mailto:Substance.Misuse@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: <https://gov.wales/developing-substance-misuse-treatment-framework-children-and-young-people>

## **Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgyszerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o chyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

# Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau Drafft

**DARPARIAETH DDRAFFT  
GWASANAETHAU CAMDDEFNYDDIO  
SYLWEDDAU INTEGREDIG AR GYFER  
PLANT A PHOBL IFANC**



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

## **Awduraeth ac ymlyniadau ar yr adeg ysgrifennu**

**Josie Smith**, Pennaeth y Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Michelle Hughes, Rheolwr Prosiect** – Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dean Acreman**, Rheolwr Prosiect – Tueddiadau o ran Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Peter Lowe**, Ymarferydd Camddefnyddio Sylweddau Diagnosis Deuol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Sarah Burgess**, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (S-CAMHS), Hywel Dda

**Steve Davis**, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac Atal Sir Benfro

**Nicky Evans**, Tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc (YPDAT) Sorted Sir y Fflint, Cyngor Sir y Fflint

**Charlotte Hopkins**, Kinbee Ltd

**Lee Richards**, Gweithiwr Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

**Sadie Alexander**, Tîm Switched On, Ymarferydd Hybu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Sam Edwards**, Barod – Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, Arweinydd Tîm

**Sandra Smith**, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Lles Emosiynol Pobl Ifanc, Newid, Tyfu, Byw

**Vicky Jones**, Arweinydd Gogledd Cymru, ACE Ymwybodol Cymru

**Dr Julia Lewis**, Seiciatrydd Caethiwed Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

**Sarah James**, Barod – Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, Rheolwr Gwasanaeth

**Gareth Morgan**, Comisiynydd Camddefnyddio Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Tabl Cynnwys

|          |                                                                                                                     |           |
|----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>1</b> | <b>Crynodeb a datblygiadau allweddol.....</b>                                                                       | <b>1</b>  |
| <b>2</b> | <b>Cefndir .....</b>                                                                                                | <b>4</b>  |
| 2.1      | Diben a strwythur.....                                                                                              | 5         |
| 2.2      | Cyd-destun deddfwriaethol.....                                                                                      | 6         |
| 2.3      | Cyd-destun Polisi Strategol .....                                                                                   | 12        |
| 2.4      | Methodoleg.....                                                                                                     | 15        |
| 2.5      | Rolau a chyfrifoldebau .....                                                                                        | 15        |
| 2.6      | Diffiniadau.....                                                                                                    | 15        |
| 2.7      | Tystiolaeth o niwed ac asesiadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc .....     | 16        |
| <b>3</b> | <b>Llwybr ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig .....</b>                                | <b>24</b> |
| 3.1      | Atal, ymgysylltu'n gynnar ac allgymorth.....                                                                        | 24        |
| 3.2      | Asesu effeithiol a chynllunio gofal integredig .....                                                                | 37        |
| 3.3      | Dull ac Ymyriadau Lleihau Niwed .....                                                                               | 50        |
| 3.4      | Ymyriadau seicolegol a chymorth seicogymdeithasol .....                                                             | 54        |
| 3.5      | Cymorth a thriniaeth ffarmacolegol ar gyfer dibyniaeth .....                                                        | 60        |
| 3.6      | Cynllunio ar gyfer pontio i wasanaethau i oedolion.....                                                             | 66        |
| 3.7      | Gadael gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau triniaeth cysylltiedig gyda chynllun a heb gynllun ..... | 75        |
| <b>4</b> | <b>Hyfforddi a datblygu'r gweithlu .....</b>                                                                        | <b>80</b> |
| 4.1      | Cefndir .....                                                                                                       | 80        |
| 4.2      | Datblygu'r gweithlu a hyfforddiant ar draws pob sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc .....                | 81        |
| 4.3      | Fframwaith datblygu'r gweithlu mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid .....                                          | 82        |
| 4.4      | Datblygu'r gweithlu mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cymunedol a gwasanaethau cysylltiedig.....            | 83        |

## 1 Crynodeb a datblygiadau allweddol

Gallai defnydd o sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc ddod i'r amlwg fel symptom a ffactor cychwynnol mewn amrywiaeth o ymddygiadau peryglus sy'n arwain at ganlyniadau tymor byr a thymor hir. Mae'r data sydd ar gael am y niwed iechyd, addysgol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, cyffuriau anghyfreithlon a chyffuriau cyfreithlon, yn dangos bod defnydd problemus wedi'i gyfyngu i gyfran fach o'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r strwythurau diwylliannol a deddfwriaethol sydd ar waith, mae graddau'r defnydd, gan gynnwys defnydd arbrofol, achlysurol, hamdden, a phroblemus o alcohol a chyffuriau, yn tueddu i aros ynghudd. Yr hyn sy'n glir yw bod defnyddio sylweddau, ac yn enwedig y niwed aciwt a chronig sy'n gysylltiedig â'u defnyddio, yn cael effaith anghymesur ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan lunwyr polisïau a gwasanaethau iechyd, cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

Mae'r arweiniad a roddir yma yn dibynnu ar weithredu tri datblygiad/argymhelliad allweddol ledled Cymru, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt trwy'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid genedlaethol:

- 1. Bod yr holl wasanaethau i blant a phobl ifanc yn darparu gwasanaeth cynhwysol ac addasol ar gyfer pawb hyd at 25 oed.** Cydnabyddir bod llawer o wasanaethau eisoes yn gwneud hyn, ond nid pob un, gan fod y gwasanaeth a ddarperir yn dod i ben pan fyddant yn cyrraedd 16 neu 18 oed. O ran y gwasanaethau hynny y mae proses bontio statudol yn berthnasol iddynt, dylai trefniadau cynllunio ar gyfer pontio a chymorth cofleididol effeithiol fod ar waith<sup>1</sup>. Bydd sicrhau'r model <25 hwn ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru yn hwyluso cymorth syml sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gydnabod nad yw oedran ffisegol o reidrwydd yn rhoi mesur defnyddiol o'r angen am gymorth ar gyfer defnyddio sylweddau, iechyd a lles seicolegol, trawma, anghenion gofal cymdeithasol ac yn y blaen. Bydd darparu model pontio addasol, wedi'i deilwra ar draws y gwasanaethau a ddarperir, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu'n gynnar, adnabod anghenion dros amser a chymorth cyson, yn hyrwyddo pwyslais cryfach ar atal dwysáu i ddefnydd mwy hirsefydlog o sylweddau, niwed cysylltiedig a chanlyniadau tymor hwy, gan gynnwys niwed sy'n pontio'r cenedlaethau.
- 2. Gweithredu offeryn asesu unedig a modiwlaidd electronig ar draws gwasanaethau yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at <25 oed.** Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob sector o'r gwasanaethau a ddarperir gynnal asesiad o amgylchiadau ac anghenion ar gyfer pob

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru. Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion. Yn y cyfnod ymgynghori (o 2020). Ar gael yn: [Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion | LLYW.CYMRU](#)

unigolyn sy'n cyflwyno ei hun ar gyfer gofal a chymorth, gan arwain at ddyblygu, aneffeithlonrwydd, methiant i ddarparu gofal integredig ac, o bosibl, aildrawmateiddio'r plentyn neu'r person ifanc, ac felly gweithredu fel rhwystr rhag cael cymorth. Gan ddefnyddio datblygiadau technolegol sydd ar gael, gan gynnwys System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac yn unol â gofynion llywodraethu gwybodaeth, bydd gweithredu offeryn asesu unedig, lle mae'r cofnod yn dilyn yr unigolyn ar draws daearyddiaeth a thros amser, yn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn ogystal, byddai gweithredu hyn yn mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran gofynion cymorth a natur newidiol defnydd o sylweddau a'r niwed cysylltiedig ymhlith y boblogaeth hon yng Nghymru, gan fynd i'r afael â'r wybodaeth gyfyngedig sy'n cael ei choladu a'i hadrodd fel mater o drefn am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, iechyd a lles meddyliol) plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael cymorth cyfiawnder ieuencid.


**3. Datblygu gwasanaethau ymyrraeth arbenigol cynhwysfawr a ddarperir trwy greu un asiantaeth, neu drwy ddwyn ynghyd asiantaethau ar wahân, i weithredu fel endid unigol i gynorthwyo pobl ifanc 15-25 oed â ffactorau risg lluosog a/neu gymhleth, gan gynnwys defnydd o sylweddau, iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a/neu berygl o droseddau ac aildroseddau. Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'r canlynol:**

- a. Arweiniad cenedlaethol ar gamddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau<sup>2</sup>: 'O ran y rhai hynny sydd â lefelau sylweddol o ddefnydd neu ddefnydd problemus, mae'n fwy tebygol bod camddefnyddio cyffuriau'n gwaethygu problemau eraill fel chwalfa deuluol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, problemau addysgol a phryderon iechyd meddwl – hynny yw, mae defnydd o gyffuriau'n symptom o'r ffactor risg yn fwy nag y mae'n ei achosi. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc sydd â phroblemau eraill, fel troseddwy'r ifanc, pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, y rhai hynny sy'n dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant a'r rhai hynny sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol... Mae angen i wasanaethau triniaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i'r afael â phroblemau defnyddio sylweddau gyd-fynd â'r fframwaith a'r safonau ehangach ar gyfer pobl ifanc. Dylai ymyriadau cydlynol, a arweinir yn dda, ddefnyddio adnoddau cymunedau lleol, gan gynnwys diogelu, addysg, iechyd meddwl a datblygu gwydnwch'

---

<sup>2</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau, Diweddariad 2017, Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd. Tudalen [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/618812/Drug_misuse_and_dependence.pdf)

- b. Nod y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid<sup>3</sup> o 'Alinio gwasanaethau ataliol a gynigir i blant (gan gynnwys y rheini sy'n ceisio gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal, atal gwaharddiadau o'r ysgol a digartrefedd) gyda chyd-fodel fframwaith a chyd-ffactorau risg neu drothwyon ymyrraeth i wella canlyniadau ar gyfer plant.'
- c. Y Fframwaith NYTH a ddatblygwyd gan y rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) (gweler ffigur 1). Mae'r Fframwaith hwn yn darparu offer cynllunio i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n ofynnol i sicrhau dull 'system gyfan' o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.



**Ffigur 1: Cynrychioliad graffigol o ddull systemau cyfan offeryn cynllunio'r Fframwaith NYTH ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru**

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. [glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf](https://glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf) (llyw.cymru)

## 2 Cefndir

Mae defnyddio a chamddefnyddio sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yn bwyslais a her cymdeithasol penodol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig ehangach, ac mae llawer o fathau o niwed wedi'u cuddio o wasanaethau cymorth a thriniaeth. Mae'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y rhai hynny sy'n effeithio ar iechyd corfforol, gan gynnwys gwenwyndra aciwt, haint a marwolaeth cyn pryd o ganlyniad i wenwyno, hunanladdiad, damweiniau neu drais ac ymosodiad; niwed seicolegol aciwt a chronig, yn enwedig ymhlith y rhai hynny ag anghenion lluosog a chymhleth, gan gynnwys anhwylderau iechyd meddwl; a, chysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae niwed tymor hir yn cynnwys colli cyfle o ganlyniad i ddiffyg addysg gyflawn, ac anghydraddoldebau cyflogaeth, ariannol ac iechyd. Gallai plant a phobl ifanc fod yn agored i fwy o ffactorau risg o ganlyniad i'w camddefnydd eu hunain o sylweddau neu gamddefnydd eu rhieni o sylweddau, ac maen nhw mewn perygl uwch o gamdriniaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol, camfanteisio a throseddu cyfundrefnol.<sup>4,5</sup>

Mae marchnadoedd cyffuriau, o ran argaeledd a chryfder, yn ogystal â dyfodiad sylweddau seicoweithredol newydd gan gynnwys meddyginiaethau sy'n newydd i gamddefnydd, wedi arwain at newidiadau sylweddol a heriau penodol o ran rheoli niwed ac addasu gwasanaethau. Mae proffil newidiol marchnadoedd cyffuriau a defnydd o sylweddau yn y gymuned yn cael eu hadlewyrchu mewn poblogaethau plant a phobl ifanc, sy'n golygu bod angen model addasol o ofal dros amser. Yn ogystal, mae ymddangosiad llinellau cyffuriau wedi rhoi plant a phobl ifanc agored i niwed mewn perygl uwch o niwed a chamfanteisio gan gangiau a throseddu cyfundrefnol.<sup>2</sup>

Yr unig ffordd y gellir gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc o ran defnyddio a chamddefnyddio sylweddau yw trwy ymgysylltu cynnar a chredadwy, asesu integredig a chydweithio trwy ddull sy'n lleihau niwed ac wedi'i seilio ar anghenion. Mae darparu ymyriadau addysgol wedi'u targedu, a gwasanaethau atal a thrin i blant a phobl ifanc, yn elfennau allweddol o ddiogelu a gwella eu hiechyd a'u lles. Bydd darparu ymgysylltiad ac ymyriadau effeithiol gyda chymorth integredig ac wedi'i deilwra yn y blynyddoedd cynharach a hyd at 25 oed yn lleihau'r boblogaeth unigolion sy'n datblygu problemau camddefnyddio sylweddau gydol oes a'r niwed

---

<sup>4</sup> Windle J, Moyle L, Coomber R. 'Vulnerable' Kids Going Country: Children and Young People's Involvement in County Lines Drug Dealing. *Youth Justice*. 2020;20(1-2):64-78. doi:[10.1177/1473225420902840](https://doi.org/10.1177/1473225420902840)

<sup>5</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2015. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiadau sy'n niweidio iechyd ym Mhoblogaeth Oedolion Cymru. Ar gael yn: [ACE-Report-FINAL-W.pdf \(phwww.hcc.co.uk\)](https://phwww.hcc.co.uk/ACE-Report-FINAL-W.pdf)

cynhenid sy'n gysylltiedig â defnydd hirsefydlog. Mae'r Fframwaith NYTH<sup>6,7</sup>, a sefydlwyd yn rhan o'r rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, yn darparu strwythur cynllunio ac offer sydd â'r nod o sicrhau dull system gyfan tuag at iechyd meddwl a lles a gwasanaethau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn hollbwysig defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

## 2.1 Diben a strwythur

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i hysbysu a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol er mwyn iddynt ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin teg, cynaliadwy o ansawdd uchel i'r rhai hynny sydd mewn perygl o broblemau camddefnyddio sylweddau neu sydd eisoes yn eu profi. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn rhan o'r gyfres o ganllawiau lleihau niwed a'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio yng Nghymru.<sup>8</sup>

Mae'r gynulleidfa darged ar gyfer y canllawiau hyn yn cynnwys cynllunwyr gwasanaethau, comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a darparwyr ehangach iechyd, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r rhai hynny sydd mewn perygl o ddechrau defnyddio cyffuriau a/neu alcohol, neu sydd â phrofiad o ddefnydd problemus o gyffuriau a/neu alcohol yn flaenorol neu ar hyn o bryd. Felly, disgwylir i blant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalmwr fod yn rhan o'r broses o weithredu'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau hwn.

Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ehangach ac yn amlinellu'r dystiolaeth i lywio gwelliannau. Rhoddir dolenni i ddogfennau strategaeth a pholisi perthnasol ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gofyniad i ddatblygu gwasanaethau sydd â'r nod o wella iechyd a lles plant a phobl ifanc.

Yn **Adran A**, amlinellir y llwybr, o ymgysylltiad cynnar i gynllunio ar gyfer pontio ac ymadael, ar gyfer alcohol a chyffuriau. Oherwydd y gallai unigolyn fod yn defnyddio cyffuriau ac alcohol yn problemus, dyluniwyd y broses asesu a'r llwybr i fod yn hyblyg ac yn gynhwysol ymlaen at gymorth dilynol a chynllunio ar gyfer ymadael. Mae **Adran B** yn canolbwyntio ar y datblygiadau sy'n ofynnol yn y gweithlu, gan gynnwys ailalinio a hyfforddiant. Yn olaf, mae **Adran C** yn amlygu'r dangosyddion

---

<sup>6</sup> Cydweithfa Iechyd GIG Cymru. Fframwaith NYTH. [Y Fframwaith NYTH – Cydweithfa Iechyd GIG Cymru](#)

<sup>7</sup> Cydweithfa Iechyd GIG Cymru. 2015. 'LAW YN LLAW DROS BLANT A PHOBL IFANC' FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU. Ar gael yn: [Fframwaith ar gyfer Gweithredu.pdf \(wales.nhs.uk\)](#)

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru. Cyfres o ddogfennau'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau, sydd ar gael yn: [Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)

allweddol ar gyfer mesur cynnydd, perfformiad a darparu 'gwasanaeth rhagorol, diogel a chyfwerth' o ran camddefnyddio sylweddau a gofynion iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig, a'r arloesiadau technolegol, llywodraethu gwybodaeth a systemau gwybodaeth sy'n ofynnol mewn lleoliadau cymunedol a chyfiawnder troseddol.

## **2.2 Cyd-destun deddfwriaethol**

### **2.2.1 Deddf y GIG (Cymru) 2006<sup>9</sup>**

Mae pwerau a dyletswyddau statudol y GIG yng Nghymru wedi'u cynnwys yn bennaf yn Neddf y GIG (Cymru) 2006. Er bod Deddf y GIG 2006 yn cymhwyso deddfwriaeth gyfatebol i'r GIG yn Lloegr, mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

Bydd y rhan fwyaf o fusnes cyrff y GIG yn cael ei gynnal yn unol â'r pwerau a gynhwysir yn Neddf y GIG (Cymru) 2006 a'r trefniadau a amlinellir yn y Rheoliadau Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau perthnasol. Mae'n rhaid i holl gyrff y GIG hefyd weithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol ehangach sy'n llywodraethu'r holl sefydliadau yn y Deyrnas Unedig.

Mae Deddf y GIG (Cymru) 2006 yn cydgrynhoi ystod o ofynion rheoleiddiol sy'n ymwneud â hyrwyddo a darparu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae'n amlinellu:

- Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo gwasanaeth iechyd.
- Pŵer cyffredinol i ddarparu gwasanaethau.
- Darparu gwasanaethau penodol.
- Darparu gwasanaethau heblaw nag yng Nghymru.
- Contractau'r GIG.
- Darparu gwasanaethau heblaw gan Weinidogion Cymru.

Mae adrannau allweddol o'r Ddeddf hon yn cynnwys:

- Mae Adran 72 yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG i gydweithio â'i gilydd wrth arfer eu swyddogaethau.
- Mae Adran 82 yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG ac awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau a gwella iechyd a lles pobl Cymru a Lloegr.

---

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006). Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Ar gael yn: [National Health Service \(Wales\) Act 2006 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk/ukpga/2006/25/contents)

### 2.2.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>10</sup>

Daeth y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fe wnaeth y Ddeddf sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol ar gyfer Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant. O'r saith nod llesiant, dyma'r rhai sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ddogfen hon:

**Cymru lewyrchus** – 'Cymdeithas... sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas'.

**Cymru iachach** – 'Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deëllir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i ieuchyd yn y dyfodol'.

**Cymru sy'n fwy cyfartal** – 'Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)'.

**Cymru o gymunedau cydlynus** – 'Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da'.

### 2.2.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010<sup>11</sup>

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 ac mae'n mynnu bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau'r anghydraddoldebau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein polisïau a'n penderfyniadau strategol. Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i'r cyrff cyhoeddus canlynol:

- Gweinidogion Cymru.
- Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol.
- Byrddau Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaethau'r GIG.
- Awdurdodau Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig).
- Awdurdod Tân ac Achub.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Awdurdod Cyllid Cymru.

---

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – The Future Generations Commissioner for Wales](#)

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru. Cymru sy'n Fwy Cyfartal. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. Canllawiau Statudol. Ar gael yn: [WG42004 Cymru sy'n Fwy Cyfartal Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 \(llyw.cymru\)](#)

#### 2.2.4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>12</sup>

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion sy'n mynnu eu bod yn gweithio i hyrwyddo lles y rhai hynny y mae arnynt angen gofal a chymorth, neu ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r term 'llesiant' yn cynnwys diogelu, sef yn benodol atal ac amddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod, ond mae hefyd yn berthnasol i les corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolyn. O fewn y Ddeddf, a luniwyd i newid y ffordd y darperir gwasanaethau cymdeithasol, nodir cyfres o egwyddorion sylfaenol, gan gynnwys:

- Rhoi'r oedolyn neu'r plentyn unigol, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, wrth wraidd eu gofal a'u cymorth. Dylid caniatáu rheolaeth i bobl ifanc er mwyn iddynt gyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni lles ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- Atal ac ymyrraeth gynnar: Cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned.
- Cydgynhyrchu: Annog unigolion i ymwneud mwy â dylunio a darparu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.
- Amlasiantaethol: Gwaith partneriaeth cryf rhwng yr holl asiantaethau a sefydliadau, gydag integreiddio'n sbardun allweddol ar gyfer newid.

Yn ogystal, cyflwynodd y Ddeddf y gofyniad am Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a Byrddau Diogelu ac Amddiffyn ar lefel awdurdod lleol.

#### 2.2.5 Deddf Plant 1989<sup>13</sup>

Deddf Plant 1989 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant. Nid yw Rhan 3 Deddf Plant 1989 (cymorth gan yr awdurdod lleol i blant a theuluoedd) yn berthnasol mwyach yng Nghymru ac fe'i disodlwyd gan ddarpariaethau yn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn enwedig Rhannau 3 a 4 (asesu a bodloni anghenion ar gyfer gofal a chymorth) a Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya).<sup>14</sup> Mae Adran 47(1) Deddf Plant 1989 yn cynnwys dyletswyddau sy'n mynnu bod awdurdod lleol yn gwneud y cyfryw ymholiadau ag y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol, neu'n achosi iddynt gael eu gwneud, i'w alluogi i benderfynu p'un a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn. Gallai camau o'r fath achosi i blentyn "dderbyn gofal" gan awdurdod lleol, naill ai oherwydd bod awdurdod lleol yn darparu llety ar gyfer y plentyn (yn unol ag adran 76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) neu ar ôl i'r llys wneud gorchymyn gofal (yn unol ag adran 31 Deddf Plant 1989).

---

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

<sup>13</sup> Deddf Plant 1989. [Children Act 1989 \(legislation.gov.uk\)](#)

<sup>14</sup> Deddf Plant 2004. [Children Act 2004 \(legislation.gov.uk\)](#)

### 2.2.6 Deddf Plant 2004<sup>3</sup>

Mae Deddf Plant 2004 yn adeiladu ar y fframwaith a amlinellir yn Neddf Plant 1989 ac yn ei gryfhau. Mae nifer o ddarpariaethau yn Neddf 2004 sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chyfrifoldebau asiantaethau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2006<sup>15</sup> yn datgan:

“Y dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys pawb sy'n gweithio neu sy'n dod i gysylltiad â phlant, rhieni ac oedolion eraill sydd mewn cysylltiad â phlant neu sy'n ceisio cysylltu â nhw, allu adnabod, a gwybod sut i weithredu ar dystiolaeth fod iechyd neu ddatblygiad plentyn yn cael ei lesteirio, neu y gallai gael ei lesteirio, ac yn arbennig pan fônt yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Dylai ymarferwyr, gofalwyr maeth a rheolwyr fod yn ystyriol bob amser o les a diogelwch plant - gan gynnwys plant nad ydynt wedi eu geni a phlant hŷn - yn eu gwaith.”

Ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu, mae diwygiadau perthnasol ychwanegol yn cynnwys:

- **Adran 25 – Cydweithio i wella lles:** diwygiwyd hyn gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- **Adran 26 – Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc:** diddymwyd hyn gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fe'i disodlwyd gan y ddyletswydd ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi asesiadau o lesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.
- **Adrannau 31 i 34 – Byrddau Lleol Diogelu Plant:** diddymwyd y rhain ac fe'u disodlwyd gan y darpariaethau yn adrannau 134 i 140 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Byrddau Diogelu.

### 2.2.7 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010<sup>16</sup>

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a enwyd i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant sy'n nodi amcanion i fynd i'r afael â thlodi plant a'r camau gweithredu y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion.

Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar gynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael â thlodi plant bob tair blynedd.

---

<sup>15</sup> Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. [Safeguarding Children: Working Together Under the Children Act 2004](#)

<sup>16</sup> Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 [Children and Families \(Wales\) Measure 2010v6.qxd \(legislation.gov.uk\)](#)

### 2.2.8 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<sup>17</sup>

Mae CCUHP yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau plant ac yn darparu fframwaith sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer datblygu gwasanaethau i blant. Cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig CCUHP ym 1991 a, thrwy wneud hynny, mae'n cydnabod hawliau plant i fynegi a derbyn gwybodaeth. Yng Nghymru, mae gan **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (2011)** yr un statws â 'Deddf' ac mae'n gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio polisi. Mae'r erthyglau canlynol yn arbennig o berthnasol:

Erthygl 33: Mae'n datgan y bydd Partïon yn cymryd yr holl fesurau priodol, gan gynnwys mesurau deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol, i amddiffyn plant rhag defnydd anghyfreithlon o gyffuriau narcotig a sylweddau seicotropig fel y'u diffinnir yn y cytuniadau rhyngwladol perthnasol, ac i atal plant rhag cael eu defnyddio wrth gynhyrchu a masnachu sylweddau o'r fath yn anghyfreithlon.

Erthygl 24: Mae'n datgan bod Partïon yn cydnabod hawl y plentyn i gael iechyd o'r safon uchaf sy'n bosibl a chyfleusterau ar gyfer trin salwch ac adfer iechyd. Mae'n datgan y bydd Partïon yn ymdrechu i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd o'r fath.

### 2.2.9 Deddf Cydraddoldeb 2010<sup>18</sup>

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i'r angen i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn berthnasol i'r broses o amlygu'r anghenion a'r risgiau sy'n wynebu plentyn unigol a'r broses asesu. Mae'n rhaid peidio â thrin unrhyw blentyn neu grŵp o blant yn llai ffafriol nag eraill o ran gallu cael mynediad at wasanaethau effeithiol sy'n bodloni eu hanghenion penodol.

### 2.2.10 Galluedd Meddyliol

Mae **Deddf Galluedd Meddyliol 2005**<sup>19</sup> yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n galluogi a chefnogi pobl sydd â diffyg galluedd, gan beidio â chyfyngu ar eu bywydau na'u rheoli. Mae'n ceisio amddiffyn pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau penodol, ond hefyd cynyddu gymaint â phosibl eu gallu i wneud penderfyniadau, neu gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i'r graddau eu bod yn gallu gwneud hynny.

---

<sup>17</sup> UNICEF (1990). Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. [UN Convention on the Rights of the Child - UNICEF UK](#)

<sup>18</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2010). Deddf Cydraddoldeb 2010. [Equality Act 2010: guidance - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>19</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2005). Deddf Galluedd Meddyliol 2005. [Mental Capacity Act 2005 \(legislation.gov.uk\)](#)

Mae **Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019: Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**<sup>20</sup> yn cyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid presennol – nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau dyddiad gweithredu eto. Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn amddiffyn pobl 16 oed a hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid, er mwyn iddynt allu cael gofal neu driniaeth, ac nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i'w trefniadau, yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar reoliadau drafft i gefnogi'r broses o weithredu'r diogeliadau newydd yng Nghymru.

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**<sup>21</sup> yn gyfraith a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, fel y cyfryw, mae ganddi'r un statws cyfreithiol yng Nghymru â Deddfau Iechyd Meddwl eraill. Fodd bynnag, yn wahanol i Ddeddfau Iechyd Meddwl 1983 a 2007 sy'n ymwneud yn bennaf â phwerau gorfodol, a derbyn i ysbyty neu ryddhau ohono, mae Mesur 2010 yn ymwneud â'r cymorth a ddylai fod ar gael i bobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru ble bynnag y gallent fod yn byw.

### 2.2.11 Deddfau Cyffuriau'r Deyrnas Unedig<sup>22</sup>

Mae tri phrif statud sy'n rheoleiddio argaeledd cyffuriau yn y Deyrnas Unedig:

- **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau (1971)**<sup>23</sup> – bwriedir i'r Ddeddf hon atal defnydd anfeddygol o gyffuriau penodol. Am y rheswm hwn, mae'n rheoli nid yn unig gyffuriau meddyginiaethol (a fydd yn y Ddeddf Meddyginiaethau hefyd), ond hefyd cyffuriau nad oes defnydd meddygol iddynt ar hyn o bryd. Adwaenir cyffuriau sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon fel cyffuriau 'rheoledig'. Mae'r gyfraith yn diffinio cyfres o droseddau, gan gynnwys: cyflenwi'n anghyfreithlon; bwriad i gyflenwi, mewnfario neu allfario a chynhyrchu'n anghyfreithlon.
- **Deddf Meddyginiaethau (1968)**<sup>24</sup> – mae'r Ddeddf hon yn llywodraethu gweithgynhyrchu a chyflenwi meddyginiaeth.
- **Deddf Sylweddau Seicoweithredol (2016)**<sup>25</sup> – mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i gynhyrchu sylweddau seicoweithredol, eu cyflenwi, cynnig eu cyflenwi, meddu arnynt gyda'r bwriad o'u cyflenwi, meddu arnynt ar

---

<sup>20</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2020). Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019: Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. [Mental Capacity \(Amendment\) Act 2019: Liberty Protection Safeguards \(LPS\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/legislation/mental-capacity-amendment-act-2019)

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010). Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. [Mental Health \(Wales\) Measure 2010 \(legislation.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/legislation/mental-health-wales-measure-2010)

<sup>22</sup> Drug Wise. Beth yw Deddfau Cyffuriau'r Deyrnas Unedig? [What are the UK drug laws? – DrugWise](https://www.drugwise.org.uk/what-are-the-uk-drug-laws/)

<sup>23</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (1971). Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. [Misuse of Drugs Act 1971 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/37/contents)

<sup>24</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (1968). Deddf Meddyginiaethau 1968. [Medicines Act 1968 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/43/contents)

<sup>25</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2016). Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016. [Psychoactive Substances Act 2016 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/12/contents)

safle gwarchodol, eu mewnfario neu eu hallfario; hynny yw, unrhyw sylwedd y bwriedir iddo gael ei fwyta gan bobl sy'n gallu cynhyrchu effaith seicoweithredol. Mae'n galluogi'r heddlu ac awdurdodau lleol i fabwysiadu ymateb graddedig i gyflenwi sylweddau seicoweithredol mewn achosion priodol, gan gynnwys pwerau i atal a chwilio er mwyn atafaelu a dinistrio sylweddau seicoweithredol.

## **2.3 Cyd-destun Polisi Strategol**

### **2.3.1 Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22<sup>26</sup>**

Mae Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019–22 yn darparu'r agenda genedlaethol ar fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru a'i leihau. Mae'r cynllun cyflawni wedi'i seilio ar bum nod allweddol:

- Atal niwed.
- Cymorth i unigolion – i wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal adferiad.
- Cynorthwyo ac amddiffyn teuluoedd.
- Mynd i'r afael ag argaeledd ac amddiffyn unigolion a chymunedau.
- Partneriaethau cryfach, datblygu'r gweithlu a chynnwys pobl ifanc.

Mae'r Cynllun yn pwysleisio pwysigrwydd 'amlygu ac ymyrryd yn gynnar, a mesurau neu raglenni i ddargyfeirio unigolion oddi wrth gamddefnyddio sylweddau' ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n dechrau camddefnyddio sylweddau.

### **2.3.2 Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cymru: Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf 2014<sup>27</sup>**

Mae'r strategaeth ar y cyd hon yn dwyn ynghyd weledigaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sy'n rhan ohoni. Mae'n rhoi fframwaith cydlynol i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'n adeiladu ar ddulliau a chyflawniadau Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan 2004 (AWYOS) a'i Chynllun Cyflawni dilynol yn 2009.<sup>28</sup>

---

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru (2019). Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau: 2019 i 2022. [Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>27</sup> Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sy'n rhan ohoni. 2014. Ar gael yn: [\[Withdrawn\] Youth justice strategy for Wales: children and young people first - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009). Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan: Cynllun Cyflawni 2009-11. [All Wales Youth Offending Strategy: Delivery Plan 2009-11 \(ioe.ac.uk\)](#)

### 2.3.3 Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid 2019<sup>29</sup>

Mae'r safonau hyn yn diffinio'r disgwyliad gofynnol ar gyfer pob asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau statudol i sicrhau canlyniadau da i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Nod y safonau yw:

- Darparu fframwaith ar gyfer ymarfer cyfiawnder ieuenctid a sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal.
- Annog a chefnogi arloesedd ac arfer da i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n cyflawni troseddau.
- Sicrhau bod pob plentyn yn byw bywyd diogel a di-drosedd, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas.
- Cydweddu ag egwyddor plentyn yn gyntaf y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Cynorthwyo'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac arolygiaethau pan fyddant yn asesu p'un a yw gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn bodloni eu gofynion statudol.

Gosodir y safonau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn unol â chynghor y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

### 2.3.4 Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru<sup>30</sup>

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn adeiladu ar nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid o atal troseddu gan blant a phobl ifanc, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gofyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau bod gwasanaethau lleol ar waith i atal plant rhag troseddu ac i hyrwyddo eu lles yn y dyfodol. Mae'r glasbrint yn amlinellu dull 'system gyfan' ar gyfer system o wasanaethau cymorth wedi'u seilio ar hawliau ac sy'n ystyriol o drawma. Mae'r dull yn canolbwyntio ar ymyriadau atal, dargyfeirio a chymunedol wedi'u targedu.

---

<sup>29</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr (2019). Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid 2019. [Standards for children in the youth justice system - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/standards-for-children-in-the-youth-justice-system)

<sup>30</sup> Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. [glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf \(llyw.cymru\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/684441/glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf)

### 2.3.5 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru' 2012<sup>31</sup> a'r Cynllun Cyflawni 2019-22<sup>32</sup> gan Lywodraeth Cymru

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru yn amlinellu camau gweithredu clir, gan gynnwys datblygu 'gwasanaethau iechyd meddwl, lles meddyliol ac anabledd dysgu cyson ar draws cymunedau sydd wedi'u teilwra i anghenion lleol trwy gyfres gytunedig o safonau a dangosyddion ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol'. Rhoddodd adroddiad 'Cadernid Meddwl'<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru bwyslais ychwanegol ar les emosiynol, gwydnwch ac ymyrraeth gynnar, gydag argymhellion clir i gefnogi atal, ymyrryd yn gynnar ac ymgysylltu. Diwygiwyd a diweddarwyd y Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl ym mis Hydref 2020 i gynnwys ymrwymadau traws-Llywodraeth newydd i gynorthwyo'r rhai hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig.<sup>34</sup>

### 2.3.6 Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru<sup>35</sup>

Sefydliad hawliau plant annibynnol yw Comisiynydd Plant Cymru a ffurfiwyd yn 2001. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, ac yn 2020-21 amlinellodd yr adroddiad gyfres o argymhellion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ddogfen hon, gan gynnwys:

- Cryfhau rôl rhianta corfforaethol Cymru trwy ddeddfwriaeth ac arweiniad, i sicrhau bod system ofal Cymru wedi'i seilio ar hawliau ac yn galluogi plant i ffynnu mewn gofal.
- Goruchwyllo a monitro'r broses o gyflwyno'r Protocol i Leihau Troseddoli Diangen Plant sy'n Derbyn Gofal yn eang, gyda chymorth adnoddau a hyfforddiant i gryfhau arferion presennol.
- Symud ymlaen i weithredu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid ymhellach, yn enwedig yr elfennau sy'n ymwneud â llety diogel.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ysgolion a phlant a phobl ifanc eu hunain i sicrhau bod uchelgais y dull ysgol gyfan o ymdrin â

---

<sup>31</sup> Llywodraeth Cymru (2012). Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru. [Law yn llaw at iechyd meddwl: ein strategaeth iechyd meddwl | LLYW.CYMRU](#)

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru (2019). Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Cynllun Cyflawni 2019-2022. Ar gael yn: [adolygu-cynllun-cyflawni-law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-20192022-er-mwyn-ymateb-i-covid-19.pdf \(llyw.cymru\)](#)

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2018. Cadernid meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ar gael yn: [Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru \(senedd.wales\)](#)

<sup>34</sup> Llywodraeth Cymru (Hydref 2020): [Cynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl 2019 i 2022 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>35</sup> [Hafan - Children's Commissioner for Wales \(complantcymru.org.uk\)](#)

lles emosiynol a meddyliol yn cael ei ategu gan adnoddau, capasiti a rhwydwaith cymorth system gyfan ar draws gwasanaethau perthnasol sy'n bodloni anghenion penodol pob ysgol.

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu i weithredu dull Dim Drws Anghywir, a'r model system gyfan NYTH, gan gynnwys y gwaith penodol o fewn y modelau hyn i wella'r cymorth ar gyfer plant niwrowahanol. Bydd hyn yn cael ei wella ymhellach trwy benodi Arweinydd Gweithredu NYTH, a fydd yn darparu adnodd penodol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddatblygu eu Cynlluniau gweithredu.

## 2.4 Methodoleg

Sefydlwyd grŵp llywio yn 2018 i oruchwylio datblygiad y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau hwn ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwahoddwyd grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol i fynychu dau ddiwrnod ymgysylltu er mwyn cytuno ar ddiwygiadau ac argymhellion terfynol y Fframwaith. Mae'r dystiolaeth yn y ddogfen hon yn dod o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd data llyfryddol, cyfathrebu ag academyddion blaenllaw, digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a digwyddiadau casglu tystiolaeth, a chyfweiliadau â hysbyswyr allweddol. Roedd y cronfeydd data a'r ffynonellau ar y we yn cynnwys MEDLINE, MEDLINE Daily Update, AMED, BNI ac EMBASE. Roedd y gwefannau'n cynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 2.5 Rolau a chyfrifoldebau

Bydd Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, cyfiawnder troseddol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector yn gyfrifol am sicrhau bod y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei gyflawni.

## 2.6 Diffiniadau

**Defnydd o sylweddau a dibyniaeth arnynt** – Mae defnydd o sylweddau a dibyniaeth arnynt, y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel camddefnyddio sylweddau, 'yn cyfeirio at ddefnydd niweidiol neu beryglus o sylweddau seicoweithredol, gan gynnwys alcohol, cyffuriau cyfreithlon a chyffuriau anghyfreithlon. Gall defnydd o sylweddau seicoweithredol arwain at syndrom dibyniaeth – clwstwr o ffenomena ymddygiadol, gwybyddol, a ffisiolegol sy'n datblygu ar ôl defnydd mynych o sylwedd ac sydd fel arfer yn cynnwys awydd cryf i gymryd y cyffur, anawsterau wrth reoli'r defnydd ohono, parhau i'w ddefnyddio er gwaethaf canlyniadau niweidiol, rhoi blaenoriaeth uwch i'r cyffur na gweithgareddau a rhwymedigaethau eraill, goddefiad

uwch, ac weithiau cyflwr diddyfnu corfforol<sup>36</sup>. Yn ogystal â sylweddau seicoweithredol, mae'r arweiniad hwn yn cynnwys defnyddio cyffuriau sy'n gwella delwedd a pherfformiad.

**Plant a Phobl Ifanc** – Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 3, diffinnir plentyn fel rhywun iau na 18 oed. Diffinnir person ifanc fel unrhyw un iau na 25 oed. Fel y cyfryw, mae'r term hwn yn cynnwys y rhai hynny a ddiffinnir yn gyfreithiol fel plant.

**Plant sy'n gadael gofal** – Ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig, mae gan blant sy'n gadael gofal yn 18 oed yr hawl i gael cymorth gan eu hawdurdod lleol hyd nes byddant yn 21 oed o leiaf. Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn ddarostyngedig i Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000.

**Oedran cyfrifoldeb troseddol** – Yr oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw 10 mlwydd oed. Fel y cyfryw, ystyrir bod plentyn yn gallu cyflawni trosedd a'i fod yn ddigon hen i sefyll prawf am drosedd. Bydd ei achos yn cael ei drin gan lys ieuenctid ac os caiff ei ddyfarnu'n euog, bydd ei oedran yn cael ei ystyried wrth ei ddeddfrydu.

**Sylweddau Seicoweithredol Newydd** – Yn ôl y Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau (EMCDDA)<sup>37</sup>, mae sylweddau seicoweithredol newydd 'yn cynnwys sylweddau seicoweithredol newydd anrheoledig ac a reolwyd yn ddiweddar, yn enwedig (ond nid yn unig) canabinoidau synthetig, opioidau synthetig newydd a bensodiasepinau newydd'.

## 2.7 Tystiolaeth o niwed ac asesiadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc

### 2.7.1 Derbyniadau alcohol ymhlith plant a phobl ifanc

Mae nifer yr unigolion rhwng 10 a 17 oed (yn gynyddedig) a dderbyniwyd i'r ysbyty am resymau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol wedi gostwng yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Roedd 223 o dderbyniadau a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol ar gyfer y grŵp oedran hwn yn 2011/12 o gymharu ag 83 o dderbyniadau yn 2020/21. Gwelwyd y gostyngiad hwn mewn gwrywod a benywod, ar draws pob oedran. Mae mwy o fenywod yn y grŵp oedran hwn yn cael eu derbyn na gwrywod, sy'n duedd gyson yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.


Mae nifer yr unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty yn cynyddu, yn enwedig ymhlith gwrywod, ar gyfer y rhai hynny rhwng 18 a 24 oed o gymharu â'r garfan iau. Fodd

---

<sup>36</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (2018). Camddefnyddio sylweddau. [Alcohol, Drugs and Addictive Behaviours \(who.int\)](https://www.who.int/substance-use/alcohol-drugs-and-addictive-behaviours)


<sup>37</sup> Canolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau (2018). CYFATHREBIAD CYFLYM – Sylweddau seicoweithredol newydd yn y carchar. Canlyniadau astudiaeth sylwi ar dueddiadau EMCDDA – Mehefin 2018. Ar gael yn: [New psychoactive substances in prison \(europa.eu\)](https://www.europa.eu/new-psychoactive-substances-in-prison)

bynag, mae derbyniadau yn y grŵp oedran hŷn hwn wedi gostwng hefyd o gymharu â 10 mlynedd yn ôl (966 o dderbyniadau yn 2011/12).




## 2.7.2 Derbyniadau sylweddau anghyfreithlon ymhlith plant a phobl ifanc

Derbyniwyd 255 o unigolion rhwng 10 a 17 oed am resymau yn ymwneud â sylweddau anghyfreithlon yn 2011/12 o gymharu â 298 yn 2020/21. Mae nifer y derbyniadau ar gyfer sylweddau anghyfreithlon yn y grŵp oedran hwn wedi bod yn uwch na derbyniadau ar gyfer alcohol ers 2013/14. Yn yr un modd â derbyniadau sy'n ymwneud ag alcohol, derbyniwyd nifer uwch o fenywod na gwrywod yn y grŵp oedran hwn.



Y grŵp mwyaf cyffredin o sylweddau a oedd yn gysylltiedig â derbyniadau plant a phobl ifanc (10-17 oed) oedd opiodau (sy'n cynnwys cyffuriau lleddfu poen cyffredin ar bresgripsiwn yn unig fel Codin yn ogystal â Heroin); derbyniwyd 116 o unigolion yn 2020/21. Mae grwpiau cyffredin eraill o sylweddau yn cynnwys cannabinoidau<sup>38</sup> (60 o unigolion) a bensodiasepiniau.

Yn yr un modd ag alcohol, mae nifer y derbyniadau sy'n ymwneud â sylweddau anghyfreithlon yn cynyddu yn y grŵp oedran 18-24 o gymharu â'r rhai hynny sy'n iau na 18 oed. Mae mwy o wrywod yn cael eu derbyn na benywod yn y grŵp oedran hwn hefyd (55%).



### 2.7.3 Asesiadau triniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc


Roedd 1,013 o asesiadau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer unigolion iau na 18 oed yn 2018-19, a 570 o asesiadau yn 2020/21. Roedd mwy o asesiadau yn ymwneud â gwrywod (59 y cant, n = 601) na benywod<sup>39</sup>. Mae asesiadau wedi lleihau 55 y cant yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, er y dylid cydnabod effaith y pandemig COVID-19 yn ystod 2020-22 ar fynediad at wasanaethau triniaeth. Mae'r gostyngiad yn fwy amlwg mewn gwrywod (57 y cant) o gymharu â benywod (53 y cant). Roedd 1,694 o asesiadau ar gyfer y rhai 18-24 oed yn 2020-21.

Ac eithrio alcohol, y sylwedd mwyaf cyffredin a adroddwyd mewn asesiadau yn 2020/21 oedd canabis, a adroddwyd mewn 50 y cant o asesiadau. O gymharu, y

<sup>38</sup> Ni ellir gwahaniaethu rhwng cannabinoidau a gweithyddion derbynnydd cannabinoid synthetig (SCRAs), a adwaenir fel arall fel Spice, o fewn Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)/data derbyniadau ysbyty o ganlyniad i ddiffyg codau ICD10 penodol.

<sup>39</sup> Roedd 2 unigolyn â rhywedd anhysbys.

sylwedd mwyaf cyffredin yn 2010/11 oedd heroin, gan gyfrif am 31 y cant o asesiadau. Mae asesiadau sy'n ymwneud ag alcohol wedi gostwng 29 y cant yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae data o astudiaeth ar y cyd Sefydliad Iechyd y Byd ar Ymddygiad Iach mewn Plant Oed Ysgol 2017/18<sup>40</sup> yn dangos, ymhlith pobl ifanc 15 oed yng Nghymru, bod 35 y cant o ferched a 31 y cant o fechgyn wedi dweud y buont yn feddw o leiaf ddwywaith yn eu hoes, sy'n ail yn unig i Ddenmarc o ran cyffredinrwydd y mesur hwn.



#### 2.7.4 Marwolaethau cyffuriau ac alcohol ymhlith plant a phobl ifanc

Yn ystod y cyfnod 10 mlynedd, o 2010 i 2020, bu cyfanswm o 34 o farwolaethau camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud ag unigolion iau na 18 oed. Roedd y marwolaethau hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o gyffuriau, gan gynnwys heroin/morffin, opioidau eraill gan gynnwys methadon, ac ecstasi. Bu 224 o farwolaethau eraill ymhlith y rhai 18 i 24 oed, yn ymwneud ag amrywiaeth o sylweddau gan gynnwys heroin/morffin, cocên, bensodiasepinau ac ecstasi.

Yn ystod yr un cyfnod, bu cyfanswm o ddwy farwolaeth gofrestredig yn ymwneud ag alcohol ymhlith plant a phobl ifanc hyd at 18 oed, a 41 o farwolaethau eraill cysylltiedig ag alcohol ymhlith y rhai 18 i 24 oed.

<sup>40</sup> Inchley J, Currie D, Budisavljevic S, Torsheim T, Jåstad A, Cosma A et al., golygyddion. Spotlight on adolescent health and well-being. Findings from the 2017/2018 Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) survey in Europe and Canada. Adroddiad rhyngwladol. Cyfrol 1. Canfyddiadau allweddol. Copenhagen: Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop; 2020. Trwydded: CC BY-NC-SA 3.0 IGO. [Spotlight on adolescent health and well-being](#)

### 2.7.5 Arolwg troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr

Bob blwyddyn, mae'r arolwg troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn cyhoeddi cyffredinrwydd amcangyfrifedig defnydd o sylweddau ymhlith unigolion rhwng 16 a 24 oed. Nid yw'r data'n benodol i Gymru, felly cynghorir elfen o ofal. At hynny, o ganlyniad i'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data, nid yw'r arolwg yn cyfleu defnydd problemus yn effeithiol.

Mae cyfran y bobl ifanc (16-24 oed) sy'n defnyddio cyffuriau wedi aros yn gymharol sefydlog o gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Bu cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc sy'n defnyddio canabis (16 y cant i 17 y cant) a chetamin (2 y cant i 3 y cant). Mae'r gyfran sy'n defnyddio amffetaminau wedi gostwng o 2 y cant i 1 y cant. Mae'r defnydd o opioidau a adroddir yn y boblogaeth yn isel o hyd.

### 2.7.6 Data Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr<sup>41</sup> yn adrodd yn gyson fod pobl iau yn fwy tebygol o gymryd cyffuriau na phobl hŷn. Roedd lefel unrhyw ddefnydd o gyffuriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ei uchaf ymhlith pobl ifanc 16 i 19 oed (16.9 y cant) ac 20 i 24 oed (21.8 y cant). Cyfran yr oedolion ifanc a oedd wedi'u dosbarthu'n ddefnyddwyr cyffuriau mynych oedd 4.1 y cant (sy'n gyfwerth ag oddeutu 248,000 o bobl ifanc). Ymhlith oedolion iau 16 i 24 oed, canabis oedd y cyffur mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2017/18, ac roedd 16.7 y cant wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (tua miliwn o oedolion ifanc).<sup>42</sup>

### 2.7.7 Effaith defnydd o sylweddau ar Blant a Phobl Ifanc

Ymhlith pobl ifanc, dangoswyd bod dechrau yfed alcohol yn gynnar yn gysylltiedig â goryfed mewn pyliau, yfed yn drwm a phroblemau cysylltiedig ag alcohol yn ddiweddarach<sup>43</sup> mewn astudiaethau hydredol rhagolygol. <sup>44,45, 46</sup>

---

<sup>41</sup> Y Swyddfa Gartref (2018) Camddefnyddio Cyffuriau: Canfyddiadau o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2017/18. Bwletin ystadegol 14/18. Y Swyddfa Gartref 2018 tud.11 Gorffennaf 2018

<sup>42</sup> Y Swyddfa Gartref (2018) Camddefnyddio Cyffuriau: Canfyddiadau o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2017/18. Bwletin ystadegol 14/18. Y Swyddfa Gartref 2018 tud.11

<sup>43</sup> Kandel D a Kandel E. The Gateway Hypothesis of substance abuse: developmental, biological and societal perspectives. *Acta Paediatrica*. 2015. 104 (2); 130-137.

<sup>44</sup> Moss HB, Cheng CM a Yi H. Early adolescent patterns of alcohol, cigarettes, and marijuana polysubstance use and young adult substance use outcomes in a nationally representative sample. *Drug and Alcohol Dependence*. 2014. Cyfrol 136: 51-62. [Early adolescent patterns of alcohol, cigarettes, and marijuana polysubstance use and young adult substance use outcomes in a nationally representative sample - ScienceDirect](#)

<sup>45</sup> Trezn RC, Scherer M, Harrell P, Zur J, Sinhar A, Latimer W. Early onset of drug and polysubstance use as predictors of injection drug use among adult drug users. *Addictive Behaviours* 2012. Cyfrol 37 (4); 367-372. [Early onset of drug and polysubstance use as predictors of injection drug use among adult drug users - ScienceDirect](#)

<sup>46</sup> Winters KC a Lee CS. Likelihood of developing an alcohol and cannabis use disorder during youth: Association with recent use and age. *Drug and Alcohol Dependence*. 2008. Cyfrol 92 (1-3); 239-247. [Likelihood of developing an alcohol and cannabis use disorder during youth: Association with recent use and age - ScienceDirect](#)

Dangosodd meta-ddadansoddiad diweddar fod defnyddio canabis yn rheolaidd yn ystod blaenlencyndod yn dyblu'n fras risgiau gadael yr ysgol yn gynnar a nam gwybyddol a seicosisau yn ystod oedolaeth.<sup>47</sup> Yn ogystal, mae cysylltiad cryf rhwng defnyddio canabis yn rheolaidd yn ystod blaenlencyndod a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon eraill. Y farn gyffredinol yw y dylai ymyriadau ymdrechu'n bennaf i geisio lleihau neu oedi'r defnydd cyntaf neu atal symud o ddefnydd arbrofol i ddibyniaeth.

O ran sylweddau seicoweithredol newydd, ystyrir bod pobl ifanc mewn perygl uchel, nid o reidrwydd oherwydd eu bod mewn perygl uwch o niwed aciwt, ond oherwydd y gallai defnydd yn ystod y cam hwn o'u datblygiad sefydlu ymddygiad yn ymwneud â chyffuriau yn y dyfodol, fe allai arwain at fwy o flynyddoedd o iechyd gwael, ac efallai na fyddant wedi datblygu'r adnoddau i 'hunanreoli' eu defnydd o gyffuriau.<sup>48</sup>

### **2.7.8 Defnydd a marchnadoedd cyffuriau amrywiol**

Fel y gwelwyd o'r samplau a gyflwynwyd gan unigolion 25 oed ac iau i wasanaeth lleihau niwed a dadansoddi WEDINOS (Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru), mae'r ystod o sylweddau a ddefnyddir gan y grŵp oedran hwn yn amrywiol iawn. O fewn 406 o samplau a gyflwynwyd gan unigolion 12 i 25 oed rhwng 2013 a 2019, amlygwyd 117 o sylweddau gan gynnwys amffetamin, canabis, cocên, heroin ac MDMA, yn ogystal â rhithbeiriau. Amlygwyd sylweddau seicoweithredol newydd o'r categorïau sylweddau iselyddion, adfywiol a rhithbair hefyd; ac felly hefyd gweithyddion derbynnydd canabinoid synthetig, meddyginiaethau presgripsiwn yn unig, a chyffuriau gwella delwedd a pherfformiad.

### **2.7.9 Pobl Ifanc a Throseddu**

Mae pobl ifanc mewn perygl o ddod i gysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder troseddol, yn benodol y System Cyfiawnder Ieuencid, o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon, trwy droseddau meddiangar i ariannu camddefnydd o sylweddau a/neu drwy eu hymddygiad tra'u bod dan ddylanwad sylweddau. Gallai'r cysylltiad hwn arwain at gofnod troseddol parhaol, gyda goblygiadau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ac economaidd yn y dyfodol yn ogystal â chyfyngiadau posibl ar deithio. Mae plant a phobl ifanc hefyd mewn perygl uwch o ymwneud â throseddu difrifol a chamfanteisio, gan gynnwys trais, yn sgil ymddangosiad llinellau cyffuriau.

---

<sup>47</sup> Hall W. What has research over the past two decades revealed about the adverse health effects of recreational cannabis use? *Addiction*. 2014. Cyfrol 110(1); 19-35. [What has research over the past two decades revealed about the adverse health effects of recreational cannabis use? - Hall - 2015 - Addiction - Wiley Online Library](#)

<sup>48</sup> Canolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau, *Ymatebion iechyd i sylweddau seicoweithredol newydd*, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg (2016)

Yn 2019, cafodd tua 22,000 o blant a phobl ifanc eu rhybuddio neu eu dedfrydu ar ôl cyflawni trosedd yng Nghymru a Lloegr, ac roedd 986 yn byw yng Nghymru (4.5 y cant).<sup>49</sup> Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuencid yn ffurfiol wedi gostwng 83 y cant, gan fod niferoedd cynyddol o unigolion yn cael eu dargyfeirio i ddatrysiadau adfer cymunedol, neu waith 'atal' a hwylusir gan y gwasanaeth troseddau ieuencid. Oherwydd bod datrysiadau o'r fath yn anstatudol, nid oes system ddata ffurfiol na chanolog yn bodoli ar hyn o bryd i ddangos faint o blant a phobl ifanc sy'n cael cymorth o'r fath a natur y cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau sylweddol mewn niferoedd llwythi achosion gwasanaethau troseddau ieuencid cenedlaethol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, o 127,197 yn 2009 i 22,038 yn 2019, yn rhoi syniad o faint o bobl ifanc sy'n cael eu cynorthwyo bellach trwy ddulliau anstatudol.

Gwelir tuedd debyg hefyd yn nifer y plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa; y boblogaeth fisol gyfartalog a welwyd yn 2019 oedd 860 o unigolion, o gymharu â 2,900 yn y ddalfa bob mis yn 2009. Fodd bynnag, mae hyd cyfartalog dedfrydau o garchar wedi cynyddu chwe mis yn ystod yr un cyfnod, o 11.4 mis i 17.7 mis. Ymhlith y 2,651 o droseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc yn 2019 ledled Cymru, categoreiddiwyd 7 y cant yn droseddau cyffuriau profedig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y troseddau cyffuriau wedi gostwng bron dau draean, o 528 yn 2013/14 i 180 yn 2018/19.

Mae adroddiadau a chyhoeddiadau arferol ynglŷn ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl) yn gyfyngedig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael cymorth cyfiawnder ieuencid. Mae hyn yn amlygu bwlch yn y wybodaeth o ran gofynion cymorth a natur newidiol defnydd o sylweddau a niwed cysylltiedig ymhlith y boblogaeth hon. Mae amcangyfrifon blaenorol o gyffredinrwydd wedi dangos lefelau uchel o ddefnydd o sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc sy'n mynychu gwasanaethau Timau Troseddau Ieuencid ledled Cymru a Lloegr,<sup>50</sup> gan ddatgan bod;

- 91% wastad yn yfed alcohol.
- 86% wastad yn defnyddio canabis.
- 44% wastad yn cymryd ecstasi.
- 25% wastad yn defnyddio cocên.
- 11% wastad yn defnyddio cocên.

At hynny, mae astudiaethau llai wedi amlygu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol uchel a chymhleth ymhlith carfannau o blant a phobl ifanc â chyfraddau uwch o aildroseddu, sy'n nodi bod cynifer â 95 y cant yn dangos problemau camddefnyddio

---

<sup>49</sup> Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020). Ystadegau cyfiawnder ieuencid: 2018 i 2019. Ar gael yn: [Youth justice statistics: 2018 to 2019 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/youth-justice-statistics-2018-to-2019)

<sup>50</sup> Swyddfa Gartref (2003). Defnydd o Sylweddau gan Droseddwyr Ifanc. Ar gael yn: [\[ARCHIVED CONTENT\] \(nationalarchives.gov.uk\)](https://www.nationalarchives.gov.uk/ukiafrica/defnydd-o-sylweddau-gan-droseddwyr-ifanc/)

sylweddau parhaus<sup>51</sup>, ynghyd â chyfraddau uchel o gamdriniaeth/esgeulustod, profiad o drawma, bod yn dyst i drais yn y teulu, ac angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol.

---

<sup>51</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru (2012). Proffilio Pobl Ifanc â hanes troseddu cyson iawn

### 3 Llwybr ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig

#### 3.1 Atal, ymgysylltu'n gynnar ac allgymorth

##### 3.1.1 Atal – dulliau lefel poblogaeth

Mae dulliau atal cyffredinol yn ceisio amlygu a mynd i'r afael â ffactorau risg ac atal amlygiad i ddefnydd a dechrau defnyddio,<sup>52</sup> trwy ddarparu ymyriadau ar lefel y boblogaeth ac, ar gyfer pobl ifanc, trwy addysg gyffredinol ar atal o fewn ysgolion a'r Dull Ysgol Gyfan.<sup>53</sup> Prin yw'r dystiolaeth o ymyriadau atal camddefnyddio cyffuriau cyffredinol wedi'u bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n effeithiol, yn dderbyniol ac yn gost effeithiol,<sup>54,55</sup> ac nid yw dulliau sy'n defnyddio ofn, codi bwganod, a darparu gwybodaeth yn unig ('addysg gyffuriau') yn cynhyrchu canlyniadau buddiol, ond mae'n ymddangos bod rhai elfennau, gan gynnwys sgiliau bywyd ac archwilio credoau normadol, yn effeithiol.<sup>56,57</sup>

Mae tystiolaeth glir i ddangos bod dulliau atal sy'n dibynnu ar ymgyrchoedd cyfryngau torfol ac addysg annibynnol yn aneffeithiol.<sup>58</sup> Felly, dylai ymgyrchoedd cyfryngau torfol gael eu cynnal dim ond fel rhan o raglenni aml-elfen i gefnogi gwaith atal yn yr ysgol. Mae diffiniadau clir ac iaith gyffredin yn hanfodol i sicrhau dull cyson a chyfartal o fynd i'r afael â strategaethau atal ac ymgysylltu'n gynnar.

##### 3.1.2 Rhaglenni wedi'u Targedu

Mae rhaglenni wedi'u targedu yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc y mae eu ffactorau risg ac amddiffynnol yn effeithio ar ba mor agored ydynt i ddefnyddio sylweddau a symud o ddefnydd i gamddefnydd, neu ddefnydd problemus sy'n arwain at niwed aciwt neu gronig. Mae tystiolaeth yn cefnogi'r angen am ymyriadau atal penodol i gyffur, wedi'u targedu, ar gyfer yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod

---

<sup>52</sup> Toumbourou JW, Stockwell T, Neighbors C, Marlatt GA, Sturge J, Rehm J. Interventions to reduce harm associated with adolescent substance use. *The Lancet*. 2007;369(9570):1391-401

<sup>53</sup> Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru. 2021. Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#)

<sup>54</sup> NICE (2017). Atal camddefnyddio cyffuriau: ymyriadau wedi'u targedu [Drug misuse prevention: targeted interventions \(nice.org.uk\)](#)

<sup>55</sup> Llywodraeth Cymru (2018). Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180419-review-working-together-reduce-harm-cy.pdf>

<sup>56</sup> Sneddon, H. (2015). LifeSkills substance misuse prevention programme: Evaluation of implementation and outcomes in the UK. Belfast: Barnardo's.

<sup>57</sup> Canolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau (2017), Ymatebion iechyd a chymdeithasol i broblemau cyffuriau: canllaw Ewropeaidd, Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg. Ar gael yn: [Health and social responses to drug problems: A EUROPEAN GUIDE](#)

<sup>58</sup> Brotherhood AB, Atkinson A, Bates G, Sumnall HR (2013) Adolescents as customers of addiction. ALICE RAP Deliverable 16.1, Work Package 16. Background report 2: Review of reviews. Lerpwl: Y Ganolfan Iechyd Cyhoeddus

mewn perygl uchel o niwed, a dilysrwydd yr ymyriadau hynny.<sup>59 60</sup> Mae dulliau wedi'u targedu yn cynnwys strategaethau atal sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a rhyngweithiadau cymdeithasol, gan gynnwys gyda chyfoedion, yn ogystal ag ymyriadau detholus sy'n defnyddio dangosyddion cymdeithasol a demograffig. Mae'r rhain yn ceisio amlygu risgiau ychwanegol posibl a dulliau atal a awgrymir sy'n helpu i ddelio ac ymdopi â nodweddion personoliaeth a seicopatholeg unigol.<sup>61</sup> Mae Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau (UNODC) wedi cynnal adolygiad systematig mawr o atal,<sup>62</sup> fel y dangosir yn ffigur 1, sy'n mynd i'r afael â'r ystod o gamau hynt bywyd a lleoliadau a ddylai gael eu cynnwys, ynghyd â chyfres o safonau ar gyfer atal defnydd o gyffuriau.<sup>63</sup> O ran 'yr hyn sy'n gweithio', rhoddir pwyslais ar ymyriadau sy'n ceisio datblygu gwydnwch ehangach, oherwydd dangoswyd bod y rhain yn effeithiol mewn perthynas ag ystod ehangach o ffactorau risg ac ymddygiadau gan gynnwys triwntiaeth, iechyd rhywiol a throseddau yn ogystal â defnyddio sylweddau.

---

<sup>59</sup> Cyngor Cyngori ar Gamddefnyddio Cyffuriau (2015). Atal dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Briffiad gan y Pwyllgor Adfer

<sup>60</sup> NICE (2017). Atal camddefnyddio cyffuriau: ymyriadau wedi'u targedu [Drug misuse prevention: targeted interventions \(nice.org.uk\)](https://www.nice.org.uk/targeted-interventions)

<sup>61</sup> Pwyllgor y Sefydliad Meddygaeth (yr Unol Daleithiau) ar Atal Anhwylderau Meddyliol, Mrazek PJ, Haggerty RJ, goln. Reducing Risks for Mental Disorders: Frontiers for Preventive Intervention Research. Washington (DC): National Academies Press (yr Unol Daleithiau); 1994.

<sup>62</sup> Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau. Tabl crynhoi strategaethau seiliedig ar dystiolaeth a amlygwyd yn Safonau Rhyngwladol UNODC/WHO ar Atal Defnydd o Gyffuriau – Ail Argraffiad wedi'i Ddiweddarau, RHAG-GYHOEDDIAD. FERSIWN: Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau, 2019. Trwydded: CC BY-NC-SA 3.0 IGO.


<sup>63</sup> Safonau Rhyngwladol UNODC/WHO ar Atal Defnydd o Gyffuriau. Ail argraffiad wedi'i ddiweddarau. Ar gael yn: [Safonau Rhyngwladol ar Atal Defnydd o Gyffuriau](#)

**Summary table of evidence-based strategies identified in the  
UNODC/ WHO International Standards on Drug Use Prevention – Second Updated Edition**

PRE-PUBLICATION VERSION

Strategy identified in the 1<sup>st</sup> edition of the Standards

Strategy added in the 2<sup>nd</sup> updated edition of the Standards



**Ffigur 1 – Tabl crynhoi strategaethau seiliedig ar dystiolaeth ar atal defnydd o gyffuriau, UNODC**

Mae dau fath cyffredinol o raglenni wedi'u targedu:

Yn gyntaf, mae rhaglenni wedi'u targedu yn canolbwyntio ar **liniaru ffactorau risg amffactoraidd a gwella ffactorau amddiffynnol**, trwy fynd i'r afael ag anghenion cyfannol y person ifanc a phryderon bioseicogymdeithasol sy'n cydfodoli.

Amlygwyd bod y canlynol yn ffactorau risg clir ar gyfer defnyddio cyffuriau yn y dyfodol:

- Camarfer yn ystod plentynodod.
- Cyfoedion sy'n defnyddio sylweddau.
- Defnyddio canabis am y tro cyntaf pan fônt yn iau.<sup>64</sup>

Ffactorau sy'n amddiffyn rhag defnyddio cyffuriau yn y dyfodol:

- Agwedd gadarnhaol tuag at yr ysgol.<sup>65</sup>
- Ymlyniadau cadarnhaol a chryf, sgiliau ac adnoddau (mewnol ac amgylcheddol).<sup>66</sup>

<sup>64</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) Beth yw'r ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer camddefnyddio cyffuriau? Adroddiad llawn ac adolygiad systematig. Dogfen fewnol.

<sup>65</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) Beth yw'r ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer camddefnyddio cyffuriau? Adroddiad llawn ac adolygiad systematig. Dogfen fewnol

<sup>66</sup> Canolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau (2009), Atal anhwylderau defnyddio sylweddau diweddarach mewn plant a'r glasod sydd mewn perygl: adolygiad o

Bydd ffactorau risg ac amddiffynnol yn amrywio rhwng unigolion, maen nhw'n gymhleth, yn gyd-ddibynnol ac ni ellir eu hystyried ar wahân. Dylid bod yn ystyriol o hyn wrth lunio a darparu rhaglenni wedi'u targedu.

Yr ail fath o raglenni wedi'u targedu yw'r rhai hynny sy'n canolbwyntio'n benodol ar sylweddau, defnydd a niwed cysylltiedig, gan gynnwys dulliau lleihau niwed (gweler Adran 3.3).

### **3.1.3 Gwasanaethau ymgysylltu'n gynnar**

Mae gwasanaethau sy'n cynnig rhaglenni ymgysylltu'n gynnar yn canolbwyntio ar oedi neu leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn symud o ddefnyddio sylweddau i'w camddefnyddio, cyfyngu ar y niwed sy'n gysylltiedig â defnydd, ac osgoi symud ymlaen i ddibyniaeth. Yn nodweddiadol, mae ymyriadau a ddarperir gan wasanaethau ymgysylltu'n gynnar wedi'u hanelu at bobl iau sydd mewn perygl o ddechrau defnyddio sylweddau neu sydd wedi defnyddio sylweddau ond nid ar lefel ddifrifol. Fel arfer, mae angen i bobl iau y mae eu hanghenion wedi dwysáu y tu hwnt i'r lefelau hyn gael gwasanaethau arbenigol asiantaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau.

Dylai gwasanaethau ymgysylltu'n gynnar fynd ati i ddarparu rhaglenni cyffuriau ac alcohol yn unol â'r ddau fath cyffredinol o raglenni wedi'u targedu. Gallai gwasanaethau gynnwys rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol sy'n cynnig ystod o wasanaethau iechyd a lles, er enghraifft, cyngor ar iechyd rhywiol a pherthnasoedd, gwasanaethau cymorth seicogymdeithasol, hyfforddiant sgiliau a gwydnwch, chwaraeon a gweithgareddau dargyfeiriol eraill. Dylai'r rhaglenni hyn geisio darparu amgylchedd neu wasanaeth cadarnhaol, addasol ac anfarnol sy'n cynnwys ymyriadau wedi'u llywio gan dystiolaeth i fodloni anghenion pobl ifanc. Dylai'r gwasanaethau hyn gynorthwyo pobl ifanc i barhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u teuluoedd/gofalwyr, addysg a'r gymuned.

I gyflawni hyn, mae angen i wasanaethau ymgysylltu'n gynnar feddu ar yr adnoddau, y capasiti a'r gallu i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau cymunedol. Dylai pobl ifanc allu cael mynediad rhwydd at wasanaethau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), addysg, tai a chymorth teuluol. Yn ogystal, os asesir bod anghenion y person ifanc yn gymhleth a bod angen cyfraniad gan wasanaethau arbenigol, dylai llwybrau a chymorth clir fod ar waith i sicrhau proses bontio amserol a didrafferth i wasanaethau arbenigol, gan gynnwys y rhai hynny y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles a chamddefnyddio sylweddau.

---

ddamcaniaeth a sylfaen dystiolaeth strategaethau atal a awgrymir. Papurau thematig. Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, Lwcsembwrg (ar gael yn: [Preventing later substance use disorders in at-risk children and adolescents | www.emcdda.europa.eu](http://www.emcdda.europa.eu)).

### 3.1.4 Safonau ar gyfer atal ac ymyriadau ymgysylltu'n gynnar

Mae safonau ansawdd atal cyffuriau cynnar y Ganolfan Fonitro Ewropeaidd ar gyfer Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau (EMCDDA)<sup>67 68</sup> yn amlygu'r egwyddorion craidd canlynol a ddylai fod yn sail i'r holl weithgareddau atal ac ymgysylltu'n gynnar:

- Mae hawliau ac annibyniaeth y cyfranogwyr yn cael eu parchu.
- Mae buddion go iawn yn cael eu darparu i'r cyfranogwyr (h.y. sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i'r cyfranogwyr).
- Nid yw'r ymyrraeth yn achosi unrhyw niwed nac anfanteision sylweddol i'r cyfranogwyr.
- Ceir cydsyniad y cyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan.
- Mae cyfranogiad yn wirfoddol.
- Mae'r ymyriadau wedi'u teilwra i anghenion y cyfranogwyr.
- Mae'r cyfranogwyr yn ymwneud fel partneriaid wrth ddatblygu, gweithredu, a gwerthuso'r rhaglen.

Dylai rhaglenni atal ac ymgysylltu'n gynnar helpu i ddatblygu gwerthoedd, agweddau a sgiliau sy'n galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â defnyddio sylweddau. Yn ogystal, amlygwyd bod dulliau effeithiol o atal ac ymgysylltu'n gynnar:

- Yn ffeithiol ac yn gywir.
- Yn anfarnol.
- Yn rhyngweithiol ac yn gyfranogol – gan ysgogi a meithrin hyder.
- Yn cywiro credoau anghywir.
- Yn gallu darparu cyfleoedd trafodol amgen i herio credoau cyfoedion ar yr un pryd â chydabod gwerth safbwyntiau'r bobl ifanc.
- Yn berthnasol i sefyllfa gymdeithasol go iawn y bobl ifanc.
- Yn arloesol trwy ddefnyddio ystod o arddulliau dysgu.

Dylai llunwyr polisïau, comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaethau sicrhau bod rhaglenni atal ac ymgysylltu'n gynnar yn cael eu darparu a'u strwythuro o amgylch nodau ac amcanion clir.

Dylai gwasanaethau / sefydliadau werthuso deunyddiau'n feirniadol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu ar y cyd â phobl ifanc, ac nad ydynt yn gwrth-ddweud profiadau personol pobl ifanc nac yn ymddangos fel petaent wedi'u seilio ar 'orliwiadau oedolion'.<sup>69</sup>

---

<sup>67</sup> EMCDDA (2011). Safonau ansawdd Ewropeaidd ar atal cyffuriau. [European drug prevention quality standards \(EDPQS\) | www.emcdda.europa.eu](https://www.emcdda.europa.eu/standards)

<sup>68</sup> EMCDDA (2013). Safonau ansawdd Ewropeaidd ar atal cyffuriau: canllaw cyflym [European drug prevention quality standards: a quick guide | www.emcdda.europa.eu](https://www.emcdda.europa.eu/standards)

<sup>69</sup> Jenkins et al. Developing harm reduction in the context of youth substance use: insights from a multi-site qualitative analysis of young people's harm minimization strategies. Harm Reduction Journal, 2017; 14:53

### 3.1.5 Technolegau digidol a chynhyrchu ar-lein

Yn ôl data ar draws Ewrop ar ffynonellau gwybodaeth am gyffuriau anghyfreithlon a defnydd o gyffuriau, y rhyngrwyd yw'r ffynhonnell wybodaeth a grybwyllwyd amlaf gan 59 y cant o bobl ifanc, ac yna ffrindiau (36 y cant), meddygon, nyrsys neu weithwyr iechyd proffesiynol (31 y cant), rhieni neu berthnasau (25 y cant), neu gwnselwyr neu wasanaethau cyffuriau arbenigol (21 y cant). Nifer gymharol fach o ymatebwyr fyddai'n troi at yr heddlu (13 y cant), y cyfryngau (10 y cant), rhywun yn yr ysgol neu'r gwaith (9 y cant), gweithwyr cymdeithasol neu ieuencid (6 y cant), neu linell ffôn gymorth (4 y cant).<sup>70</sup> Trwy ddefnyddio technolegau digidol a chyfryngau cymdeithasol, gall ymyriadau atal ac ymgysylltu'n gynnar gael eu cynnig i ystod eang o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny, ac maen nhw'n gallu caniatáu iddynt aros yn ddienw.<sup>71</sup> Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd defnyddio dulliau o'r fath i leihau defnydd o gyffuriau ymhlith plant a phobl ifanc yn gyfyngedig o hyd.

### 3.1.6 Darparu gwasanaethau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol

Mae ymddygiad peryglus sy'n niweidio iechyd ymhlith pobl ifanc, fel defnyddio cyffuriau a/neu alcohol, ysmegu ac ymddygiad rhywiol peryglus, yn gallu cyd-ddigwydd ac mae llawer o wahanol fathau o ymddygiad peryglus yn gysylltiedig â chanlyniadau niweidiol, lles emosiynol gwaeth ac anafiadau angheuol a heb fod yn angheuol.<sup>72, 73</sup> Mae sylfaen dystiolaeth gref a chynyddol sy'n dangos bod ymyriadau ar gyfer llawer o wahanol fathau o ymddygiad iechyd yn effeithiol ac yn gost-effeithiol,<sup>74 75</sup> sy'n awgrymu y gellir cyflawni dulliau mwy effeithlon o atal neu leihau ymddygiad peryglus ymhlith pobl ifanc na thrwy ddulliau sy'n canolbwyntio ar un ffactor risg (h.y. cyffuriau yn unig). Mae enghreifftiau arfer gorau o wasanaethau ymgysylltu yng Nghymru wedi dangos dulliau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol integredig effeithiol gydag amrywiaeth eang o wasanaethau statudol, gwirfoddol a phreifat sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys:<sup>76</sup>

---

<sup>70</sup> Flash Eurobarometer 401, Young People and Drugs, Y Comisiwn Ewropeaidd, Brwsel, 2014

<sup>71</sup> NICE (2017). Atal camddefnyddio sylweddau: ymyriadau wedi'u targedu [Drug misuse prevention: targeted interventions \(nice.org.uk\)](https://www.nice.org.uk/targeted-interventions)

<sup>72</sup> Hale DR, Viner RM (2012) Policy responses to multiple risk behaviours in adolescents. *Journal of Public Health* 34 (S1): 11-19

<sup>73</sup> Khadr SN, Jones KG, Mann S, et al. Investigating the relationship between substance use and sexual behaviour in young people in Britain: findings from a national probability survey. *BMJ Open*, 2016; 6:e011961.doi:10.1136/bmjopen-2016-011961

<sup>74</sup> Prochaska JJ, Spring B, Nigg CR (2008). Multiple health behaviour change research: an introduction and overview. *Prev Med* 2008;46:181-8

<sup>75</sup> Werch CE, Moore MJ, Bian H, DiClemente CC, Huang I-C, Ames SC, Thoms D, Weiler RM, Pokorny SB (2010). Are effects from a brief multiple behaviour intervention for college students sustained over time? *Preventive Medicine*, 50, 30-34

<sup>76</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc – Diwrnod Rhanddeiliaid (Mawrth 2019)

- Ysgolion, sefydliadau ieuenctid, a gwasanaethau ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Gwasanaethau iechyd, fel gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd cymunedol, iechyd meddwl, iechyd rhywiol ac atgenhedlu, cyffuriau ac alcohol, a gwasanaethau nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd.
- Gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl mewn grwpiau risg uchel (e.e. plant sy'n derbyn gofal / pobl sy'n gadael gofal, gofawyr ifanc, ceiswyr lloches, pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref).
- Gwasanaethau cyfiawnder troseddol cymunedol, gan gynnwys ar gyfer oedolion, Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, a gwasanaethau cyfiawnder teuluol.
- Lleoliadau iechyd aciwt e.e. gwasanaethau damweiniau ac achosion brys.

Mae dull amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol yn golygu bod angen i'r gweithlu ar draws y gwasanaethau gael hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar sut i ddarparu addysg am sylweddau a lledaenu negeseuon cyson ynglŷn â lleihau niwed (gweler Adran B Hyfforddiant a datblygu'r gweithlu).

Ni ddylai gweithgareddau ymgysylltu cynnar amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol gael eu cyfyngu i ganolfan benodol/swyddfeydd na chyfleusterau addysgol. Dylent fod ar gael mewn safleoedd a lleoliadau a fynychir gan bobl ifanc sy'n defnyddio sylweddau neu sydd mewn perygl o ddefnyddio sylweddau, yn ogystal ag allgymorth ar y stryd.<sup>77</sup> Dylai lleoliadau gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Clybiau nos, gwyliau a digwyddiadau a drefnwyd.
- Gwasanaethau iechyd ehangach, fel gwasanaethau iechyd rhywiol ac atgenhedlu neu ofal sylfaenol.
- Parciau ac ardaloedd hamdden.
- Llety â chymorth neu hostelaau ar gyfer pobl nad oes ganddynt llety parhaol.
- Campfeydd, er mwyn targedu pobl ifanc sy'n cymryd, neu'n ystyried cymryd, cyffuriau sy'n gwella delwedd a pherfformiad (IPEDs) a sylweddau eraill.

Mae darparu gweithgareddau atal ac ymgysylltu'n gynnar mewn ystod eang o safleoedd a lleoliadau yn cynyddu hygyrchedd ac yn rhoi cyfle i ymgysylltu â'r bobl ifanc anodd eu cyrraedd sydd yn y perygl mwyaf, fel y rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a'r rhai sy'n derbyn gofal neu sydd ar gyrion gofal.

---

<sup>77</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc – Diwrnod Rhanddeiliaid (Mawrth 2019)

### 3.1.7 Ystyriaethau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau penodol

#### 3.1.7.1 Ystyriaethau wrth ymgysylltu â phobl ifanc o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

Defnyddir y term cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol i ddisgrifio pobl sydd o gefndir nad yw'n wyn Prydeinig, ond mae'n rhaid cydnabod nad yw'r term hwn yn cyfleu'r gwahaniaethau diwylliannol amrywiol sy'n bodoli o fewn y cymunedau hyn, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng cenedlaethau, rhywiau a chrefyddau.<sup>78</sup> Gallai gwahaniaethau diwylliannol ddylanwadu ar y sylweddau a ddefnyddir a'u derbynioldeb. Er enghraifft, mae Khat wedi cael ei ddefnyddio'n gymdeithasol ymhlith rhai cymunedau Somaliaidd a Yemeni fel ffordd o dreulio amser ac i'w helpu i ganolbwyntio. At hynny, gallai gwahaniaethau diwylliannol hefyd ddylanwadu ar barodrwydd unigolyn i geisio cymorth neu driniaeth. Er enghraifft, mewn rhai cymunedau Asiaidd Deheuol a Tsieineaidd, mae'r stigma sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau nid yn unig yn cael ei gyfeirio at y defnyddiwr, ond at ei deulu cyfan hefyd, gan arwain o bosibl at guddio a gwadu defnydd.<sup>79</sup>

Gyda hyn mewn golwg, dylai gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau geisio datblygu perthynas waith gyda gwasanaethau ethnig lleiafrifol arbenigol neu, mewn ardaloedd lle y ceir poblogaethau uchel iawn o leiafrifoedd ethnig, dylid comisiynu gwasanaethau ethnig lleiafrifol arbenigol. Dylai gwaith integredig o'r fath sicrhau sensitifrwydd diwylliannol a mynediad at wasanaethau amlieithog (sy'n berthnasol i anghenion y gymuned leol), ar yr un pryd â mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau, o bosibl.<sup>80</sup>

Dylai gwasanaethau amlieithog a diwylliannol gymwys ddarparu negeseuon lleihau niwed ac addysg am sylweddau mewn amrywiaeth o fformatau, yn amrywio o ddulliau llafar ac ysgrifenedig i gyfryngau gweledol, i'w gwneud mor hygyrch â phosibl.<sup>81, 82</sup> Yn ogystal, dylai gwybodaeth gyhoeddus fod ar gael i sicrhau bod pobl leol yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd ar gael a'u gwerth. Gallai llawer o aelodau cymunedau ethnig lleiafrifol gael gwybodaeth gan eu meddyg teulu, teulu a ffrindiau, arweinwyr crefyddol neu gymunedol a sefydliadau cymunedol. Felly, dylai gweithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau camddefnyddio

---

<sup>78</sup> Issues in treatment recovery, Treatment and recovery: Black and Minority Ethnic Communities; Adfam; 2015; [News | Adfam](#) [cyrchwyd 7th August 2020]

<sup>79</sup> The Impact Of Drugs on Different Minority Groups: A Review Of The UK Literature, Part 1: Ethnic groups; Comisiwn Polisi Cyffuriau'r Deyrnas Unedig; July 2010; [Evidence review - The impact of drugs on different minority groups ethnic groups.pdf \(ukdpc.org.uk\)](#) [accessed 7th August 2020]

<sup>80</sup> Working together: Helping to support and transform the lives of people affected by drug and alcohol problems; Local Government Association; [22 29 Substance Misuse Case Studies\\_05WEB.pdf \(local.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 7 Awst 2020]

<sup>81</sup> Drugs and Diversity: Ethnic minority groups, Learning from the evidence; Comisiwn Polisi Cyffuriau'r Deyrnas Unedig; [Policy report - Drugs and diversity ethnic minority groups \(policy briefing\).pdf \(ukdpc.org.uk\)](#) [cyrchwyd 7 Awst 2020]

<sup>82</sup> Llywodraeth Cymru. Iechyd a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches: canllawiau ar gyfer byrddau iechyd. [Iechyd a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches: canllawiau ar gyfer byrddau iechyd | LLYW.CYMRU](#)

sylweddau geisio cysylltu ag aelodau o'r ystod o grwpiau perthnasol a chyfoedion i gefnogi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad.<sup>80</sup>

Mae tystiolaeth yn dangos bod aelodau o'r gymuned ethnig lleiafrifol o'r farn bod gwasanaethau triniaeth yn llai hygyrch nag aelodau eraill o'r boblogaeth<sup>83</sup> os byddant yn penderfynu chwilio amdanynt, o ystyried stigma neu ddefnydd o gyffuriau a dderbynnir yn ddiwylliannol. Mae aelodau o gymunedau ethnig lleiafrifol yn awgrymu y dylai gwasanaethau gael eu darparu mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys:

- ysgolion a chanolfannau cymunedol.
- clybiau ieuencid, colegau a phrifysgolion.
- gallai lleoliadau ar gyfer rhyw penodol fod yn bwysig i rai grwpiau.<sup>84</sup>

Cefnogir hyn gan ddarparwyr gwasanaethau, sy'n argymhell estyn allan yn rhagweithiol i sefydliadau cymunedol a darparu gwasanaethau allgymorth, er mwyn cynyddu amlygrwydd a mynediad. Dylai gwasanaethau gweladwy ddarparu gwybodaeth i arweinwyr cymunedol, sy'n sôn am y cymorth sydd ar gael ar gyfer camddefnyddio sylweddau, gan felly sicrhau y gallant gyfeirio'r rhai hynny sy'n cael problemau cyffuriau a/neu alcohol a phroblemau cysylltiedig at y gwasanaethau priodol.

### **3.1.7.2 Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc LHDT+ a darparu gwasanaethau ar eu cyfer**

Mae LHDT+ yn derm cynhwysol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl sy'n ystyried eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, cwestiynu a mwy sy'n caniatáu ar gyfer cynrychioli hunaniaethau rhywiol eraill gan gynnwys panrywiol ac anrhywiol. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc LHDT+ mewn perygl uwch o gamddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar sylweddau, a'u bod bron dwywaith mor debygol o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol o gymharu â'u cyfoedion heterorywiol.<sup>85</sup> Mae'r ffactorau risg a'r perygl uwch sy'n gysylltiedig â defnydd o gyffuriau yn cael eu gwaethygu gan brofiadau o fwlio ac aflonyddu, ymatebion negyddol ac anffafriol i ddatgelu, rhwystrau rhag cael cymorth a stigma.<sup>70</sup>

Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gynnwys pobl LHDT+ a bod yn ddiwylliannol sensitif iddynt, a dylai'r gwasanaethau a ddarperir fod ar gael yn gyfartal i'r rhai sy'n ystyried eu bod yn LHDT+. Dylid rhoi hyfforddiant priodol i staff i gynyddu hyder, ymwybyddiaeth a chapasiti er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir

---

<sup>83</sup> Framwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau; Compendiwm Iechyd a Lles; Llywodraeth Cymru; [Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau: Compendiwm Iechyd a Lles](#) [cyrchwyd 7 Awst 2020]

<sup>84</sup> Cyngor Cyngori ar Gamddefnyddio Cyffuriau (2015). Atal dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Briffiad gan y Pwyllgor Adfer.

<sup>85</sup> Marshal MP, Friedman MS, Stall R, King KM, Miles J a Gold MA, Bukstein OG, Morse JQ (2008). Sexual orientation and adolescent substance use: a meta-analysis and methodological review. *Addiction*, 103, 546-56

yn ymatebol ac wedi'i deilwra i anghenion unigol. At hynny, dylai llwybrau atgyfeirio i wasanaethau rhywedd priodol fod ar waith i fodloni anghenion a nodwyd a hwyluso darparu gofal yn gyfannol.

### **3.1.7.3 Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar gyrion gofal a darparu gwasanaethau ar eu cyfer**

Y prif ffactorau sy'n achosi i berson ifanc gael ei roi mewn gofal yw camddefnyddio sylweddau ganddo ef ei hun neu gan ei rieni, problemau iechyd meddwl, cam-drin domestig, ymwneud â gangiau neu gyfuniad o'r rhain. Gall rhoi person ifanc mewn gofal gael effaith sylweddol ar yr unigolyn ei hun, ei deulu a'i gymuned. Prif nod gwasanaethau yw cadw pobl ifanc yn ddiogel gyda'u teuluoedd ac o fewn eu cymuned eu hunain.<sup>86</sup>

Diben gwasanaethau ar gyrion gofal yw cynnig cymorth ac ymyriadau i bobl ifanc a'r teulu ehangach ar adeg argyfwng teuluol neu chwalfa deuluol, er mwyn rheoli risg, gwella sgiliau magu plant a gweithio tuag at gadw teuluoedd gyda'i gilydd pan fydd hynny'n ddiogel.<sup>87</sup> Mae gwasanaethau ar gyrion gofal nid yn unig yn darparu ymyriadau cynnar i bobl ifanc; dylent fod ar gael i'r teulu cyfan hefyd. Cefnogir darparu gwasanaethau llwyddiannus ar gyrion gofal gan ffactorau allweddol fel:

- Gwaith amlasiantaethol.
- Llwybrau atgyfeirio clir.
- Dull sy'n canolbwyntio ar y person ifanc unigol a'i deulu.
- Cynyddu gwydnwch y person ifanc a'i deulu.
- Asesiad cadarn o ffactorau risg ac amddiffynnol.
- Cynllunio cynhwysfawr ar gyfer gofal ac ymadael.<sup>88</sup>

Mae adolygiadau o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglenni ymyrraeth deuluol a rhaglenni ar gyfer teuluoedd cythryblus yn amlygu'r angen am y canlynol:

- Gweithiwr gofal penodol ar gyfer pob teulu.
- Staff medrus o ansawdd uchel.
- Dull rhagweithiol.
- Parhau i ymwneud â'r teulu am gyn hired ag y bo angen.<sup>89</sup>

---

<sup>86</sup> Ar gyrion gofal: Cadw pobl ifanc agored i niwed yn ddiogel yn y gymuned; Cymdeithas Llywodraeth Leol; Medi 2018; [On the edge of care: Keeping vulnerable young people safely in the community | Local Government Association](#) [cyrchwyd 11 Awst 2020]

<sup>87</sup> [Worcestershire County Council](#) [cyrchwyd 11 Awst 2020]

<sup>88</sup> Cilio oddi wrth ofal – sut mae gwasanaethau'n llwyddo i atal pobl ifanc rhag cael eu derbyn i ofal; OFSTED; Hydref 2011; [Microsoft Word - Edging away from care - how services successfully prevent young people entering care.doc \(publishing.service.gov.uk\)](#) [cyrchwyd 12 Awst 2020]

<sup>89</sup> Supporting Adolescents on the Edge of Care. The role of short term stays in residential care. An Evidence Scope; Dixon, J et al; Mai 2015; [Supporting Adolescents on the Edge of Care : The role of short term stays in residential care: an evidence scope \(whiterose.ac.uk\)](#) [cyrchwyd 13/08/2020]

#### 3.1.7.4 Pobl ifanc sydd mewn perygl o ymwneud â llinellau cyffuriau

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diffinio llinellau cyffuriau fel a ganlyn:

“Mae llinellau cyffuriau yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol sy’n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio yn y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol penodol neu “linell ddelio” o fath arall. Maen nhw’n debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion agored i niwed i symud a storio’r cyffuriau a’r arian, ac yn aml byddant yn defnyddio gorfodaeth, bygythion, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.”<sup>90</sup>

Gall llinellau cyffuriau effeithio ar unrhyw blentyn, gwrywaidd neu fenywaidd, iau na 18 oed, neu unrhyw oedolyn agored i niwed dros 18 oed.<sup>91</sup> Prif amcan Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran cyfiawnder ieuenctid yw cydnabod a hyrwyddo diogelu plant; gan weld plentyn yn gyntaf a throeddwr yn ail. Dylai’r holl waith a wneir gan weithiwr proffesiynol ganolbwyntio ar y plentyn.

Mae llinellau cyffuriau yn amrywiol iawn ac mae angen eu trin fel achosion unigol. Gallai plentyn neu berson ifanc sy’n ymwneud â llinellau cyffuriau fod yn ddioddefwr sy’n destun camfanteisio yn hytrach na chyflawnwr, ac felly bydd ganddo’r hawl i’r un camau diogelu ac amddiffyn ag unrhyw blentyn arall. Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn derm sy’n cael ei ddefnyddio fwyfwy i ddisgrifio plant sy’n ymwneud â llinellau cyffuriau, er ei fod yn ehangach o lawer na hynny. Er nad oes diffiniad cyfreithiol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ddisgrifio fel a ganlyn:

“Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn gyffredin mewn llinellau cyffuriau ac mae’n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, defnyddio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc iau na 18 oed. Gallai’r dioddefwr fod wedi bod yn destun camfanteisio troseddol hyd yn oed os yw’r gweithgarwch yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw Camfanteisio Troseddol ar Blant bob amser yn cynnwys cysylltiad corfforol; fe all ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg hefyd.”<sup>92</sup>

Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd fod yn ymwybodol o gyffredinrwydd Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (bechgyn a merched), yng nghyd-destun llinellau cyffuriau. Y diffiniad a roddir gan yr Adran Addysg yn y ddogfen Camfanteisio’n

---

<sup>90</sup> Camfanteisio trwy Linellau Cyffuriau, Canllawiau ymarfer ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid ac ymarferwyr rheng flaen (tudalen 4); Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; Hydref 2019

<sup>91</sup> Camfanteisio Troseddol ar blant ac oedolion agored i niwed: Canllawiau ar linellau cyffuriau; Y Swyddfa Gartref, Medi 2018

<sup>92</sup> Camfanteisio trwy Linellau Cyffuriau, Canllawiau ymarfer ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid ac ymarferwyr rheng flaen (tudalennau 5 a 6); Y Weinyddiaeth Gyfiawnder; Hydref 2019

Rhywiol ar Blant: Diffiniad a chanllaw i ymarferwyr, arweinwyr lleol a phenderfynwyr sy'n gweithio i amddiffyn plant rhag camfanteisio arnynt yn rhywiol yw:

“Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, defnyddio neu dwyllo plentyn neu berson ifanc iau na 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) ar gyfer mantais ariannol neu statws uwch i'r cyflawnwr neu'r hwyluswr. Gallai'r dioddefwr fod wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgarwch rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cysylltiad corfforol; fe all ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg hefyd.”

Mae dogfen y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Camfanteisio trwy Linellau Cyffuriau, Canllawiau Ymarfer ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid ac ymarferwyr rheng flaen, yn amlinellu nifer o arwyddion y gallai plentyn fod yn destun camfanteisio trwy linellau cyffuriau y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Gallai'r rhain gynnwys:

- Mynd ar goll o'r ysgol neu gartref yn barhaus a/neu ddod hyd iddo y tu allan i'r ardal;
- Caffael arian, dillad, neu ffonau symudol heb esboniad; a
- Derbynn nifer ormodol o negeseuon testun neu alwadau ffôn a/neu feddu ar sawl set law.

Dylai unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda pherson ifanc y mae'n credu y gallai fod mewn perygl o gamfanteisio trwy linellau cyffuriau ddilyn ei ganllawiau diogelu lleol. Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu â gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Os credir bod person ifanc mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylid cysylltu â'r heddlu. Os yw gwasanaethau neu weithwyr proffesiynol yn credu bod person ifanc wedi dod o ardal arall, dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu o fewn unrhyw atgyfeiriad fel y gellir cysylltu â'r asiantaethau diogelu perthnasol, oherwydd yr ardal gartref fydd yn gyfrifol am y person ifanc, ble bynnag y deuir o hyd iddo.<sup>93</sup>

### **3.1.7.5 Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd**

Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd, neu sydd mewn sefyllfa dai fregus neu ansefydlog, yn agored i amrywiaeth o ffactorau risg eraill hefyd, gan gynnwys gwahardd o'r ysgol a chamfanteisio gan bobl hŷn. Mae tystiolaeth glir bod mwyafrif y bobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref wedi cael profiadau trawmatig gydag oedolion yn gynnar yn eu bywydau ac nad oes ganddynt oedolion cefnogol a dibynadwy, athrawon a mentoriaid eraill arwyddocaol i'w helpu i ddatblygu perthnasoedd iach a

---

<sup>93</sup> Camfanteisio trwy Linellau Cyffuriau, Canllawiau ymarfer ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid ac ymarferwyr rheng flaen. 2019. Ar gael yn: [A Guide to Coroner Services for Bereaved People \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

sgiliau penderfynu ac emosiynol.<sup>94</sup> Mae astudiaethau rhyngwladol wedi canfod cyfraddau isel o gwblhau'r ysgol ymhlith pobl ifanc sy'n profi digartrefedd o ganlyniad i gyfuniad o anawsterau dysgu heb ddiagnosis, cyflyrau iechyd meddwl, trawma neu broblemau defnyddio sylweddau niweidiol.<sup>95</sup> Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cysylltiedig sicrhau bod statws tai sicr a diogelwch yn cael eu cadarnhau a'u dilysu lle y bo'n bosibl, gyda phrosesau clir i fonitro'n rheolaidd a mynd i'r afael â'r potensial ar gyfer sefyllfa dai fregus neu ansicr, gan gynnwys dibyniaeth ar 'fynd o un sofffa i'r llall' ac aros gyda ffrindiau am gyfnod tymor hwy. Mae sicrhau sefyllfa dai sefydlog yn gwella gweithrediad cymdeithasol ac yn hyrwyddo ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, cyfiawnder troseddol a chysylltiedig, ac aros ynddynt.<sup>96</sup>

### **3.1.8 Atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth**

#### **3.1.8.1 Atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol**

Dylai'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael gwybod am y prosesau a'r llwybrau atgyfeirio lleol priodol ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n darparu triniaeth a chymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd meddwl, a chael hyfforddiant arnynt. Dylai atgyfeiriadau gael eu gwneud yn unol â gallu'r plentyn a'r person ifanc i gydsynio, a chydsyniad y rhieni, lle y bo'r angen.

#### **3.1.8.2 Amddiffyn a diogelu plant**

Ar gam cynnar, dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd beryglus benderfynu a oes angen iddynt gynnwys gwasanaethau a chymorth ychwanegol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai'r holl unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod wedi cael hyfforddiant i'w helpu i amlygu arwyddion y gallai plentyn fod 'mewn angen', lle y ceir pryderon amddiffyn plant neu gyfrifoldebau gofalu, a sut i'w hatgyfeirio'n briodol.<sup>97</sup>

Mae gan wasanaethau cymdeithasol i blant awdurdodau lleol, ynghyd ag asiantaethau eraill, gyfrifoldebau dros yr holl blant y gallai eu hiechyd neu eu datblygiad gael ei niweidio heb ddarparu gwasanaethau iddynt, neu sy'n anabl (a

---

<sup>94</sup> Keats, H. Maguire, N. Johnson, R. a Cockersell, P. (2012) Psychologically informed services for homeless people Good Practice Guide. Llundain: Cymunedau a Llywodraeth Leol.

<sup>95</sup> Valdebenito, S. Eisner, M. Farrington, D. P. et al. (2019) What can we do to reduce disciplinary school exclusion? A systematic review and meta-analysis. J Exp Criminol 15, 253–287. Cyrchwyd yn: [What can we do to reduce disciplinary school exclusion? A systematic review and meta-analysis | SpringerLink](#)

<sup>96</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd

<sup>97</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

ddiffinnir yn adran 17 Deddf Plant 1989 fel plant ‘mewn angen’). Dylai pob asiantaeth sydd â chyfrifoldeb o’r fath:

- Gyda phartneriaid y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, gytuno ar feini prawf gyda gwasanaethau lleol a gweithwyr proffesiynol ynglŷn â phryd y mae’n briodol gwneud atgyfeiriad i wasanaethau cymdeithasol i blant awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn mewn angen.
- Sefydlu fformat cytunedig ar gyfer gwneud atgyfeiriad a rhannu’r wybodaeth a gofnodwyd.

Pan fydd gwasanaethau’n credu y gallai plentyn fod yn dioddef niwed sylweddol, neu y gallai fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, dylid rhoi gwybod i wasanaethau cymdeithasol i blant yr awdurdod lleol am bryderon o’r fath cyn gynted â phosibl. Dylai gweithwyr proffesiynol geisio trafod unrhyw bryderon gyda rhiant neu ofalwr y plentyn er mwyn cael caniatâd i wneud atgyfeiriad. Fodd bynnag, dylent wneud hyn dim ond os ydynt yn credu, yn eu barn broffesiynol, na fydd trafodaeth o’r fath yn rhoi’r plentyn mewn mwy o berygl o niwed sylweddol.

Bydd rhannu gwybodaeth yn briodol am achosion sy’n peri pryder yn galluogi sefydliadau i ystyried ar y cyd sut i symud ymlaen er pennaf les y plentyn a diogelu plant yn fwy cyffredinol. Rhoddir mwy o arweiniad ar rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn y ddogfen Diogelu Plant: Gweithio gyda’n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.<sup>95,98.</sup>

## 3.2 Asesu effeithiol a chynllunio gofal integredig

### 3.2.1 Cefndir

Mae asesu a darparu triniaeth gyffuriau arbenigol i bobl ifanc yn wahanol i’r driniaeth a ddarperir i oedolion. Gellir priodoli’r gwahaniaethau i oedran, aeddfedrwydd a ffactorau datblygiadol, patrymau gwahanol o ddefnyddio sylweddau, diogelu a gofynion fframweithiau cyfreithiol.

Nod asesiad camddefnyddio sylweddau arbenigol yw pennu anghenion pobl ifanc a llunio pecyn o ofal ac ymyriadau i’w bodloni, gan addasu wrth i’r anghenion newid dros amser. I gyflawni hyn, mae’n rhaid wrth ddealltwriaeth gynhwysfawr o fywydau’r bobl ifanc, gan gynnwys sut maen nhw’n byw eu bywydau, pa weithgareddau maen nhw’n ymwneud â nhw, pwy sy’n dylanwadu arnynt, sut maen nhw’n gweld eu bywydau a pha ddyheadau sydd ganddynt. Mae llawer o ddylanwadau, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddefnyddio sylweddau, iechyd meddyliol a chorfforol, cyflawniadau addysgol, a pherthnasoedd rhyngbersonol. Dylai asesiadau a thriniaeth

---

<sup>98</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006). Diogelu Plant: Gweithio gyda’n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. [Safeguarding Children: Working Together Under the Children Act 2004](#)

a gofal dilynol ar gyfer plant a phobl ifanc gael eu darparu yn unol â Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru.<sup>99</sup>

Mae angen gweithredu offeryn asesu unedig a modiwlaid electronig ar draws gwasanaethau yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at <25 oed. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob sector o'r gwasanaethau a ddarperir gynnal asesiad o amgylchiadau ac anghenion ar gyfer pob unigolyn sy'n cyflwyno ei hun ar gyfer gofal a chymorth, gan arwain at ddyblygu, aneffeithlonrwydd, methiant i ddarparu gofal integredig ac, o bosibl, aildrawmateiddio'r plentyn neu'r person ifanc, ac felly gweithredu fel rhwystr rhag cael cymorth. Gan ddefnyddio datblygiadau technolegol sydd ar gael, gan gynnwys System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac yn unol â gofynion llywodraethu gwybodaeth, bydd gweithredu offeryn asesu unedig, lle mae'r cofnod yn dilyn yr unigolyn ar draws daearyddiaeth a thros amser, yn mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Yn ogystal, byddai gweithredu system genedlaethol unedig yn mynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran gofynion cymorth a natur newidiol defnydd o sylweddau a'r niwed cysylltiedig ymhlith y boblogaeth hon yng Nghymru, gan fynd i'r afael â'r wybodaeth gyfyngedig sy'n cael ei choladu a'i hadrodd fel mater o drefn am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, iechyd a lles meddyliol) plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael cymorth cyfiawnder ieuencid.

### 3.2.2 Y dull

Dylai asesiad cynhwysfawr o ddefnydd o sylweddau a dibyniaeth ar sylweddau fod yn gydlynol, yn gynhwysfawr, yn amserol ac yn gydweithredol, a dylai'r unigolyn gael ei gynnwys yn llawn. Dylid hwyluso cynnwys rhieni a gofalmwyr lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Dylai'r asesiad fynd i'r afael â defnydd o sylweddau ac ymddygiad, anghenion datblygiadol, iechyd corfforol a meddyliol, risgiau a diogelu, gweithrediad y teulu, cyrhaeddiad addysgol ac unrhyw anawsterau, ffactorau risg, gwydnwch, adnoddau a risgiau.

Dylai asesiadau gael eu cynnal mewn amgylchedd addas, diogel a phreifat. Wrth gynnal asesiad camddefnyddio sylweddau ar gyfer person ifanc, dylid defnyddio dull trafodol, rhyngweithiol er mwyn deall y materion o safbwynt y person ifanc, gan ganiatáu i'r aseswr drosglwyddo gwybodaeth a chynghor. Dylai agweddau pwysig ar y broses gynnwys:

- Lefel ei wybodaeth am sylweddau a'r risgiau cysylltiedig.
- Ble, sut a gyda phwy y mae'n defnyddio sylweddau.
- Dulliau o ddefnyddio a'r cyffur o'i ddewis.
- P'un a yw sylweddau'n cael eu defnyddio i reoli meddyliau neu ymddygiad.

---

<sup>99</sup> Llywodraeth Cymru. 2015. Safonau Iechyd a Gofal. Ar gael yn: [Health standards framework english \(llyw.cymru\)](https://www.gov.wales/health-standards-framework-english)

- Yn aml, bydd y broses asesu camddefnyddio sylweddau yn cyflwyno cyfleoedd i ymyrryd ar unwaith cyn cwblhau'r broses asesu a chytuno ar gynllun ymyrraeth camddefnyddio sylweddau. Mewn llawer o achosion, mae ymyrryd ar unwaith yn hollbwysig i atal niwed sy'n gysylltiedig â sylweddau. Gall enghreifftiau o ymyrryd ar unwaith gynnwys y canlynol:

- Bydd gwell canlyniadau asesu a thriniaeth ar gyfer pobl ifanc yn cael eu cyflawni trwy ddarparu gwasanaethau integredig ac ar y cyd. Dylai gwaith partneriaeth rhwng sefydliadau gael ei arwain gan Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Plant (2004).<sup>101</sup> Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r targedau strategol sy'n arwain sut mae gwasanaethau'n gweithio ar y cyd i wella lles pobl ifanc. Mae'n hanfodol bwysig nad yw darparu gwasanaethau, addysg, mesurau atal a thriniaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc yn cael ei ystyried yn weithgarwch ar wahân i ddiogelu a hyrwyddo lles person ifanc. Mae cryfhau gwaith partneriaeth a chydweithredol gyda gwasanaethau plant i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl ifanc yn hollbwysig ac yn cyd-fynd â Deddf Plant (2004).<sup>102, 103</sup>

39

### 3.2.3 Proses sgrinio ac asesu cynhwysfawr

Asesu yw'r broses allweddol sy'n cychwyn ymyrraeth ac mae'n penderfynu p'un a fydd pobl iau a'u teuluoedd yn parhau i gael mynediad at y gwasanaethau a gynigir iddynt. Er mwyn pennu anghenion pobl ifanc sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a llunio ymyriadau priodol, mae angen darlun cynhwysfawr o fywyd y person ifanc.

Mae'r broses sgrinio ac asesu a'r diffiniad o ddefnydd 'problemus' o sylweddau yn wahanol ar gyfer pobl ifanc. Gall yr hyn sy'n gyfystyr â 'phroblemus' ddibynnu'n allweddol ar oedran y plentyn, y cyd-destun amddiffyn plant, natur cyfrifoldeb ac ymwneud gan rieni a materion datblygiadol.<sup>104</sup> Fel y cyfryw, dylai prosesau asesu effeithiol ddefnyddio dull 'person cyfan' er mwyn ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd o gyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau, a'r ffactorau y mae'r defnydd a'r ddibyniaeth hynny'n dylanwadu arnynt. Gallai ffactorau sy'n arwydd o berygl cysylltiedig â sylweddau gynnwys:

- Gorddos blaenorol.
- Hunan-niwed bwriadol a syniadau hunanladdol neu hanes o geisio ei ladd ei hun.
- Camfanteisio yn ystod plentyndod (e.e. camfanteisio rhywiol a/neu droseddol, llinellau cyffuriau).
- Cyflyrau iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg neu sy'n cydfodoli, gan gynnwys seicosis, anhwylderau straen trawmatig.
- Anhwylderau niwroddatblygiadol, gan gynnwys anhwylderau'r sbectwm awtistiaeth, anhwylderau diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.
- Anableddau dysgu.
- Problemau iechyd corfforol aciwt a chronig sy'n cydfodoli.

Dylai asesiad gynnwys y defnydd o bob sylwedd, gan gynnwys cyffuriau seicoweithredol anghyfreithlon a chyffuriau gwella delwedd a pherfformiad (IPEDs), cyffuriau cyfreithlon gan gynnwys meddyginiaethau ar bresgripsiwn, Meddyginiaethau Presgripsiwn yn Unig (POMs) nad ydynt wedi'u rhagnodi i'r unigolyn, meddyginiaethau dros y cownter (OTCs), ac alcohol. Mae asesu effeithiol yn hwyluso cynllunio gofal integredig effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir ar gyfer yr unigolyn a phawb sy'n ymwneud â'i ofal.

Pan fydd nifer o asiantaethau'n gysylltiedig, dylai'r gwasanaethau i blant gydlynw'r achos os yw'r plentyn yn eu gofal. Fel arall, dylid nodi asiantaeth arweiniol, sef yn ddelfrydol yr un sydd â'r cysylltiad mwyaf a'r berthynas fwyaf cadarnhaol â'r person ifanc, a dylai'r penderfyniad hwn gael ei gofnodi'n glir er mwyn sicrhau eglurder i gleientiaid a theuluoedd a gofalwyr. Mae cynnwys teuluoedd a gofalwyr nid yn unig

---

<sup>104</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol (7) tud. 242-243).

yn hanfodol o safbwynt arfer da, mae hefyd yn arwydd o ganlyniadau cadarnhaol i'r person ifanc. Yr eithriadau i hyn yw pan gredir y gallai plentyn fod yn dioddef niwed neu mewn perygl o ddioddef niwed, a gallai trafodaethau a cheisiadau i gael cytundeb mewn perthynas ag atgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol roi'r plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o gael mwy o niwed.

Ar hyn o bryd, nid oes offeryn asesu camddefnyddio sylweddau y cytunwyd arno'n gyffredinol ar gyfer pobl ifanc yn bodoli yng Nghymru, ond mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu offeryn newydd.<sup>105</sup> Disgrifir sawl offeryn priodol wedi'u dilysu sy'n gallu helpu i gynnal asesiad yn safonau ymarfer Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.<sup>106</sup> Ar gyfer yr holl bobl ifanc iau na 18 oed, gall sgrinio cychwynnol fod ar ffurf cwestiynau byr, sensitif am gamddefnyddio sylweddau (pa mor aml, beth a ddefnyddiwyd ac ym mha gyd-destun), neu fe allai fod yn offeryn mwy penodol. Fodd bynnag, uwchlaw popeth, dylai unrhyw asesiad ac unrhyw ymyriadau a ddarperir fod yn briodol i oedran ac ystyried materion diogelu, cymhwysedd y plentyn a'r cyd-destun. Dylid cynnig ymyriadau byr estynedig i bob unigolyn dros 15 oed,<sup>107</sup> a phan nodir dibyniaeth bydd angen asesiad cynhwysfawr hefyd.<sup>108</sup>

Gallai defnyddio offer asesu fel y Prawf Adnabod Anhwylderau Defnyddio Alcohol (AUDIT) neu Fesurau Canlyniad Triniaeth (TOPS) annog trafodaeth bellach ar faterion seicogymdeithasol.

Efallai nad rhestr wirio gonfensiynol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu cryfderau, risgiau neu gynnwys pobl ifanc yn y broses cynllunio gofal. Mae "mapio" (gan gynnwys Mapio'r Cysylltiad rhwng Nodau) yn dechneg syml ar gyfer cyflwyno gwybodaeth eiriol ar ffurf diagram y dangoswyd ei bod yn fuddiol ar gyfer ymyriadau cwnsela, ni waeth pa arddull gwnsela a ddefnyddiwyd. Mae'r weithred o greu map gweledol yn crynhoi'r materion therapiwtig ac yn symud y pwyslais oddi ar y person ifanc. Gall hyn ganiatáu ar gyfer datblygu'r berthynas therapiwtig a gwella cydweithrediad â'r person ifanc.<sup>109</sup>

Pan gadarnheir dibyniaeth ar sylweddau, dylid dilyn y prosesau a amlinellir yn 3.4 *Cymorth a thriniaeth ffarmacolegol ar gyfer dibyniaeth ar y cyd â Chanllawiau*

---

<sup>105</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc – Diwrnod Rhanddeiliaid (Mawrth 2019)

<sup>106</sup> Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2012) Safonau ymarfer ar gyfer pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Llundain: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

<sup>107</sup> NICE (2007a) Camddefnyddio cyffuriau ymhlith pobl dros 16 oed: ymyriadau seicogymdeithasol. Canllaw clinigol 51 NICE. Llundain: Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

<sup>108</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.242-243

<sup>109</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.61-62

### 3.2.4 Asesiad risg a chymorth

Yn rhan o'r fframwaith rheoli risg a lleihau risg, mae angen amlygu risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau a gwneud cysylltiadau ag ymarferwyr iechyd eraill ar gyfer y rhai hynny y mae angen iddynt gael cymorth gyda materion iechyd cyffredinol neu ymyriadau arbenigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Gallai ffactorau sy'n arwydd o risg sy'n gysylltiedig â sylweddau gynnwys:

- Hanes o orddos, hunan-niwed bwriadol ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad.
- Camddefnyddio sylweddau mewn cyd-destunau peryglus, er enghraifft ym mhresenoldeb pobl hŷn (e.e. rhieni, brodyr a chwiorydd,artneriaid hŷn), mewn cysylltiad â chamfanteisio rhywiol neu ymddygiad rhywiol peryglus, mewn cysylltiad ag ymddygiad troseddol, mewn amgylcheddau ffisegol peryglus.
- Materion yn ymwneud â dos, y dull o gymryd sylweddau, neu gyfuniadau o sylweddau. Er enghraifft, symiau ac effeithiau sy'n arwydd o feddwdod. eithafol, chwistrellu, mewnanadlu sylweddau anweddol yn uniongyrchol (yn enwedig bwtan), defnyddio nifer o wahanol sylweddau, rhoi sylweddau gan unigolyn arall.
- Problemau iechyd meddwl sy'n cydfodoli.
- Problemau iechyd corfforol sy'n cydfodoli (epilepsi, cyflyrau anadlol a'r galon, beichiogrwydd, rhyngweithiadau â meddyginiaeth ar bresgripsiwn).

Mae asesu risg yn broses ddeinamig sy'n gofyn am adolygu ar gyfnodau cytunedig neu i ymateb i newid i amgylchiadau. At hynny, dylai asesiad risg fod yn gyfannol a chynnwys asesiad o gryfderau a ffactorau amddiffynnol.<sup>111,112</sup>

Dylid archwilio anghenion cymorth eraill y person ifanc hefyd, heblaw am y rhai hynny sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Os yw'r person ifanc mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill, dylai'r asesiad camddefnyddio sylweddau gael ei gynnwys yn yr offeryn asesu unedig a modiwlaid fel rhan o gynllun gofal integredig ehangach. O fewn gwasanaethau arbenigol, dylai pobl ifanc gael cyngor arall cysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu. Os oes angen darparu

---

<sup>110</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.245-247

<sup>111</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol

<sup>112</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) Beth yw'r ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer camddefnyddio cyffuriau? Adroddiad llawn ac adolygiad systematig.

nodwyddau a chwistrellau, dylid asesu oedran a galluedd yn ofalus, ac adolygu'n aml, er mwyn atal y risg rhag dwysáu.<sup>113</sup>

### 3.2.5 Asesiad o anghenion diwylliannol

Dylid pennu anghenion diwylliannol eang cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â'r unigolyn. Mae'n arbennig o bwysig amlygu person ifanc ag anghenion diwylliannol penodol ac anghenion cymdeithasol cymhleth trwy'r broses asesu, oherwydd bod tystiolaeth yn dangos y gallai methiant i wneud hynny arwain at ymddieithrio o driniaeth a chymorth os na fodlonir yr anghenion hynny.<sup>111</sup> Gallai anghenion diwylliannol penodol gynnwys canfyddiadau gwahanol o iechyd a salwch, iaith, profiad o drawma, hunaniaeth ddiwylliannol, rhywedd a rhywioldeb a normau cymdeithasol, gwerthoedd, credoau ac agweddau.<sup>114,115</sup>

### 3.2.6 Asesu cydafiachedd, gan gynnwys iechyd meddwl, ac anabledau dysgu

Gall defnydd o sylweddau, yn enwedig defnydd parhaus a dibynnol, achosi neu waethygu problemau iechyd meddwl presennol ac effeithio ar y driniaeth a roddir ar gyfer problemau o'r fath<sup>116</sup>. Mae'n bwysig sylwi ar arwyddion problem iechyd meddwl a rhoi cymorth cyn gynted â phosibl. Felly, mae'n bwysig bod yr holl bobl ifanc sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn cael cynnig ac yn derbyn asesiad cynhwysfawr o'u hiechyd meddwl gan weithiwr iechyd cymwys. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: materion hunan-niwed, pryderon niwroddatblygiadol fel anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth, anhwylderau diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, anawsterau dysgu, materion personoliaeth sy'n dod i'r amlwg, neu nam gwybyddol.

Mae Canllawiau NICE<sup>117</sup> yn mynnu bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob lleoliad, gan gynnwys gofal sylfaenol, CAMHS ac adrannau damweiniau ac achosion brys, a'r rhai hynny mewn carchardai a chynlluniau cyswllt iechyd meddwl cyfiawnder troseddol, yn gofyn fel mater o drefn i oedolion a phobl ifanc sydd â seicosis hysbys neu a amheuir ynglŷn â'u defnydd o alcohol a/neu gyffuriau ar

---

<sup>113</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd. Tud.244

<sup>114</sup> Llywodraeth Cymru. Iechyd a llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches. [Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches](#)

<sup>115</sup> Llywodraeth Cymru. 2015. Teithio i Iechyd Gwell – Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr [Teithio i Iechyd Gwell – Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr](#)

<sup>116</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd

<sup>117</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2011) Canllawiau NICE: Cydnabod seicosis gyda chyflwr camddefnyddio sylweddau sy'n cydfodoli

bresgripsiwn a heb bresgripsiwn (gan gynnwys rhai anghyfreithlon). Os yw'r unigolyn wedi defnyddio sylweddau, dylid ei holi ynglŷn â phob un o'r canlynol:

- Y sylwedd(au) penodol a ddefnyddiwyd.
- Swm, amllder a phatrwm y defnydd.
- Y dull o gymryd y sylwedd(au).
- Hyd y defnydd a lefel bresennol y defnydd.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>118</sup> yn amlinellu ymhellach, "Mae'r driniaeth ar gyfer cydafiachedd wedi'i seilio ar fynd i'r afael â'r ystod o anghenion personol, teuluol, iechyd a gofal cymdeithasol a amlygwyd ar gyfer person ifanc y mae'r defnydd o sylwedd yn digwydd mewn cysylltiad â nhw a chynnal gofal sy'n cael ei gydlynyn ofalus. Bydd y triniaethau ar gyfer anhwylderau meddyliol sy'n cydfodoli yn amrywio, ond maen nhw'n seicolegol yn bennaf, e.e. Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar gyfer iselder".

Yn gyffredinol, dylai ymyriadau seicogymdeithasol, yn yr un modd ag ar gyfer oedolion, gynnwys technegau ysgogiadol ac ymgysylltu, gan gynnwys datblygu perthynas therapiwtig, i weithio ar y cyd â'r person ifanc a'i deulu. Gallai'r ystod o ymyriadau seicogymdeithasol penodol a ddefnyddir ar gyfer oedolion fod yn berthnasol i rai pobl ifanc. Dylai Therapi Gwybyddol Ymddygiadol unigol fod ar gael i'r rhai hynny â chydafiachedd penodol yn unol â'r sylfaen dystiolaeth sefydledig.<sup>119,120</sup>

Cydnabyddir efallai y bydd angen i rai pobl ifanc gael triniaethau ffarmacolegol hefyd, er enghraifft ar gyfer Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd (ADHD) neu anhwylderau seicotig difrifol. Pan fydd triniaeth iechyd meddwl yn cael ei rhoi, bydd hyn yn aml yn cynnwys gwasanaethau pediatrig a CAMHS. Felly, mae'n hanfodol cyfathrebu a chydlynyn weithredol â'r rhai sy'n darparu ymyriadau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau pobl ifanc er mwyn cynorthwyo'r person ifanc a'r rhai hynny sy'n darparu cymorth seicolegol.

### **3.2.7 Asesu a chynllunio gofal sy'n ystyriol o drawma**

Dylai'r broses asesu a chynllunio gofal fod yn ystyriol o amlygiad posibl unigolyn i drawma, yn unol â'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r Fframwaith holl-gymdeithas wedi cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Straen Trawmatig Cymru i gefnogi dull cydlynol a chysylltu o

---

<sup>118</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd. Tud.247

<sup>119</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (2011a) Gwneud diagnosis, asesu a rheoli yfed niweidiol a dibyniaeth ar alcohol. Canllaw clinnigol 115 NICE:

<sup>120</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017) Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd. Tud.244

ddatblygu a gweithredu arferion sy'n ystyriol o drawma ledled Cymru, gan roi'r cymorth gorau posibl i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf. Mae profiadau trawmatig yn ddigwyddiad neu ddigwyddiadau y mae unigolyn wedi'u profi sydd wedi achosi niwed emosiynol neu gorfforol. Gall trawma gael effaith dreiddiol a niweidiol ar weithrediad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol person ifanc a'i gynnydd datblygiadol.<sup>121</sup> Gallai'r symptomau hyn effeithio ar allu person ifanc i ymgysylltu â gwasanaethau a chanlyniadau triniaeth.<sup>122</sup> Dylai proses briodol fod ar waith i sicrhau bod ymyrraeth arbenigol ar gael ac yn cael ei darparu'n amserol, os bydd angen.<sup>123</sup>

Dylid rhoi hyfforddiant i staff ar draws gwasanaethau ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'r cymwyseddau angenrheidiol. Bydd hyn yn galluogi staff i adnabod a gweithio'n effeithiol gyda symptomau ac ymddygiadau trawma, hyrwyddo cynhwysiant a hwyluso newid cadarnhaol o fewn y person ifanc. Dylid darparu goruchwyliaeth a chymorth priodol sy'n ymwybodol ac yn ystyriol o symptomau straen trawmatig eilaidd (gweler datblygu'r gweithlu).<sup>124</sup>

### **3.2.8 Asesu o fewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid**

#### **3.2.8.1 Pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio o dan 'Rhybuddiad Ieuencid' neu orchymyn ymyrraeth statudol uwch**

Mae pob Tîm Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn defnyddio'r offeryn asesu AssetPlus a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer pobl ifanc sydd wedi troseddu pan fyddant yn bodloni'r trothwy ar gyfer Rhybuddiad Ieuencid neu ymyrraeth statudol uwch. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n cael Rhybuddiad Ieuencid, Rhybuddiad Ieuencid Amodol neu unrhyw fath o Orchymyn Llys.

Mae AssetPlus yn defnyddio dull cyfannol ac yn ystyried ffactorau risg yn ogystal ag ymatal; bydd yr asesiad yn cynnwys amlygu ffactorau risg ac amddiffynnod ym mywyd y person ifanc, ochr yn ochr â sut mae pob ffactor yn rhyngweithio â'i gilydd ar adegau gwahanol.<sup>125 126127</sup> Er enghraifft, bydd rhyngweithiadau rhwng sefyllfa bersonol person ifanc, ei agweddau a'i amgylchedd cymdeithasol.<sup>128</sup>

---

<sup>121</sup> Marusak, HA, Martin, KR, Etkin, A et al. (2015). Childhood trauma exposure disrupts the automatic regulation of emotional processing'. *Neuropsychopharmacology*, 1250-58.

<sup>122</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.41

<sup>123</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). NG116. Anhwylder straen wedi trawma.

<sup>124</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau; Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.42

<sup>125</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2008) Asesu, Cynllunio Ymyrraeth a Goruchwyllo

<sup>126</sup> Case S. (2007) 'Questioning the "evidence" of risk that underpins evidence-led youth justice interventions', *Youth Justice*, 7; 91-105.

<sup>127</sup> Baker K, Kelly G, Wilkinson B. (2011). *Assessment in Youth Justice*, Bryste: The Policy Press.

<sup>128</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2014) Sail Resymegol AssetPlus, Diwygiedig 2014 tud4. Ar gael yn: [Formal document \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Yn rhan o'r fframwaith AssetPlus, mae asesiad camddefnyddio sylweddau cynhwysfawr wedi cael ei sefydlu yn rhan o fframwaith asesu cyfannol ehangach, sy'n galluogi'r aseswr i ddatblygu Cynllun Ymyrraeth Cynhwysfawr. Dylai'r holl waith camddefnyddio sylweddau sy'n ofynnol integreiddio â'r Cynllun Ymyrraeth, ond fel arfer caiff ei ddarparu gan weithiwr arbenigol a gyflogir gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (neu sy'n gweithio ar y cyd ag ef).

### **3.2.8.2 Pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer 'Gwarediad Adferol Cymunedol' neu waith 'Atal'**

O ran pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fel rhan o ymyriadau llai ffurfiol fel Gwarediad Adferol Cymunedol neu atgyfeiriadau 'Atal', nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn mynnu bod asesiad AssetPlus yn cael ei gwblhau. Mewn achosion o'r fath, gallai'r cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod yn fyr ac ni fyddai'r graddfeydd amser yn ymarferol ar gyfer cwblhau AssetPlus yn llawn. Oherwydd nad oes offeryn asesu camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc y cytunwyd arno'n gyffredin yng Nghymru,<sup>129</sup> mae Timau Troseddau Ieuenctid ledled Cymru wedi datblygu ystod o offer asesu camddefnyddio sylweddau i fodloni eu hanghenion eu hunain o ran darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, dylai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau bod gwaith sgrinio ac asesu a gynhelir gan ddefnyddio offer o'r fath yn cael ei wneud yn unol â'r dull a'r prosesau sgrinio ac asesu, asesu risg, a chynllunio gofal integredig a amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon.

### **3.2.8.3 Oedolion ifanc (18-21 oed) o fewn gwasanaethau troseddau ieuenctid**

Mae'r prosesau asesu ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed sydd yn y carchar wedi'u hamlinellu ar hyn o bryd yn y *Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau – Llwybr clinigol ar gyfer rheoli Camddefnyddio Sylweddau mewn Carchardai yng Nghymru*<sup>130</sup>. Dylai prosesau o'r fath gael eu cynnal yn unol â Safonau Craidd Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru<sup>131</sup>, sy'n datgan y dylai pob gwasanaeth gwblhau asesiad camddefnyddio sylweddau gan ddefnyddio'r offeryn WIISMAT sy'n cynnwys AUDIT, sef offeryn asesu alcohol clinigol y GIG. Yn unol â chanllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol camddefnyddio cyffuriau a

---

<sup>129</sup> Llywodraeth Cymru (2019). Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc – Diwrnod Rhanddeiliaid (Mawrth 2019)

<sup>130</sup> Llywodraeth Cymru (i'w gadarnhau – yn destun ymgynghoriad). Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau – Llwybr clinigol ar gyfer rheoli Camddefnyddio Sylweddau mewn Carchardai yng Nghymru. Gweler hefyd Safonau Newydd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl mewn Carchardai yng Nghymru (sy'n destun ymgynghoriad hefyd).

<sup>131</sup> Llywodraeth Cymru. Gwella Gwasanaethau a Systemau Camddefnyddio Sylweddau: Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru. 2010. [Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru](#)

dibyniaeth ar gyffuriau<sup>132</sup>, dylid cynnal asesiad ar draws pedwar maes: defnydd o gyffuriau ac alcohol a dibyniaeth arnynt, iechyd corfforol a meddyliol, gweithredu cymdeithasol a hanes fforensig, gan arwain at ddatblygu cynllun gofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

#### **3.2.8.4 Pobl ifanc mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sydd ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd**

Dylai llwybrau gofal effeithiol fod ar waith yn lleol i sicrhau bod gan bobl ifanc yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at yr ystod lawn o wasanaethau, sy'n cynnwys y rhai hynny y tu allan i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, y mae ganddynt angen asessedig ar eu cyfer. Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau pobl ifanc a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gyflenwol. At hynny, dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â gwasanaethau lleol i sicrhau bod anghenion unigol pobl ifanc yn cael eu bodloni.

Dylai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a CAMHS ofalu bod cysylltiadau effeithiol â'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol priodol eraill er mwyn sicrhau y gellir adnabod y rhai hynny sy'n ymddieithrio o wasanaethau prif ffrwd a rhoi'r gofal a'r cymorth perthnasol iddynt i'w galluogi i fyw bywydau di-drosedd.

Er mwyn i Dimau Troseddau Ieuenctid gynorthwyo pobl ifanc i gael triniaeth a gwasanaethau ar gyfer problemau iechyd meddwl a nodwyd, cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a materion emosiynol ac ymddygiadol, mae angen rôl Cynghorydd Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd. Bydd y rôl hon yn cefnogi pob Tîm Troseddau Ieuenctid, law yn llaw â'r tîm CAMHS Fforensig, a chysylltiadau cryf rhwng CAMHS a Thimau Troseddau Ieuenctid, i alluogi pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i gael cymorth a chefnogaeth perthnasol.

### **3.2.9 Cydsyniad**

#### **3.2.9.1 Cydsyniad rhieni**

Mae cydsyniad rhieni yn derm cyfreithiol sy'n ymwneud â rhieni sy'n "ddeiliaid cyfrifoldeb rhieni" yn unig. Mae deddfwriaeth yn diffinio'r unigolion hyn yn glir, p'un a yw plant yn byw gyda'u rhieni biolegol neu'n "derbyn gofal". Dylai'r deiliad cyfrifoldeb rhieni, lle bynnag y bo'n bosibl, gydsynio i driniaeth y person ifanc neu i rannu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, efallai na fydd pobl ifanc eisiau i'w rhieni wybod

---

<sup>132</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Yr Adran Iechyd. [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/618812/Drug_misuse_and_dependence.pdf)

eu bod yn ceisio cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau, a dylid ystyried eu dymuniadau – efallai y bydd modd iddynt aros yn gyfrinachol, a chydsynio i driniaeth a rhannu gwybodaeth.

### **3.2.9.2 Pobl ifanc iau nag 16 oed**

Gall plant iau nag 16 oed roi eu cydsyniad eu hunain i dderbyn neu wrthod gofal iechyd, hyd yn oed yn groes i safbwyntiau eu rhiant, os gellir dangos eu bod yn gymwys yn ôl prawf Gillick. Mae cymhwysedd Gillick yn cyfeirio at hawl gyfreithiol plentyn iau nag 16 oed i gydsynio i gyngor, archwiliad meddygol a thriniaeth os bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn asesu ei fod yn ddigon aeddfed a deallus i ddeall natur a goblygiadau'r driniaeth.<sup>133</sup> Dylai unrhyw asesiad o gymhwysedd Gillick gael ei gofnodi yn y cofnod gofal iechyd.<sup>134</sup>

### **3.2.9.3 Pobl ifanc 16 oed neu hŷn**

Gall pobl ifanc 16 oed gydsynio i ofal iechyd. Pan fyddant yn 16 oed, mae'n rhaid ymgysylltu â nhw'n uniongyrchol mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal iechyd, a'u cynnwys yn arbennig yn y penderfyniad ynglŷn â pha wasanaeth y dylent ymuno ag ef, os oes dewis rhwng Gwasanaethau i Blant neu Oedolion.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol yn gyffredinol i bobl ifanc o 16 oed ymlaen. Dylai unrhyw berson ifanc yr ystyrir nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniad penodol pan fydd yn 16 oed gael ei asesu o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol i benderfynu ar ei les pennaf a'r ffordd briodol o weithredu. Pan fydd trefniadau gofal a thriniaeth yn gyfystyr ag amddifadu'r person ifanc o'i ryddid, dylid dilyn y Safonau Amddifadu o Ryddid neu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (DOLS/LPS) perthnasol neu weithdrefnau eraill er mwyn diogelu ei les yn gyfreithlon ar yr un pryd â rhoi sylw dyledus i'w hawliau dynol.

### **3.2.9.4 Galluedd Meddyliol**

Mae Deddf Galluedd Meddyliol (2005) yn hwyluso asesu galluedd unigolyn i wneud penderfyniadau ac mae wedi'i seilio ar y pum egwyddor canlynol:

- Rhagdybiaeth o alluedd.
- Bod unigolion yn cael eu cynorthwyo i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
- Bod gan unigolyn yr hawl i wneud penderfyniad annoeth.
- Egwyddorion lles pennaf.
- Defnyddio'r opsiynau lleiaf cyfyngol.

---

<sup>133</sup> Gillick -v- Awdurdod Iechyd Ardal Gorllewin Norfolk a Wisbech a'r Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol [1985] 3 WLR 830 [HL]

<sup>134</sup> GIG Cymru. E-lawlyfr llywodraethu. [e-Lawlyfr Llywodraethu - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#)

Wrth asesu galluedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae'n rhaid i'r asesiad o alluedd gael ei wneud gan y penderfynwr, a'r penderfynwr yw'r sawl sy'n penderfynu p'un ai cymryd camau mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth oedolyn nad oes ganddo alluedd neu sy'n ystyried gwneud penderfyniad ar ei ran. Pan fydd y penderfyniad yn cynnwys triniaeth feddygol – y meddyg sy'n cynnig y driniaeth yw'r penderfynwr.

### 3.2.10 Cynllunio gofal integredig

Mae cynllunio gofal integredig yn darparu dull o hwyluso a monitro'r broses o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol teg, di-dor o ansawdd uchel. Gallai hyn gael ei gyflawni ar lefel ficro neu bersonol trwy gynlluniau gofal unigol; ar lefel feso, trwy ddarparu gofal a chymorth i grwpiau o blant a phobl ifanc â chyflyrau tebyg, er enghraifft y rhai hynny yr amlygwyd eu bod yn defnyddio sylweddau ac yn ddibynol arnynt; ymlaen i'r lefel facro, trwy ddarparu gofal integredig i'r boblogaeth gyfan gan haenu anghenion yn briodol ar draws lleoliadau.<sup>135</sup> Mae sicrhau dulliau clir ar gyfer adrodd a monitro dangosyddion perthnasol o anghenion ar y lefelau micro a meso yn amlygu ac yn galluogi asesu a chynllunio effeithiol a chost-effeithiol ar y lefel facro (gweler Adran C – Monitro, Gwerthuso a Dangosyddion Perfformiad Allweddol).

Mae cynllunio gofal integredig yn caniatáu ar gyfer datblygu llwybrau gofal a monitro cynnydd ar gyfer triniaeth, gofal a chymorth, mewn partneriaeth â'r unigolyn, gan rychwantu'r pedwar prif faes a amlinellwyd yn y broses asesu, sef yn benodol defnydd o gyffuriau ac alcohol a dibyniaeth arnynt, iechyd corfforol, iechyd meddyliol a gweithredu cymdeithasol, gan gynnwys ymwneud â chyfiawnder troseddol.<sup>136</sup> Mae'r Cynllun Gofal Integredig yn darparu un pwynt cyfeirio ar gyfer yr holl ddarparwyr sy'n ymwneud â gofal y plentyn neu'r person ifanc. Ar ôl asesu anghenion, dylai'r cydlynnydd arweiniol / gweithiwr allweddol ddatblygu'r Cynllun Gofal Integredig, a negodi a chydlynu'r broses o ddarparu gofal a chymorth iechyd a chymdeithasol amlddisgyblaethol, gyda'r awdurdod i sicrhau bod y Cynllun Gofal Integredig yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.<sup>137</sup> Mae'r gweithiwr allweddol neu'r cydlynnydd achos a nodwyd yn gyfrifol am ddiweddarau'r Cynllun Gofal Integredig, gan drafod gyda'r plentyn neu'r person ifanc a chael ei gytundeb.

Dylai Cynllun Gofal Integredig fynd i'r afael â'r ystod lawn o anghenion, dylai gael ei gydlynu'n effeithiol gyda'r holl asiantaethau a theulu/gofalwyr lle y bo'n bosibl, dylai

---

<sup>135</sup> Curry N, Ham C. Clinical and service integration. The route to improved outcomes. Cronfa'r Brenin; 2010. Ar gael yn: <https://www.kingsfund.org.uk/sites/files/kf/Clinical-and-serviceintegration-Natasha-Curry-Chris-Ham-22-November-2010.pdf>

<sup>136</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd. Ar gael yn: [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/618422/Drug_misuse_and_dependence_publishing.service.gov.uk)

<sup>137</sup> Sefydliad Iechyd y Byd, Swyddfa Ranbarthol Ewrop. 2016. Modelau gofal integredig – trosolwg. Ar gael yn: [Integrated care models: an overview \(who.int\)](https://www.who.int/publications-detail/integrated-care-models-an-overview)

gael ei ddiweddarau a'i fonitro'n rheolaidd a, lle y bo'n briodol, dylai gynnwys trefniadau pontio wedi'u cydlynu i wasanaethau i oedolion, dros amser gydag ymgysylltiad clir.<sup>138</sup> Dylai'r Cynllun Gofal Integredig gael ei ddiweddarau'n rheolaidd, o leiaf unwaith y mis neu'n amlach os bydd newid sylweddol mewn amgylchiadau, er enghraifft, newidiadau i ddefnydd o sylweddau neu risg, a charchariad.

Dylai'r Cynllun Gofal Integredig gynnwys nodau sy'n ymwneud â defnydd o sylweddau a dibyniaeth arnynt, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â thriniaeth, fel darparu ymyriadau lleihau niwed (e.e. darparu nodwyddau a chwistrellau, cyflenwi naloxone i'w ddefnyddio gartref) a seicogymdeithasol strwythuredig ac ymgysylltu â nhw, a rhagnodi ar gyfer dibyniaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod nodau a chymau gweithredu cytunedig tymor byr a thymor hwy yn gyson ac yn gydlynol ar draws a rhwng ymyriadau, yn enwedig os bydd ymateb amlasiantaethol<sup>139</sup>. Dylai'r holl weithwyr ieuchyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â thriniaeth a chymorth plentyn a pherson ifanc gael eu henwi yn y Cynllun Gofal Integredig. Er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol a chydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth, mae'n rhaid i'r datganiad cydsyniad ar sail gwybodaeth gael ei gynnwys yn y Cynllun Gofal Integredig.

### 3.3 Dull ac Ymyriadau Lleihau Niwed

#### 3.3.1 Cefndir

Sefydlwyd ymyriadau lleihau niwed yn y Deyrnas Unedig yn y 1980au hwyr i ymateb i epidemig Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig (AIDS) y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV). Arweiniodd hyn at agor y Rhaglen Nodwyddau a Chwistrellau (Rhaglenni Cyfnewid Nodwyddau gynt) gyntaf ym 1986, ac esblygiad polisïau, gwasanaethau a chymau gweithredu sy'n gweithio i leihau'r niwed ieuchyd, cymdeithasol ac economaidd i unigolion, cymunedau a chymdeithasau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau, alcohol a thybaco<sup>140</sup>. Mae'r dull lleihau niwed o fynd i'r afael â defnyddio sylweddau wedi'i seilio ar ymrwymiad cryf i ieuchyd cyhoeddus a'r egwyddorion craidd canlynol:

- mae'n bragmatig.
- mae'n blaenoriaethu nodau.

---

<sup>138</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd. Ar gael yn: [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/614442/drug-misuse-and-dependence-report-2017.pdf)

<sup>139</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd. Ar gael yn: [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/614442/drug-misuse-and-dependence-report-2017.pdf)

<sup>140</sup> Newcombe, R. (1992) *The reduction of drug related harm: a conceptual framework for theory, practice and research*. Yn, O'Hare et al (Goln) *The reduction of drug related harm*. Llundain: Routledge.

- mae wedi'i seilio ar werthoedd dyneiddiol.
- mae'n canolbwyntio ar risgiau a niwed.
- nid yw'n canolbwyntio'n bennaf ar ymatal, ond mae'n cynnwys adfer fel rhan o ystod o nodau a chanlyniadau dros amser.
- mae'n ceisio cynyddu'r ystod o opsiynau ymyrraeth sydd ar gael i'r eithaf.
- mae'n hwylusol yn hytrach na gorfodol, ac wedi'i seilio ar anghenion unigolion.

Yn aml, gellir trefnu nodau ac amcanion penodol polisi ac ymyriadau lleihau niwed mewn hierarchaeth gyda'r opsiynau mwy ymarferol i'r unigolyn ar un pen (e.e. mesurau i gadw pobl yn iach) ac opsiynau llai ymarferol ond dymunol ar y pen arall. Y brif flaenoriaeth ddylai fod cadw pobl sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol yn fyw ac atal niwed na ellir ei wella. Ystyrir yn aml bod ymataliad yn nod tymor hwy, ac felly dylai modelau lleihau niwed weithio'n gyfochrog ag amrywiaeth o strategaethau sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sylweddau o fewn cymuned, fel ymyriadau wedi'u seilio ar ymatal ac adfer.

Mae ymyriadau lleihau niwed wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn gost-effeithiol pan gânt eu darparu mewn ffordd wedi'i thargedu i leihau'r niwed a'r risgiau i unigolyn a'r gymuned y mae'n byw ynddi. Mae'r dull wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i'r holl gyffuriau seicoweithredol, gan gynnwys cyffuriau rheoledig a chyfreithlon, alcohol, tybaco a chyffuriau ffarmacolegol, ac felly ni ddylai gael ei dargedu tuag at chwistrellu cyffuriau yn unig.

### 3.3.2 Lleihau niwed yng nghyd-destun plant a phobl ifanc

Mae niwed sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ymhlith plant a phobl ifanc yn ymwneud yn aml â meddwdod aciwt a/neu ddefnydd gormodol, er enghraifft ar ôl defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd, a allai fod yn beryglus oherwydd gwenwyndra ac oherwydd eu bod yn cynnwys cynhwysion wedi'u cyfuno a heb eu profi. Ar yr adeg ysgrifennu, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gamddefnyddio cyffuriau dros y cownter neu ar bresgripsiwn ymhlith pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig yn gyfyngedig.<sup>141</sup> Fodd bynnag, mae adroddiadau anecdotaidd o wasanaethau a phrofiadau wedi amlygu'r maes hwn fel un sy'n achos pryder cynyddol.

Wrth ddarparu gwasanaethau lleihau niwed i bobl ifanc, mae angen cydbwysedd rhwng diogelu lles person ifanc a'i atal rhag ceisio cymorth. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i weithgareddau lleihau niwed cyffuriau ac alcohol a hybu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys atal clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy, marwolaeth cyn pryd ac afiachedd, yn ogystal â niwed cymdeithasol a chamfanteisio, gael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc.

<sup>141</sup> Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. 2017 [Drug misuse and dependence: UK guidelines on clinical management - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/drug-misuse-and-dependence-uk-guidelines-on-clinical-management)

### 3.3.3 Ymyriadau lleihau niwed ac ymatal sy'n seiliedig ar nodau

Yn 2015, daeth briffiad gan y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD) i'r casgliad bod y dystiolaeth ynglŷn â dulliau arfer gorau o ran ymyriadau atal cyffuriau ar gyfer pobl ifanc yn gyfyngedig. Mae tystiolaeth ac adolygiadau cyfoes yn parhau i amlygu effaith a chost-efeithiolrwydd cyfyngedig strategaethau wedi'u bwriadu ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ymatal yn bennaf. Yn aml, gellir priodoli hyn i ddull 'un ateb i bawb' a ddefnyddir gan strategaethau niferus nad ydynt yn cydnabod ffactorau ysgogiadol canfyddedig pobl ifanc yn ymwneud â defnyddio sylweddau ynghyd â'r cyd-destun cymdeithasol y cânt eu defnyddio ynddo.<sup>142</sup>

Mewn cyferbyniad, gall dulliau lleihau niwed sy'n gyd-destunol berthnasol ac ymatebol ddangos canlyniadau effeithiol wrth wella effeithiau ymddygiadol a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol ymhlith plant a phobl ifanc.<sup>143</sup> Fel y cyfryw, dylai ymarferwyr a chomisiynwyr gofio ei bod yn bosibl atal canlyniadau iechyd a chymdeithasol niweidiol tymor hir hyd yn oed heb ymatal rhag cymryd cyffuriau.<sup>145</sup>

### 3.3.4 Ymyriadau lleihau niwed arbenigol

Mae ymyriadau lleihau niwed arbenigol yn rhaglenni wedi'u targedu a luniwyd i leihau niwed a gwella iechyd y cyhoedd yn gysylltiedig ag ymddygiad peryglus penodol. Gallai hyn gynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau (NSP).
- Therapi Amnewidion Opioid (OST).
- Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref (THN).
- Sgrinio, brechu a thrin Ffrysau a Gludir yn y Gwaed (BBV).
- Sgrinio a thrin Heintiau a Droschlwyddir yn Rhywiol (STI).
- Darparu dulliau atal cenhedlu.
- Gwasanaethau profi a phroffilio sylweddau seicoweithredol (e.e. WEDINOS).
- Gwasanaethau sgrinio iechyd wedi'u targedu (e.e. cyffuriau gwella delwedd a pherfformiad (IPEDs)).

---

<sup>142</sup> Jenkins et al. Developing harm reduction in the context of youth substance use: insights from a multi-site qualitative analysis of young people's harm minimization strategies. *Harm Reduction Journal*, 2017; 14:53

<sup>143</sup> Jenkins et al. Developing harm reduction in the context of youth substance use: insights from a multi-site qualitative analysis of young people's harm minimization strategies. *Harm Reduction Journal*, 2017; 14:53

<sup>144</sup> McKay M, Agus A, Cole J, et al. Steps Towards Alcohol Misuse Prevention Programme (STAMPP): a school-based and community based cluster randomised controlled trial. *BMJ Open* 2018;8:e019722. doi:10.1136/bmjopen-2017-019722

<sup>145</sup> Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD). Atal dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. (2015)

Yng Nghymru, mae ymyriadau lleihau niwed ac iechyd y cyhoedd penodol a ddarperir, fel Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau, Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref, a sgrinio Ffyrsgau a Gludir yn y Gwaed, yn cael eu cofnodi a'u monitro trwy Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru.<sup>146,147,148</sup> Mae'n ofynnol i dimau comisiynu, cynllunwyr gwasanaethau a darparwyr sicrhau eu bod yn ystyried canllawiau a fframweithiau triniaeth cyfredol yn ofalus wrth ddatblygu polisi lleol ar gyfer ymyriadau lleihau niwed arbenigol.<sup>149,150,151,152</sup> Dylai ymyriadau lleihau niwed arbenigol bob amser gael eu darparu yn rhan o amrywiaeth o ymyriadau perthnasol sy'n ymwneud â Chynllun Gofal Integredig y person ifanc.

### **3.3.5 Gwybodaeth a Chyngor Cyffredinol ac Arbenigol ar Lleihau Niwed**

Dylai gwybodaeth a chyngor cyffredinol wedi'u seilio ar dystiolaeth fod ar gael i alluogi unigolion i wneud dewisiadau gwybodus a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag ymddygiad penodol, e.e. defnyddio nifer o wahanol gyffuriau / cymysgu sylweddau, meddwl o flaen llaw, ymwybyddiaeth bersonol ac amgylcheddol a diogelwch. Gwybodaeth a chyngor wedi'u targedu i alluogi unigolion i wneud dewisiadau gwybodus a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag ymddygiad penodol, e.e. dulliau mwy diogel o ddefnyddio, symud llwybr, atal gorddos a goddefiad, iechyd rhywiol a chyngor ar ddulliau atal cenhedlu.

### **3.3.6 Ystyriaethau wrth ddarparu ymyriadau lleihau niwed i blant a phobl ifanc**

Yn unol ag egwyddorion lleihau niwed, dylai ymyriadau gael eu teilwra i'r unigolyn. Dylid ystyried oedran, anghenion datblygiadol a gallu addysgol y person ifanc. Ni ddylid gorlwytho'r person ifanc â gwybodaeth; yn hytrach, a lle y bo'n bosibl, dylid darparu gwybodaeth ar ffurf ysgrifenedig/graffigol yn ogystal ag ar lafar. Dylai'r ystod o wasanaethau lleihau niwed gael eu darparu'n gyson i bawb y mae arnynt eu hangen ar draws ardaloedd, ar yr un pryd â bodloni anghenion lleol a thueddiadau penodol o ran defnyddio sylweddau.

---

<sup>146</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cronfa Ddata Lleihau Niwed: Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau 2017-18. 2018

<sup>147</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cronfa Ddata Lleihau Niwed: Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref 2017-18. 2018

<sup>148</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cronfa Ddata Lleihau Niwed: Profi a thrin ffyrsgau a gludir yn y gwaed mewn lleoliadau cymunedol 2017-18. 2018

<sup>149</sup> Llywodraeth Cymru. Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau yng Nghymru. 2011

<sup>150</sup> Llywodraeth Cymru. Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Compendiwm Iechyd a Lles. 2013

<sup>151</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). PH52 – Rhaglenni Nodwyddau a Chwistrellau. 2014

<sup>152</sup> Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Ehangu argaeledd naloxone. 2017 [Widening the availability of naloxone - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

Dylai gwasanaethau sicrhau bod yr ystod o ymyriadau a dulliau lleihau niwed yn ymdrin â'r themâu allweddol canlynol:

- Lles corfforol
- Lles seicolegol
- Clefydau heintus, triniaeth a gofal
- Atal gorddos
- Lles teuluol a chymunedol
- Lles rhywiol a pherthnasoedd

Dylai cyngor a gwybodaeth ynglŷn â rhyw mwy diogel ynghyd â sgrinio trothwy isel, atgyfeirio a chyfeirio at glinigau iechyd rhywiol arbenigol fod yn arfer safonol ym mhob gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ac mewn lleoliadau eraill cysylltiedig ag iechyd ac ar gyfer pobl ifanc. Dylai gwybodaeth am risgiau rhyw geneuol heb ei amddiffyn a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gael ei chynnwys hefyd.<sup>153</sup>

Efallai na fydd pobl ifanc yn uniaethu â modelau triniaeth sy'n canolbwyntio mwy ar oedolion, a dylid eu cynnwys wrth ddylunio gwasanaethau newydd i fodloni eu hanghenion datblygiadol penodol. Er enghraifft, mae astudiaethau achos wedi amlygu sut mae'n bosibl defnyddio dulliau cyfranogol ac a arweinir gan gyfoedion i ymgysylltu â phobl sy'n chwistrellu cyffuriau er mwyn llywio gwasanaethau mwy priodol a arweinir gan ieuenctid ac sy'n gyfeillgar i ieuenctid.<sup>154</sup> Dylai gwasanaethau sy'n ceisio darparu cyngor ac ymyriadau lleihau niwed sicrhau bod ystod eang o fathau o sylweddau'n cael eu hystyried yn ofalus, gan gynnwys alcohol, tybaco, cyffuriau seicoweithredol anghyfreithlon, cyffuriau gwella delwedd a pherfformiad (IPEDs), cyffuriau cyfreithlon gan gynnwys meddyginiaethau ar bresgripsiwn, a chyffuriau dros y cownter. Mae newidiadau i farchnadoedd cyffuriau a sylweddau seicoweithredol newydd (NSPs) ers y 2000au hwyr yn amlygu pwysigrwydd allgymorth rhagweithiol a datblygu ymyriadau sy'n hygyrch i'r rhai hynny nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau prif ffrwd.

### 3.3.7 Risg sy'n cyd-ddigwydd, niwed, a grwpiau agored i niwed

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol os ydynt yn ymwneud ag ymddygiad troseddol, os oes ganddynt bryderon iechyd meddwl sy'n cydfodoli, os ydynt wedi'u gwahardd o'r ysgol neu os ydynt yn dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant<sup>155</sup>. Mae cysylltiad rhwng problemau defnyddio sylweddau cynnar a throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, effaith anuniongyrchol ar hunanladdiad a damweiniau, ac effeithiau ar iechyd meddwl a gweithrediad cyffredinol. O ran y rhai hynny sydd â lefelau sylweddol o ddefnydd neu

---

<sup>153</sup> Llywodraeth Cymru (2013). Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Compendiwm Iechyd a Lles.

<sup>154</sup> Cynghair HIV/AIDS Ryngwladol, Lleihau Niwed Rhyngwladol ac Youth RISE. Gam wrth gam: Paratoi ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n chwistrellu cyffuriau

<sup>155</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd. Tud.241 [Drug misuse and dependence \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/614442/drug-misuse-and-dependence.pdf)

ddefnydd problemus, mae'n fwy tebygol bod camddefnyddio cyffuriau'n gwaethygu problemau eraill fel chwalfa deuluol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, problemau addysgol a phryderon iechyd meddwl – hynny yw, mae defnydd o gyffuriau'n symptom o'r ffactor risg yn fwy nag y mae'n ei achosi.<sup>155</sup>

Mae angen ystyried gwahaniaethau rhwng y rhywiau, oherwydd bod merched ifanc a menywod yn fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd meddwl a bod yn agored i niwed mewn ffyrdd penodol, fel amlygiad i gamfanteisio a cham-drin rhywiol.<sup>156</sup> At hynny, mae astudiaethau sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol wedi dangos bod cysylltiad cryf rhwng defnyddio sylweddau a risg rywiol a chanlyniadau iechyd rhywiol niweidiol ymhlith pobl ifanc. Mae angen gwneud gwaith ymchwil ansoddol ehangach neu ar lefel digwyddiad i archwilio cyd-destun y cysylltiadau hyn a'r hyn sy'n eu hysgogi er mwyn llywio ymyriadau cydgysylltiedig a mynd i'r afael â'r ymddygiadau hyn sy'n cydberthyn.<sup>157</sup>

Mae'n bosibl y bydd polisïau ac ymyriadau cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â'r 'amgylchedd risg' ehangach yn cael yr effaith fwyaf ar leihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar lefel y boblogaeth, er enghraifft trwy fynd i'r afael â thlodi, trawma, digartrefedd ac allgáu cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â dull sydd wedi'i seilio ar hawliau plant. Mae lleihau niwed yn y cyd-destun hwn yn ymwneud â chadw pobl ifanc sydd mewn perygl yn fyw ac yn ddiogel, ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi iddynt fod yn agored i niwed.<sup>158</sup> Gallai dulliau dim goddefgarwch olygu nad yw camddefnyddio cyffuriau yn derbyn sylw. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu, yn y sefyllfa hon, y gallai dylanwad cyfoedion arwain at fathau mwy niweidiol o yfed a defnyddio cyffuriau mewn lleoliadau hostel a llety â chymorth.<sup>159</sup> Fel y cyfryw, dylai darparwyr llety sy'n gofalu am blant a phobl ifanc agored i niwed fod yn ystyriol wrth fabwysiadu polisïau dim goddefgarwch tuag at ddefnyddio cyffuriau ac alcohol (a meddwdod), oherwydd fe allai hyn eu hatal rhag darparu cyngor ac ymyriadau lleihau niwed. Dylai'r broses sefydlu mewn hostel neu lety â chymorth gynnwys gwybodaeth sy'n addysgu am gyffuriau.

---

<sup>156</sup> Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2012) Safonau ymarfer ar gyfer pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Llundain: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

<sup>157</sup> Khadr SN, Jones KG, Mann S, et al. Investigating the relationship between substance use and sexual behaviour in young people in Britain: findings from a national probability survey. *BMJ Open*, 2016; 6:e011961.doi:10.1136/bmjopen-2016-011961

<sup>158</sup> Cynghrair HIV/AIDS Ryngwladol, Lleihau Niwed Rhyngwladol ac Youth RISE. Gam wrth gam: Paratoi ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n chwistrellu cyffuriau

<sup>159</sup> Llywodraeth Cymru (2013). Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Compendiwm Iechyd a Lles.

### 3.4 Ymyriadau seicolegol a chymorth seicogymdeithasol

Diffinnir ymyriadau seicogymdeithasol fel prosesau therapiwtig a strwythuredig sy'n mynd i'r afael â'r agweddau seicolegol a chymdeithasol ar ymddygiad. Gall dwyster yr ymyriadau amrywio yn dibynnu ar anghenion unigolion.<sup>160</sup>

Mae camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc yn bryder mawr oherwydd fe all gael effaith tymor hir ar bob agwedd ar eu bywydau. Mae'n rhaid i driniaeth effeithiol gael ei theilwra i'r person ifanc a chanolbwyntio arno. Mae asesu a thrin cydafiachedd yn rhan bwysig o'r daith triniaeth camddefnyddio sylweddau hefyd. Felly, mae'n rhaid i'r Cynllun Gofal Integredig fod yn amlddisgyblaethol, a chynnwys cyfranogiad ac ymwneud cymunedol a theuluol, ar yr un pryd â chanolbwyntio'n barhaus ar anghenion y person ifanc er mwyn hwyluso ymgysylltiad, gan arwain at ddatblygu sgiliau a gwydnwch y person ifanc i leihau niwed. Dylai addysg lleihau niwed a strategaethau atal atglafychu gael eu darparu ar hyd y daith gyfan.<sup>161</sup>

Mae triniaeth effeithiol ar gyfer pob math o broblemau camddefnyddio sylweddau yn cynnwys ymyriadau seicogymdeithasol.<sup>162,163</sup>

Yn y Deyrnas Unedig, mae sylfaen dystiolaeth eang ochr yn ochr â chanllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio ymyriadau seicogymdeithasol ar gyfer trin a rheoli problemau defnyddio sylweddau. Mae'r rhain yn cynnwys Camddefnyddio Cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol a Chamddefnyddio Cyffuriau: Ymyriadau Seicogymdeithasol.<sup>164</sup>

Dylai ymyriadau seicogymdeithasol effeithiol gynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- Perthynas therapiwtig, sef y berthynas rhwng ymarferydd gofal iechyd a'i gleient. Gall ansawdd y berthynas hon fod yn rhagfynegydd dibynadwy o ganlyniadau triniaeth cadarnhaol.<sup>165</sup>

---

<sup>160</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) Canllawiau ar gyfer Ymyriadau Seicogymdeithasol wedi'u Seilio ar Dystiolaeth wrth Drin Camddefnyddio Sylweddau; Llywodraeth Cymru; 2011; tudalen 3; [Canllawiau ar gyfer Ymyriadau Seicogymdeithasol wedi'u Seilio ar Dystiolaeth wrth Drin Camddefnyddio Sylweddau](#) [cyrchwyd 25 Awst 2020]

<sup>161</sup> Jayarajan D, Jacob P. Psychosocial interventions among children and adolescents. Indian J Psychiatry. 2018;60 (Suppl 4):S546-S552. doi:10.4103/psychiatry.IndianJPsychiatry\_22\_18

<sup>162</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd

<sup>163</sup> Abdulrahim D, Bowden-Jones O, ar ran Grŵp Arbenigol NEPTUNE. Guidance on the Management of Acute and Chronic Harms of Club Drugs and Novel Psychoactive Substances. Rhwydwaith Triniaeth Seicoweithredol Newydd y Deyrnas Unedig (NEPTUNE). Llundain, 2015.

<sup>164</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Chlinigol. Camddefnyddio Cyffuriau: Ymyriadau Seicogymdeithasol (Canllaw Clinigol 51). 2007.

<sup>165</sup> Ardito, RB, a Rabellino, D. "Therapeutic alliance and outcome of psychotherapy: historical excursus, measurements, and prospects for research." Frontiers in psychology. Cyfrol 2 270. 18 Hydref 2011, doi:10.3389/fpsyg.2011.00270

- Defnyddio ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Cymwyseddau a goruchwyliaeth staff digonol (gweler Datblygu'r gweithlu). Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod ymyriadau'n cael eu gweithredu'n gytbwys ac yn sicrhau eu hansawdd.
- System o fonitro ac adolygu nodau a chanlyniadau triniaeth cytunedig. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer canolbwyntio ac ailganolbwyntio strwythur yr ymyriadau a ddarperir a'u nodau. Mae gwaith a gyfeirir gan nodau cytunedig yn gysylltiedig ag ymgysylltiad cadarnhaol â'r cleient a chanlyniadau gwell.

Er bod llawer o ymyriadau ar gael i drin problemau camddefnyddio sylweddau, dylai ymarferwyr deilwra eu hymyriadau i anghenion ac amgylchiadau unigol y person ifanc a natur a chyd-destun ei gamddefnydd o sylweddau, gan ddewis yr ymyrraeth neu'r cymysgedd o ymyriadau mwyaf priodol wedi'u seilio ar dystiolaeth. Dylai'r ymarferydd a'r person ifanc gytuno ar nodau, gan helpu i ddatblygu'r berthynas therapiwtig, a chaniatáu ar gyfer trafod unrhyw deimladau o orfodaeth neu bwysau allanol a allai fod gan y person ifanc. Yn yr un modd â dewis a theilwra nodau, dylai'r cynllun gofal gael ei deilwra i anghenion unigol y person ifanc; mae dull "un ateb i bawb" yn annhebygol o arwain at ganlyniadau llwyddiannus. Mae tystiolaeth bod adolygu ac adborth rheolaidd yn gallu arwain at ganlyniadau triniaeth cadarnhaol. Pan na chyflawnir canlyniadau, mae'n bwysig defnyddio'r wybodaeth hon i amlygu unrhyw rwystrau rhag newid a pharhau i ddatblygu perthynas therapiwtig gadarnhaol trwy wrando empathetig.

### 3.4.1 Ymyriadau seicogymdeithasol dwysedd isel ac uchel

Mae ymyriadau dwysedd isel yn ffordd arbennig o effeithiol o ymgysylltu pobl ifanc â gwasanaethau triniaeth, hwyluso newidiadau i'w defnydd o sylweddau a chyfleu negeseuon lleihau niwed, yn ogystal â mesur lefelau ysgogiad. Fel arfer, gall y rhain gael eu darparu gan weithwyr allweddol â sgiliau addas mewn un sesiwn, o fewn amrywiaeth eang o leoliadau.<sup>166,167</sup>

Yn gyffredinol, mae ymyriadau dwysedd uchel yn gweddu'n well i unigolion y mae arnynt angen cynllun triniaeth mwy strwythuredig a ffurfiol, a dylent gael eu cynnal dim ond gan unigolion sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol i'w darparu. Dylai

<sup>166</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) Canllawiau ar gyfer Ymyriadau Seicogymdeithasol wedi'u Seilio ar Dystiolaeth wrth Drin Camddefnyddio Sylweddau; Llywodraeth Cymru; 2011; [substance-misuse-treatment-framework-guidance-for-evidence-based-community-prescribing-in-the-treatment-of-substance-misuse.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/substance-misuse-treatment-framework-guidance-for-evidence-based-community-prescribing-in-the-treatment-of-substance-misuse.pdf) [yrchwyd 25 Awst 2020]

<sup>167</sup> Pilling S, Hesketh K, Mitcheson L; Routes to recovery: Psychosocial interventions for drug misuse. A framework and toolkit for implementing NICE-recommended treatment interventions; Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol y GIG, Llundain, 2010

ymyriadau dwysedd uchel gael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r rhesymau dros gamddefnyddio sylweddau a helpu lleihau niwed a defnydd.<sup>168</sup>

### 3.4.2 Llwybr triniaeth

Gellir cysyniadoli triniaeth ar gyfer defnydd problemus o sylweddau a dibyniaeth ar sylweddau fel "llwybr triniaeth" a nodweddir gan bedwar cam:

- Asesu.
- Ymgysylltu.
- Newid ymddygiad.
- Adfer cynnar, fel y'i diffinnir gan gynnydd tuag at gyflawni rheolaeth a gynhelir yn wirfoddol dros ddefnydd o sylweddau sy'n cynyddu iechyd a lles i'r eithaf.<sup>169</sup>

Y duedd yw y bydd angen cydbwysedd gwahanol o ymyriadau seicogymdeithasol ym mhob cam.<sup>170</sup>

Fel arfer, bydd angen cyfnod asesu, ymgysylltu a gweithio ar y cyd i ddatblygu Cynllun Gofal Integredig cytunedig a pharatoi gyda pherson ifanc ar gyfer newidiadau ymddygiadol tymor hwy. Gallai hyn gynnwys ymyriadau fel lleihau niwed a datblygu strategaethau ymdopi a chynyddu gwydnwch er mwyn helpu i gynnal unrhyw newidiadau. Ar y cam asesu, dylai gwasanaethau geisio darparu mynediad cyflym at driniaeth, proses asesu syml a'r gallu i ddelio ag unrhyw bryderon sy'n ymddangos yn syth, fel pryder iechyd penodol. Mae cam asesu cadarn yn hanfodol nid yn unig ar ddechrau gofal, ond drwy gydol proses triniaeth, ymgysylltu a newid ymddygiad barhaus cleient.

Gallai'r cam cynnar hwn o ymgysylltu, asesu a thriniaeth ganolbwyntio mwy ar reoli'r risgiau i unigolyn na chyflwyno newid ymddygiadol neu ddatblygu gwydnwch. Fe allai hefyd fod yn ddwysach na chamau eraill o'r llwybr triniaeth. Gan fod nifer o risgiau'n bosibl ar y cam hwn, gallai'r cynllun gofal fynnu bod gweithwyr gofal iechyd yn gwneud gwaith penodol ar y materion hynny gan oruchwyllo risg.

Mae asesu risgiau'n rhan bwysig o'r broses asesu ac fe all helpu i bennu'r math o ymyriadau seicogymdeithasol, eu canolbwynt a'u blaenoriaeth, gan ganiatáu i gynllun gweithredu leihau neu ddileu'r risg.

---

<sup>168</sup> Pilling S, Hesketh K, Mitcheson L; Routes to recovery: Psychosocial interventions for drug misuse. A framework and toolkit for implementing NICE-recommended treatment interventions; Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol y GIG, Llundain, 2010

<sup>169</sup> Grŵp Consensws Adfer Comisiwn Polisi Cyffuriau'r Deyrnas Unedig. Adroddiad Polisi 2008. Gweledigaeth o Adfer. Ar gael yn: [Microsoft Word - A Vision of Recovery v2.doc \(ukdpc.org.uk\)](https://www.ukdpc.org.uk/Microsoft%20Word%20-%20A%20Vision%20of%20Recovery%20v2.doc)

<sup>170</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd tud.48

Wrth i unigolyn symud trwy'r camau asesu ac ymgysylltu, mae'n debygol y bydd y pwyslais yn symud i ddatblygu cryfderau a gwydnwch y person ifanc ei hun, ar yr un pryd â rhoi mwy o reolaeth iddo dros ei gynllun gofal.<sup>171</sup>

Mae angen i'r cam asesu gael ei reoli'n ofalus ac fe allai ddigwydd dros sawl cyfarfod wrth i berthynas therapiwtig gael ei datblygu. Mae angen cydbwysedd rhwng cael gwybodaeth gynhwysfawr gan y cleient ac annog ymgysylltiad hefyd. Gellid cyflawni hyn trwy reoli nodau tymor byr a thrafod dyheadau tymor hwy. O ran rhai pobl ifanc ag anghenion cymhleth, mae'n bosibl y bydd angen dull amlasiantaethol yn ystod y cam asesu. Dylai'r bobl ifanc hyn gael eu hadnabod yn gynnar yn y broses asesu oherwydd fe allent fod mewn perygl penodol o ymddieithrio'n gynnar os nad eir i'r afael â'u hanghenion.

Dylai'r ymyriadau a'r dulliau seicogymdeithasol a ddefnyddir gael eu seilio ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar gryfderau ac adnoddau personol person ifanc. Gellir disgrifio'r cryfderau hyn mewn "model cyfalaf adfer" ac fe'u rhennir yn bedwar math:<sup>172</sup>

- Cyfalaf dynol – e.e. sgiliau, cyflogaeth, iechyd meddyliol a chorfforol.
- Cyfalaf ffisegol – e.e. adnoddau diriaethol, tai, arian.
- Cyfalaf diwylliannol – e.e. gwerthoedd, credoau.
- Cyfalaf cymdeithasol – e.e. perthnasoedd â phobl eraill.

Os oes gan berson ifanc lai o adnoddau o fewn math penodol o gyfalaf, efallai y bydd angen ymyriadau a chymorth dwysach i wella'r tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol. Mae arwyddion ar gyfer ymyriadau dwysach yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt: problem sydd wedi bodoli am gyfnod hwy, chwistrellu cyffuriau, neu nifer o broblemau sy'n cyd-ddigwydd. Dylid ystyried hefyd efallai bod gan berson ifanc broblemau camddefnyddio sylweddau mawr, ond ei fod yn fodlon ymgysylltu ag ymyriadau llai dwys yn unig ar hyn o bryd (e.e. rhaglen nodwyddau a chwistrellau).

Ar yr un pryd â chynorthwyo'r person ifanc i ddatblygu ei adnoddau, ei gwydnwch a'i sgiliau ymdopi, dylid hefyd rhoi sylw i'w rwydwaith cymdeithasol. Gall hyn gael dylanwad mawr ar y tebygolrwydd o ganlyniadau cadarnhaol. Dylid ceisio datblygu perthynas gadarnhaol ac iach â ffrindiau, teulu a'r gymuned, a chefnogi hyn drwy gydol taith driniaeth unigolyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bellach bod cefnogi anghenion y rhai hynny sy'n rhan o rwydwaith cymdeithasol person ifanc yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaeth hefyd.

---

<sup>171</sup> Adran Iechyd (2017) Camddefnyddio cyffuriau a dibyniaeth ar gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol tud.60

<sup>172</sup> Llywodraeth Ei Mawrhydi. Y Strategaeth Gyffuriau: 'Lleihau'r Galw, Cyfyngu ar y Cyflenwad, Cynyddu Adferiad: Cynorthwyo Pobl i Fyw Bywyd Heb Gyffuriau'. 2010.

Yn dilyn y cam asesu, dylai fod cynllun clir ar gyfer triniaeth person ifanc wedi'i seilio ar ei broblemau presennol, ei nodau ar gyfer triniaeth, ei gryfderau a'i risgiau. Dylai hyn hefyd fod yn sail i adolygu datblygiad triniaeth yn y dyfodol. Mae amlder presenoldeb a chyfranogiad mewn sesiynau yn arwyddion ymgysylltu. Mae ysgogiad yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o gymryd rhan mewn triniaeth yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf, ac yna mae'r bobl ifanc hynny sy'n cyflawni cyfranogiad uwch ddwywaith mor debygol o ddatblygu perthynas therapiwtig ffafriol â'u gweithiwr gofal iechyd.<sup>173</sup>

Felly, gall y cam ymgysylltu amrywio'n fawr yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys ysgogiad, natur a graddau'r defnydd o sylweddau, y berthynas therapiwtig ac argaeledd a hygyrchedd y gwasanaeth. Gellir gwella ysgogiad a'r berthynas therapiwtig trwy ymyriadau fel technegau cyfweld ysgogiadol, a gellir gwella argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau trwy drefnu gwasanaeth galw heibio neu allgymorth pendant.

O fewn camau newid ymddygiad y llwybr triniaeth, rhoddir pwyslais ar weithredu a pharhau i wneud newidiadau i ymddygiad defnyddio sylweddau person ifanc ac agweddau eraill ar ei fywyd, fel iechyd corfforol a meddyliol, rhwydweithiau cymdeithasol neu gamau tuag at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn ystod y cam hwn, dylai ymyriadau geisio cynnal newidiadau ar yr un pryd â datblygu sgiliau ymdopi ymhellach a datblygu gwydnwch unigolyn i gyflawni ei nodau triniaeth. Fodd bynnag, oherwydd y gallai person ifanc symud trwy gylch o newidiadau ac amrywiadau o ran ysgogiad, gan gynnwys pyliau o atglafychu i ddefnydd problemus, o bosibl, dylai ymyriadau lleihau niwed barhau i fod ar gael a chael eu darparu pan fydd angen.

Gellir adnabod anhawster wrth gynnal newid neu glafychu / atglafychu trwy gyfranogiad person ifanc mewn sesiynau neu yn ystod adolygu a datblygu Cynllun Gofal Integredig ar y cyd â'r person ifanc. Mae cynllun gofal unigol sydd â phwyslais ar nodau CAMPUS (Cyflawnadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) personol yn gysylltiedig â chanlyniadau triniaeth gwell a mwy cadarnhaol. O'i wneud yn dda, gall gosod nodau ddarparu gwobr ar gyfer eu cyflawni, a gallant hefyd amlygu anghenion penodol neu ychwanegol, gan weithredu fel rhan o'r broses monitro ac adolygu.

Wrth fynd i'r afael â newid ymddygiad, efallai y bydd angen addasu ymyriadau seicogymdeithasol i sylweddau penodol. Felly, dylai gweithwyr gofal iechyd feddu ar wybodaeth gynhwysfawr am sylweddau a'u heffeithiau penodol, a gallu rhoi cyngor

---

<sup>173</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd

perthnasol ar reoli risg a lleihau niwed. Mewn sefyllfaoedd lle mae person ifanc yn defnyddio nifer o wahanol sylweddau, mae'n rhaid mynd i'r afael â phob sylwedd, er y gellir addasu'r prif bwyslais yn unol â chymhlethdod a difrifoldeb y defnydd a'r problemau presennol.

### 3.4.3 Ymyriadau seicogymdeithasol wedi'u seilio ar dystiolaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau

Mae **cyfweld ysgogiadol** (dwysedd isel) yn ddull sy'n canolbwyntio ar y cleient sy'n gallu helpu person ifanc i ddatrys y ddeuoliaeth teimlad sy'n gysylltiedig â thriniaeth a chynyddu ei gymhelliad i newid. Dangoswyd hefyd ei fod yn gwella ymgysylltiad ac yn lleihau niwed sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a risgiau cysylltiedig<sup>174</sup>. Gall cyfweld ysgogiadol gael ei wneud mewn amrywiaeth o leoliadau y tu allan i wasanaeth camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys allgymorth.

Mae **rheoli posibiliadau (dwysedd isel)** yn defnyddio egwyddorion theori dysgu cymdeithasol, addasu ymddygiad ac atgyfnerthu cadarnhaol. Gwobrwyir ymddygiad a ddymunir neu newid ymddygiad gyda gwobr y cytunwyd arni o flaen llaw. Gallai'r wobwr fod yn dalebau neu fynediad at weithgareddau dargyfeiriol (a all fod yn ymyrraeth eu hunain). Gellir defnyddio hyn ochr yn ochr â chyfweld ysgogiadol. Dangoswyd bod **Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (dwysedd uchel)** yn ymyrraeth effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau, yn unigol ac mewn lleoliad grŵp<sup>175</sup>. Cynllunnir yr ymyrraeth i ystyried hanes y person ifanc o gamddefnyddio sylweddau, ei agweddau tuag at sylweddau a'r defnydd ohonynt fel dull ymdopi camweithredol. Mae'r broses hon yn galluogi'r person ifanc i amgyffred a deall ei ddefnydd, a datblygu strategaethau ymdopi amgen a gwydnwch er mwyn helpu i atal atglafychu.

Gall **ymyriadau teuluol** fod yn amlswyddogaethol, a chant eu defnyddio i hyrwyddo ymgysylltiad â gwasanaethau triniaeth, gan gynnwys teulu'r person ifanc yn ei driniaeth neu ymateb i anghenion y teulu. Mae'n bosibl y bydd ymyrraeth o'r math hwn nid yn unig yn ceisio lleihau neu atal defnydd, ond hefyd gwella ansawdd bywyd, perthnasoedd a/neu weithrediad y teulu yn gyffredinol<sup>176</sup>.

---

<sup>174</sup> Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) Canllawiau ar gyfer Ymyriadau Seicogymdeithasol wedi'u Seilio ar Dystiolaeth wrth Drin Camddefnyddio Sylweddau; Llywodraeth Cymru; 2011; tudalen 3; [substance-misuse-treatment-framework-guidance-for-evidence-based-psychosocial-interventions-in-the-treatment-of-substance-misuse.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/substance-misuse-treatment-framework-guidance-for-evidence-based-psychosocial-interventions-in-the-treatment-of-substance-misuse.pdf) [cyrchwyd 25 Awst 2020]

<sup>175</sup> Jayarajan D, Jacob P. Psychosocial interventions among children and adolescents. Indian J Psychiatry. 2018;60 (Suppl 4):S546-S552. doi:10.4103/psychiatry.IndianJPsychiatry\_22\_18

<sup>176</sup> Akram, Y., Copello, A. a Moore, D. Family-based interventions for substance misuse: a systematic review of systematic reviews—protocol. Syst Rev 3, 90 (2014). <https://doi.org/10.1186/2046-4053-3-90>

## 3.5 Cymorth a thriniaeth ffarmacolegol ar gyfer dibyniaeth

### 3.5.1 Triniaeth fel rhan o gynllun gofal cynhwysfawr, cyfannol

Er bod yr angen i reoli camddefnyddio sylweddau yn ffarmacolegol yn codi'n llai aml ymhlith plant a phobl ifanc o gymharu ag oedolion, pan fydd yn codi, yn aml bydd yn un elfen yn unig o sbectrwm o anawsterau, gan gynnwys aflonyddu teuluol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymddieithrio o addysg a phroblemau iechyd meddwl. Felly, mae'n hanfodol bod triniaeth ffarmacolegol yn cael ei chychwyn dim ond fel rhan o gynllun rheoli cynhwysfawr a chyfannol, sy'n dilyn canllawiau wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn cael ei reoli gan ddarparwyr triniaeth ag arbenigedd priodol. Bydd angen i ymyriadau ffarmacolegol priodol i oedran gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, pediatregwyr, gofal sylfaenol, staff CAMHS a seiciatryddion caethiwed.<sup>177</sup>

Bydd angen asesiad cynhwysfawr i ddatblygu cynllun rheoli cyfannol. Os ystyrir rhagnodi, mae'n bwysig cynnwys y pwyntiau canlynol mewn asesiad:

- Trin sefyllfaoedd brys.
- Natur y defnydd o sylweddau (gan gynnwys y dull defnyddio).
- Archwilio manau chwistrellu.
- Profion cyffuriau wrin/geneuol.
- Adnabod unrhyw arwyddion gwrthrychol o ddiddynfu.
- O ran trosglwyddiadau o asiantaethau eraill, cadarnhau'r feddyginiaeth bresennol a roddir ar bresgripsiwn.
- Adnabod problemau iechyd corfforol brys.
- Adnabod perygl hunanladdiad, hunan-niwed ac anawsterau iechyd meddwl.
- Adnabod beichiogrwydd (dylid cynnig prawf beichiogrwydd i bob menyw ifanc ac esbonio pam yn glir).
- Cynnal unrhyw ymchwiliadau mewnwithiol angenrheidiol, fel profion gwaed.

Gellir defnyddio triniaeth ffarmacolegol i:

- Reoli symptomau diddynfu.
- Cefnogi ymatal.
- Atal cymhlethdodau.
- Trin anhwylderau sy'n cydfodoli.

Dylai rhagnodi ar gyfer y glasoed gael ei gychwyn a'i fonitro gan wasanaethau arbenigol. O ran pobl ifanc dros 16 oed, gall hyn gynnwys gwasanaethau a fwriadwyd ar gyfer oedolion yn bennaf, ond o ran pobl ifanc iau nag 16 oed, bydd angen sgiliau mwy arbenigol.<sup>178</sup>

---

<sup>177</sup> Gilvarry a Britten, Guidance for the pharmacological management of substance misuse among young people. Llundain. Adran Iechyd. 2009

<sup>178</sup> Llywodraeth Cymru, Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau: Gofal integredig ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n camddefnyddio sylweddau. 2011

Mae pobl ifanc yn metaboleiddio meddyginiaeth mewn ffordd wahanol i oedolion ac fe allai eu hymateb i feddyginiaeth fod yn wahanol hefyd. Felly, mae'n rhaid i ragnodi ar gyfer pobl ifanc gael ei wneud yn ofalus gan ragnodwyr â chymwysterau addas, gan ystyried eu hoedran, eu pwysau a'u cam datblygiadol.<sup>179</sup>

### 3.5.2 Trwyddedu meddyginiaeth ar gyfer pobl ifanc

Yn aml, nid oes modd osgoi defnyddio meddyginiaeth mewn ffordd "all-drwydded" neu "ddidrwydded" ar gyfer plant er mwyn iddynt gael triniaeth effeithiol. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn y modd hwn, ar yr amod y caiff ei rhagnodi gan feddyg sy'n gweithio o fewn ei faes cymhwysedd. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn ymdrin â defnydd o'r fath ar yr amod bod y meddyg yn gallu cyfiawnhau'r rhagnodi yn unol â chorff o farn feddygol (gan gynnwys canllawiau). Mewn unrhyw sefydliad lle y bydd meddyginiaeth yn cael ei defnyddio yn y modd hwn, mae'n rhaid bod safonau a threfniadau diogelwch lleol ar waith i fonitro'r defnydd o feddyginiaethau didrwydded ac all-drwydded.

Mae'n rhaid i glinigwyr sy'n rhagnodi ar gyfer camddefnyddio sylweddau mewn pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ychwanegol yn hyn o beth a'r rhagofalon perthnasol y mae angen eu cymryd.

- **Methadon** – nid yw hwn wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio gyda phlant. Yn gyffredinol, ystyrir bod "plant" yn y cyd-destun hwn yn golygu'r rhai 13 oed ac iau, er bod gweithgynhyrchwyr yn nodi diffyg tystiolaeth ar gyfer ei ddefnyddio ymhlith y glasoed hefyd.
- **Buprenorphine** – mae hwn wedi'i drwyddedu ar gyfer pobl 16 oed a hŷn i'w ddefnyddio ar gyfer dibyniaeth ar opioidau.
- **Buprenorphine y gellir ei chwistrellu** – mae hwn wedi'i drwyddedu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion 16 oed a hŷn i'w ddefnyddio ar gyfer dibyniaeth ar opioidau.
- **Naltrexone** – mae hwn wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio i atal atglafychu ar gyfer pobl dros 18 oed yn unig sy'n ddibynnol ar opioidau.
- **Lofexidine** – mae hwn wedi'i drwyddedu i'w ddefnyddio ar gyfer pobl 18 oed a hŷn yn unig i ddadwenwyno o opioidau.
- **Acamprosate** – mae hwn wedi'i drwyddedu ar gyfer pobl 18 oed a hŷn i atal atglafychu oherwydd defnydd o alcohol.
- **Therapiau cyfnewid nicotin** – mae'r rhain wedi'u trwyddedu ar gyfer pobl 18 oed a hŷn.

---

<sup>179</sup> Adran Addysg a Sgiliau, Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth – Meddyginiaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd. 2004

### 3.5.2.1 Tystiolaeth

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd triniaeth ymhlith pobl ifanc yn gyfyngedig o ganlyniad i brinder ymchwil yn y grŵp oedran hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn dod o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig a dim ond ychydig o hap-dreialon rheoledig mae'n eu cynnwys. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi datblygu cyfres o safonau ymarfer i reoli camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc.<sup>180</sup> Yn ogystal, mae sawl un o ddogfennau canllaw NICE yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheolaeth ffarmacolegol, er bod y rhain yn ymwneud yn bennaf â'r glasoed ac oedolion.<sup>181 182 183</sup> Fel y cyfryw, mae argymhellion ar gyfer rheolaeth ffarmacolegol ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc wedi'i seilio fel arfer ar allosod o waith ymchwil a wnaed gydag oedolion.

Ychydig iawn o bobl ifanc sy'n dod i gael triniaeth a fydd yn dangos arwyddion corfforol dibyniaeth, felly ni fydd angen i'r rhan fwyaf gael eu dadwenwyno gyda chymorth meddyginiaeth. Fodd bynnag, bydd angen rhagnodi meddyginiaeth, fel triniaeth cyfnewid opioidau, ar gyfer nifer fach a bydd angen iddynt gael mynediad prydlon a diogel at driniaeth o'r fath. Mae'r holl dystiolaeth ymchwil sy'n ymwneud â phobl ifanc yn pwysleisio dro ar ôl tro na all rheolaeth ffarmacolegol ar gamddefnyddio sylweddau ddigwydd ar wahân a bod rhaid iddi fod yn rhan o becyn cyfannol o ofal sy'n ceisio mynd i'r afael ag ystod o gydafiachedd ac anghenion seicogymdeithasol. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu bod angen gofal fel claf mewnol a/neu driniaeth breswyl arbenigol.

### 3.5.3 Dibyniaeth ar alcohol

Dylai'r broses o ddadwenwyno alcohol gael ei rheoli gan ddefnyddio un o'r bensodiasepinau hirweithredol, h.y. diazepam neu chlordiazepoxide. Bydd y dos a hyd y driniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y ddibyniaeth, felly dylai dulliau ar gyfer

---

<sup>180</sup> Gilvarry et al (goln), Practice standards for Young People with substance misuse problems, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. 2012

<sup>181</sup> NICE, Camddefnyddio cyffuriau mewn pobl dros 16 oed: ymyriadau seicogymdeithasol. Canllawiau clinigol 51 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007

<sup>182</sup> NICE Camddefnyddio cyffuriau mewn pobl dros 16 oed: dadwenwyno opioidau. Canllawiau clinigol 52 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007

<sup>183</sup> NICE, Naltrexone i reoli dibyniaeth ar opioidau. Canllawiau arfarnu technoleg 115 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007.

<sup>184</sup> NICE, Methadon a buprenorphine i reoli dibyniaeth ar opioidau. Canllawiau arfarnu technoleg 114 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007.

<sup>185</sup> NICE, Ymyriadau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifanc iau na 25 oed sy'n agored i niwed. Canllawiau iechyd cyhoeddus NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007.

<sup>186</sup> NICE, Anhwylderau defnyddio alcohol: atal yfed niweidiol. Canllaw iechyd cyhoeddus 24 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2010.

<sup>187</sup> NICE, Anhwylderau defnyddio alcohol: diagnosis, asesu a rheoli yfed niweidiol a dibyniaeth ar alcohol. Canllawiau clinigol 115 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2011

asesu hyn gael eu hymsefydlu yn y broses asesu. Yn ddelfrydol, dylai dadwenwyno alcohol ymhlith plant a phobl ifanc 10 i 17 oed gael ei reoli mewn lleoliad claf mewnol arbenigol.<sup>188</sup> Gallai meddyginiaeth atal atglafychu fel naltrexone ac acamprosate gael ei hystyried ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn os yw dulliau eraill o ymatal wedi bod yn aflwyddiannus.<sup>189</sup>

#### **3.5.4 Dibyniaeth ar fensodiasepin**

Yn nodweddiadol, mae camddefnyddio bensodiasepinau gan bobl ifanc yn tueddu i ddigwydd mewn patrwm o byliau yn wahanol i'r patrymau defnydd mwy rheolaidd a dibynnol a welir mewn oedolion. Pan fydd pobl ifanc yn dangos arwyddion dibyniaeth gorfforol, gallai trefn leihaol o diazepam gael ei rhagnodi. Argymhellir na ddylai'r dos dyddiol dechreuol fod yn uwch na 30mg mewn pobl ifanc a bod cyfnod diddyfnu penodol yn cael ei rhagnodi gyda threfniadau monitro agos. Nid oes tystiolaeth i gefnogi defnyddio presgripsiwn cynnal bensodiasepin.

#### **3.5.5 Dibyniaeth ar ysgogyddion**

Nid oes tystiolaeth i gefnogi defnyddio meddyginiaeth gyfnewid wrth reoli dibyniaeth ar ysgogyddion. Mae'n bosibl y bydd angen i gymhlethdodau corfforol gwenwyniad aciwt gael eu trin fel argyfyngau (e.e.: cymhlethdodau cardiofasgwlaidd). Bydd seicosis aciwt sy'n deillio o ddefnyddio ysgogyddion yn gwella o fewn ychydig ddyddiau o roi'r gorau iddynt a bydd angen ei reoli'n briodol, gan gynnwys trwy wasanaethau iechyd meddwl o bosibl. Gall hwyliau fod yn is ar ôl rhoi'r gorau i'w defnyddio; bydd angen gwneud diagnosis digonol o bresenoldeb iselder ac mae'n bosibl y bydd angen ei drin gyda gwrth-iselyddion.

#### **3.5.6 Dibyniaeth ar ganabis**

Gall cyfran fach o bobl sy'n defnyddio canabis yn rheolaidd gael problemau cwsig, cynnwrf a pherygl hunan-niwed ar ôl rhoi'r gorau iddo. Mae'n bosibl y bydd angen rhoi triniaeth gefnogol ar gyfer y rhain a dylid cadw llygad amdanynt yn y rhai y credir eu bod mewn perygl. Mae gwenwyniad canabis yn gysylltiedig â seicosis posibl a gall diddyfnu arwain at hwyliau is. Mae'n bwysig rheoli'r rhain yn briodol, yn yr un modd â dibyniaeth ar ysgogyddion.

---

<sup>188</sup> NICE, Anhwylderau defnyddio alcohol: diagnosis a rheoli cymhlethdodau corfforol. Canllaw clinigol 100 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2015

<sup>189</sup> NICE Anhwylderau defnyddio alcohol: diagnosis a rheoli cymhlethdodau corfforol. Canllaw clinigol 100 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2015

### 3.5.7 Dibyniaeth ar opioidau

Methadon a buprenorphine yw'r dulliau ffarmacolegol a argymhellir i fynd i'r afael â dibyniaeth ar opioidau, yn yr un modd ag ar gyfer oedolion. Gellir eu rhagnodi ar ffurf diddyfnu â chymorth dros ychydig fisoedd neu fel dull cynnal tymor hwy. Dylai'r holl feddyginiaeth cyfnewid opioidau ar gyfer pobl ifanc gael ei rhoi dan oruchwyliaeth a'i hadolygu'n rheolaidd. Oherwydd bod goddefiant pobl ifanc yn wahanol i oedolion, dylai fferyllwyr roi gwybod i'r rhagnodwr sy'n gyfrifol hyd yn oed os bydd person ifanc yn colli un diwrnod o'i feddyginiaeth cyfnewid opioidau. Dylai rhagnodi ar gyfer pobl ifanc bob amser gael ei wneud yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn y Llyfr Oren.<sup>190</sup>

O ganlyniad i'r gwahaniaethau metabolaidd rhwng pobl ifanc ac oedolion, mae'n bwysig ystyried goddefiant yn ystod y cyfnodau cychwynnol cynnar. Mae anwytho a thitrado meddyginiaeth yn dilyn proses debyg i oedolion, ond efallai y bydd angen dos cychwynnol is a dylid ystyried oedran a chorffoedd y person ifanc, yn ogystal â'i oddefiant a adroddwyd a thystiolaeth o wenwyno neu ddiddlyfnu parhaus yn dilyn meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gallai defnyddio dosau is o feddyginiaeth gyda phroses raddol sy'n rhy araf arwain at ddefnydd ychwanegol o heroin, gan felly gynyddu'r risgiau cychwynnol.

O ran pobl ifanc sy'n ddibynnol ar opioidau a ragnodir, nid oes llawer o dystiolaeth i arwain y broses reoli. Mewn ymarfer clinigol, gellir defnyddio buprenorphine a dosau sy'n lleihau o'r feddyginiaeth wreiddiol, a dylid penderfynu ar hyn ar sail achosion unigol yn ddelfrydol. O ran rhai pobl ifanc, bydd defnyddio cyfnod sefydlogi cychwynnol ar feddyginiaeth gyfnewid yn rhoi amser i asesu'r holl anghenion yn llawn a datblygu cynllun gofal cyfannol, cynhwysfawr. Bydd hyd y cyfnod sefydlogi hwn a'r cyfnod dadwenwyno dilynol yn dibynnu ar ffactorau fel y risg glinigol, difrifoldeb y ddibyniaeth, camddefnyddio sylweddau eraill, gweithrediad cymdeithasol, cydafiachedd iechyd meddwl, cyd-destun y teulu ac ymddygiad troseddol.

Gellir defnyddio lofexidine ar gyfer pobl ifanc pan na wyddys lefelau dibyniaeth a goddefiant ac mae angen dadwenwyno â chymorth.<sup>191</sup>

Gellir defnyddio naltrexone fel meddyginiaeth atal atglafychu ar ôl diddyfnu o opioidau ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn pan fyddant yn cael eu goruchwyllo'n dda, pan fydd y teulu'n ymgysylltu a phan fyddant yn cael cymorth seicogymdeithasol parhaus.<sup>192</sup>

---

<sup>190</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd

<sup>191</sup> NICE Camddefnyddio cyffuriau mewn pobl dros 16 oed: dadwenwyno opioidau. Canllawiau clinigol 52 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007

<sup>192</sup> NICE, Naltrexone i reoli dibyniaeth ar opioidau. Canllawiau arfarnu technoleg 115 NICE. Llundain. Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2007.

### 3.5.8 Ystyriaethau wrth roi cymorth a thriniaeth ffarmacolegol i blant a phobl ifanc

Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau rhagnodi i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau fod â chymwysterau a chymhwysedd priodol i weithio ym maes camddefnyddio sylweddau a bod yn gymwys i weithio gyda phobl ifanc. Dylai pob gweithiwr proffesiynol gael ei oruchwyllo gan uwch weithwyr proffesiynol cymwysedig a chymwys. Pan ddefnyddir meddyginiaeth i reoli camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc, dylai protocolau rhagnodi fod ar waith sy'n dilyn canllawiau arfer gorau a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddefnyddio meddyginiaeth "all-drwydded" a "didrwydded".

Dylai pobl ifanc gael eu gofal a'u meddyginiaeth a gynlluniwyd yn brydlon ar ôl asesiad unigol a chyfannol ac fel rhan o gynllun triniaeth cynhwysfawr. Dylid cadw cofnodion trylwyr a ysgrifennwyd yn glir o'r holl ryngweithiadau â'r person ifanc. Gan fod pobl ifanc y mae angen rhagnodi ar eu cyfer yn dangos anghenion cymhleth yn gyffredinol, dylid cynnig cymorth hyd nes y datrysir yr angen am ymyrraeth ac ni ddylai pobl ifanc fod yn destun ymyriadau â chyfyngiad amser. Dylai staff ddefnyddio dull allgymorth pendant o drin pobl ifanc, gan wneud ymdrech i ailymgysylltu â phobl ifanc sy'n dechrau colli apwyntiadau, gan gynnwys defnyddio negeseuon testun atgoffa, ymweld â nhw gartref, ac ati.

Dylid ceisio cydsyniad gwybodus i driniaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i agweddau ar gyfrinachedd. Wrth gael cydsyniad gwybodus, dylai rhagnodwyr roi gwybodaeth ysgrifenedig i bobl ifanc a'u gofalmwyr mewn fformat perthnasol am y feddyginiaeth, ei heffeithiau a'i hamseriad, sgil-effeithiau posibl a chynghor perthnasol ar ddiogelwch. Dylid rhoi gwybodaeth yn ymwneud â thrwyddedu'r feddyginiaeth yn rhan o hyn hefyd.

**Alcohol** – Cynigir proses dadwenwyno alcohol i bobl ifanc â thystiolaeth o symptomau diddyfnu alcohol gan ddefnyddio bensodiasepinau hirweithredol (mae NICE yn cefnogi dull sy'n cael ei sbarduno gan symptomau). Dylai unigolion iau nag 16 oed gael eu dadwenwyno yn yr ysbyty gan staff sydd â chymwysterau a chymhwysedd i gynnal y broses hon. O ran pobl ifanc â dibyniaeth gymedrol i ddifrifol ar alcohol, dylid ystyried naltrexone a/neu acamprosate fel meddyginiaeth atal atglafychu.

**Opioidau** – Ar gyfer pobl ifanc sy'n ddibynol ar opioidau, cynigir methadon neu buprenorphine ar gyfer dadwenwyno neu, lle y bo'n briodol, sefydlogi tymor hwy. Mae'n rhaid i'r dosau a'r trefniadau a ragnodir ystyried maint ac oedran y person ifanc. Mae'n rhaid i bobl ifanc sy'n cael triniaeth sefydlogi gael eu hadolygu'n aml.

Os oes angen meddyginiaeth atal atglafychu ar berson ifanc dros 16 oed, gallai naltrexone gael ei ystyried os oes goruchwyliaeth dda a chymorth gan

deulu/gofalwyr. Dylai'r rhagnodwr gysylltu'n aml â'r fferylllydd a dylai'r holl bobl ifanc y rhagnodir meddyginiaeth cyfnewid opioidau iddynt gael eu goruchwylio wrth ei chymryd.

Mae'n rhaid bod gan wasanaethau brotocolau ar waith yn ymwneud â'r ymateb clinigol i ddosau a gollwyd. Mae canllawiau'r Deyrnas Unedig<sup>193</sup> yn awgrymu dim mwy na thri diwrnod ar gyfer oedolion, ond, oherwydd goddefiant is pobl ifanc, cynghorir y dylai fferyllwyr roi gwybod i'r rhagnodwr ar ôl colli un dos hyd yn oed.

**Bensodiasepinau** – Ar gyfer y nifer fach o bobl ifanc â dibyniaeth gorfforol ar fensodiasepinau, gallai rhagnodwyr ystyried defnyddio diazepam am gyfnod tymor byr i gefnogi dadwenwyno. Mae'n rhaid i'r driniaeth gael ei hadolygu'n aml o ganlyniad i risgiau a dargyfeirio posibl.

### 3.6 Cynllunio ar gyfer pontio i wasanaethau i oedolion

Argymhellir bod yr holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn darparu gwasanaeth cynhwysol ac addasol i bawb hyd at 25 oed, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n datgan: "Yn hytrach na defnyddio dull sy'n seiliedig ar oedran yn unig, mae'n rhaid i'r system ymateb i anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc. Mae profiad plentyn o dyfu'n oedolyn yn broses yn hytrach na digwyddiad, a gallai rychwantu ystod oedran eang"<sup>194</sup>. Cydnabyddir bod llawer o wasanaethau eisoes yn gwneud hyn, ond nid pob un, gan fod y gwasanaeth a ddarperir yn dod i ben pan fyddant yn cyrraedd 16 neu 18 oed, sef pwynt statudol i rai gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau newydd, yn dilyn ymgynghoriad helaeth, i wella'r gofal y mae pobl ifanc 16 i 25 oed yn ei gael yn ystod y cyfnod hwn – mae'n ymdrin â'r adeg cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt symud o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion. Mae'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc a'u gofalwyr yn cael profiad gwell o bontio trwy wella'r ffordd y mae gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

Dylai pobl ifanc gael eu cynnwys yn llawn yn y ffordd y mae pontio a throsglwyddo gofal rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion yn cael ei gynllunio, ei weithredu a'i adolygu. Dylai'r broses o gynllunio ar gyfer pontio ddechrau pan fydd person ifanc yn 13 neu'n 14 oed. Mae'n bwysig bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddatblygiadol briodol sy'n canolbwyntio ar y claf, heb golli ansawdd y

---

<sup>193</sup> Canllawiau Clinigol ar Gamddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau; Diweddariad 2017; Gweithgor Arbenigol Annibynnol (2017). Camddefnyddio Cyffuriau a Dibyniaeth ar Gyffuriau: Canllawiau'r Deyrnas Unedig ar reolaeth glinigol. Llundain: Adran Iechyd

<sup>194</sup> Llywodraeth Cymru. 2022. Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion (drafft). [Rheoli'r broses o bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion | LLYW.CYMRU](#)

gwasanaethau a ddarperir o gwbl, gan sicrhau ymgysylltiad parhaus a phrofiad da i'r claf.

Bydd sicrhau'r model cymorth <25 hwn ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru yn hwyluso cymorth syml sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gydnabod nad yw oedran ffisegol o reidrwydd yn rhoi mesur defnyddiol o'r angen am gymorth ar gyfer defnyddio sylweddau, iechyd a lles seicolegol, trawma, anghenion gofal cymdeithasol ac yn y blaen. Bydd darparu model pontio addasol, wedi'i deilwra ar draws y gwasanaethau a ddarperir, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu'n gynnar, adnabod anghenion dros amser a chymorth cyson, yn hyrwyddo pwyslais cryfach ar atal dwysáu i ddefnydd mwy hirsefydlog o sylweddau, niwed cysylltiedig a chanlyniadau tymor hwy, gan gynnwys niwed sy'n pontio'r cenedlaethau.

### 3.6.1 Cefndir

Mae'r newid rhwng gwasanaethau i bobl ifanc a gwasanaethau i oedolion yn 18 oed yn cyd-fynd â newid niwrolegol, seicolegol, ffisiolegol a chymdeithasol arwyddocaol yn y person ifanc. Nid yw'r ymennydd, a'r cortecs cyndalcennol yn benodol, yn aeddfedu tan tua 25 oed. Mae'r cortecs cyndalcennol yn ymwneud â meddwl haniaethol, dadansoddi gwybyddol, gwneud penderfyniadau a chymedroli ymddygiad mewn sefyllfaoedd cymdeithasol,<sup>195</sup> gan felly ddylanwadu ar ymddygiad mentrus person ifanc a'i aeddfedrwydd ymddygiadol.

Mae newidiadau datblygiadol sy'n digwydd ar adeg o drawsnewidiadau sefyllfaol a chymdeithasol arwyddocaol yn golygu bod y garfan hon yn fwy agored i ddatblygu anhwylderau iechyd meddwl sy'n cydfodoli.<sup>196</sup> Mae tystiolaeth yn dangos bod 75 y cant o'r holl anhwylderau iechyd meddwl ymhlith oedolion yn dechrau cyn 24 oed<sup>197</sup> a bod seicosis yn aml yn dechrau am y tro cyntaf yn hwyr yn y glasoed ac yn gynnar yn ystod oedolaeth.<sup>198</sup> Mae cyflyrau iechyd meddwl treiddiol yn cael effaith niweidiol sylweddol ar hynt bywyd oedolyn ifanc. Mae angen i wasanaethau ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n gyffredin mewn camddefnyddio sylweddau.<sup>199</sup>

---

<sup>195</sup> Arain, M., Haque, M., Johal, L., Mathur, P., Nel, W., Rais, A., Sandhu, R., a Sharma, S. (2013). Maturation of the adolescent brain. *Neuropsychiatric disease and treatment*, 9, 449–461. <https://doi.org/10.2147/NDT.S39776>

<sup>196</sup> Jones PB. (2013) Adult mental health disorders and their age at onset. *The British Journal of Psychiatry*, Cyfrol 202, Rhifyn s54: Youth mental health: appropriate service response to emerging evidence, Ionawr 2013, tud.(au) s5 - s10 DOI: <https://doi.org/10.1192/bjp.bp.112.119164>

<sup>197</sup> Kessler RC, Berglund P, Demler O, Jin R, Merikangas KR, Walters EE. (2005) Lifetime prevalence and age-of-onset distributions of DSM-IV disorders in the National Comorbidity Survey Replication. *Arch Gen Psychiatry*. 2005 Mehefin;62(6):593-602. doi: 10.1001/archpsyc.62.6.593.

<sup>198</sup> Sefydliad Iechyd y Byd, (2020). Adolescent Mental Health. [Ar-lein] Ar gael yn: [Adolescent mental health \(who.int\)](https://www.who.int/health-topics/adolescent-mental-health)

<sup>199</sup> Llywodraeth Cymru, 2019. Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022, Caerdydd: Llywyodraeth Cymru. Ar gael yn: [Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022 | LLYW.CYMRU](https://www.llywodraeth.cymru/publications/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022)

Nid yw'r broses o bontio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS) cystal ag y gallai fod i lawer o bobl ifanc. Mae llawer o bobl ifanc yn profi proses bontio anodd, gan fethu â chynnal neu hyd yn oed wneud y trosglwyddiad. Priodolwyd hyn i lawer o wahanol resymau, fel y gorbryder a'r ofn sy'n gysylltiedig â throsglwyddo a waethygir gan amseriad y trosglwyddo a'r gwahaniaethau sefydliadol, diwylliannol a strwythurol rhwng CAMHS ac AMHS.<sup>200, 201</sup>

Amlygwyd gwahaniaethau rhwng CAMHS ac AMHS sy'n effeithio ar y broses bontio. Er enghraifft, mae CAMHS yn rhoi mwy o bwyslais ar y rhwydwaith cymorth o amgylch y person ifanc yn y broses ofal, tra bod AMHS yn canolbwyntio ar yr unigolyn a disgwylir i'r person ifanc gymryd mwy o gyfrifoldeb am ei ofal ar adeg pan allai fod yn anodd iddo wneud hyn oherwydd gwahanol ffactorau sy'n achosi straen yn ei fywyd. Mae CAMHS yn canolbwyntio mwy ar symptomau a chynorthwyo pobl ifanc i ymdopi â phroblemau, yn wahanol i AMHS a arweinir gan ddiagnosis a defnyddio meddyginiaeth. Nodweddir AMHS gan drothwyon uwch a rheoli argyfwng ac achosion cymhleth mwy difrifol, ac er bod y trothwyon yn codi yn CAMHS, darperir gwaith cymunedol tymor hwy. Mae CAMHS yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol bach, tra bod AMHS yn cynnwys timau amlddisgyblaethol mawr sydd â mwy o arbenigwyr, mwy o gapasiti ac fe allai fod rhestrau aros hwy ar gyfer rhai arbenigeddau.<sup>200, 201</sup>

### 3.6.2 Y broses

Mae'r broses bontio yn arbennig o heriol ar gyfer oedolion ifanc sydd â llawer o ffactorau risg, fel tlodi a thrawma ac adfyd cronol megis methiant addysgol, anhwylderau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, digartrefedd, anghyngord teuluol, ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol ac anhwylderau niwroddatblygiadol. Mae'r unigolion hyn mewn perygl uwch o lawer o gamddefnyddio sylweddau a datblygu anhwylderau iechyd meddwl. O ganlyniad, mae angen i wasanaethau ddarparu ymateb datblygiadol sensitif, cyfannol, amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol integredig sy'n briodol yn ddiwylliannol ac sy'n canolbwyntio ar anghenion yr oedolion ifanc, y mae camddefnyddio sylweddau yn un ohonynt. I gefnogi hyn, mae angen dull comisiynu integredig hefyd rhwng gwasanaethau i bobl ifanc a gwasanaethau i oedolion er mwn sicrhau y dilynir yr egwyddor o adnoddau

---

<sup>200</sup> Llywodraeth Cymru. Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed. 2020. Ar gael yn:

[Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed | LLYW.CYMRU](#)

<sup>201</sup> Singh SP, Paul M, Ford T, Kramer T, Weaver T et al., 2010. Process, outcome and experience of transition from child to adult mental healthcare: multiperspective study. British Journal of psychiatry, 197(4):305-12, doi: 10.1192/bjp.bp.109.075135.

sy'n dilyn anghenion a'r safbwynt hynt bywyd a amlinellir yn nogfen Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-22 Llywodraeth Cymru 2020.<sup>202</sup>

Er mwyn addasu gwasanaethau i ymgorffori'r model darparu gofal <25 oed, bydd angen mwy o waith amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd yn ystod y cyfnod cyn i unigolyn bontio i wasanaethau i oedolion i atal bylchau yn y gwasanaeth, ansawdd triniaeth neu fethiant o ran parhad gofal.

- O ran unigolyn iau na 18 oed sy'n ymddangos ar gyfer cymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau, dylai'r gwasanaethau pobl ifanc gynnal yr asesiad a darparu gofal.
- O ran unigolyn 18 i 24 oed sy'n ymddangos am y tro cyntaf, dylai'r gwasanaethau pobl ifanc gynnal yr asesiad ac amlygu'r gofal y dylid ei ddarparu er mwyn cadarnhau'r amgylchiadau, y proffil risg ac angen, strwythurau cymorth presennol a ffactorau risg. Yn dilyn hyn, ac ar hyd cyfnod o sefydlogi a chynnydd, dylid ystyried blaenoriaethau'r unigolyn a, chan ymgynghori'n llawn â'r unigolyn a chael ei gydsyniad, dylid penderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer darparu gofal parhaus, boed hynny'n wasanaethau pobl ifanc neu bontio'n raddol i ddarpariaeth gan wasanaethau i oedolion. Mae tystiolaeth o lefelau uwch o ymddieithrio o fewn y garfan 18 i 24 oed ar ôl atgyfeirio i wasanaethau arbenigol i oedolion. Gallai'r broses bontio ei hun ddylanwadu ar hyn a dylid ei osgoi trwy ddefnyddio gweithwyr a thimau pontio penodol i reoli parhad gofal, gan ddefnyddio dull addasol ac ymatebol.
- Bydd unigolyn sy'n 23 neu 24 oed ac sydd angen triniaeth a gofal parhaus ar gyfer problemau camddefnyddio sylweddau, gyda risgiau neu anghenion cymhleth ychwanegol neu hebddynt, yn cael cynnig pontio i wasanaethau i oedolion a chymorth i wneud hynny trwy ddull amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol o weithio ar y cyd er mwyn sicrhau ei fod yn pontio'n ddi-dor pan fydd yn cyrraedd 25 oed, os nad cyn hynny. Yn aml, mae oedolion ifanc sy'n 'methu' ar adeg y bwlch pontio presennol yn dod i sylw gwasanaethau ar adeg argyfwng a phan fydd problemau mwy parhaus wedi datblygu.<sup>203</sup> Felly, mae'n hollbwysig bod gwasanaethau amlasiantaethol yn ymateb i niwed ehangach cysylltiedig ar draws hynt bywyd o ganlyniad i ymddieithrio, ac yn atal y niwed hwnnw.

---

<sup>202</sup> Llywodraeth Cymru, 2020. *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: cynllun cyflawni 2019-2022 er mwyn ymateb i Covid 19*. [Ar-lein]

Ar gael yn: [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: cynllun cyflawni 2019-2022 er mwyn ymateb i Covid 19](#)

<sup>203</sup> Signorini, G. Singh SP, Marsanic VB, Dieleman G, Franic T, et al., 2018. The interface between child/adolescent and adult mental health services: results from a European 28- country survey. *European Child and Adolescent and Adolescent psychiatry*, 27(4): 501-511. Ar gael yn: [The interface between child/adolescent and adult mental health services: results from a European 28-country survey | SpringerLink](#)

- Mae'n bosibl y bydd angen i oedolion ifanc sy'n derbyn gwasanaethau i oedolion gael eu gwahanu'n briodol oddi wrth ddefnyddwyr cyffuriau a/neu alcohol hŷn neu fwy hirsefydlog er mwyn lliniaru risgiau, gan gynnwys camfanteisio.

Mae prosiectau ailddylunio llwyddiannus sy'n datblygu gwasanaethau pontio effeithiol o ansawdd uchel wedi ymgorffori egwyddorion trosfwaol, sef cynnwys pobl ifanc wrth ddylunio, datblygu a darparu'r gwasanaeth, gan sicrhau bod gwasanaethau amlddisgyblaethol a ddarperir yn bodloni anghenion corfforol ac emosiynol eang pobl ifanc mewn lleoliad hygyrch, nad yw'n creu stigma, sy'n gyfeillgar i bobl ifanc. Mae ymyriadau seicolegol a seicogymdeithasol yn canolbwyntio ar gryfderau ac mae gwaith yn cael ei integreiddio â'r trydydd sector ac asiantaethau eraill.

### 3.6.3 Ystyriaethau a chymhlethdod

Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc ac oedolion ifanc agored i niwed wedi profi cyfuniad o fethiant addysgol, problemau iechyd meddwl, anhwylderau niwroddatblygiadol, anabledau dysgu, tlodi, trawma, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, anawsterau teuluol a thai, ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Felly, mae ymatebion amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol integredig yn hollbwysig i sicrhau bod eu hanghenion eang yn cael eu bodloni, gan gynnwys anghenion diwylliannol. Mae materion tai yn aml yn allweddol i'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig, a gallant sbarduno pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ac wedi'u hynysu'n sylweddol i gael mynediad at wasanaethau. Yn aml, mae problemau iechyd meddwl yn dod i'r amlwg am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod pontio i oedolaeth, o ganlyniad i bwysau a heriau newydd. Fel y cyfryw, mae angen i brotocolau fod ar waith i reoli'n effeithiol y newid i wasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer oedolion sy'n cyd-fynd â gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae canllawiau NICE<sup>204</sup> yn amlygu pwysigrwydd pontio mewn grwpiau agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal a throseddwyd ifanc, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o waith ymchwil ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gefnogi'r broses bontio ymhlith y grwpiau hyn ac effeithiau a chanlyniadau proses bontio wael.

Mae prosesau pontio rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc ac oedolion yn wahanol ledled Cymru ar hyn o bryd, sy'n aml yn adlewyrchu trefniadau daearyddol a strategol lleol.

---

<sup>204</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2016. Pontio o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Ar gael yn: [Transition from children's to adults' services for young people using health or social care services](#)

### 3.6.4 Ystyriaethau yn ystod y broses cynllunio pontio rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau cysylltiedig

Dylai'r broses cynllunio pontio fod yn rhan o Gynllun Gofal Integredig y person ifanc, a dylai'r person ifanc a'r holl wasanaethau sy'n darparu triniaeth a chymorth iddo gytuno arni. Dylai asesiadau rheolaidd lywio'r Cynllun Gofal Integredig cynhwysfawr er mwyn asesu'r broses, y llwybr a'r amseriad gorau ar gyfer symud o wasanaethau i bobl ifanc i wasanaethau i oedolion hyd at 25 oed. Dylai'r rhieni neu'r gofalwyr gymryd rhan yn y broses bontio pan fo'n bosibl.

Os oes modd, dylid trefnu apwyntiadau'r person ifanc yn y gwasanaethau i oedolion ar adegau tawelach o'r dydd/wythnos a sicrhau bod Gweithwyr Pontio Allweddol<sup>205</sup> yn gallu dod gyda'r person ifanc os caiff ei weld gan y gwasanaethau i oedolion.

### 3.6.5 Pontio o ofal a chyd-destun defnyddio sylweddau

Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn boblogaeth agored i niwed sydd mewn perygl mawr o gamddefnyddio sylweddau a niwed cysylltiedig. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn fwy tebygol o ddefnyddio sylweddau na'r rhai nad ydynt yn gadael gofal.<sup>206</sup>

Pan fydd camddefnyddio alcohol a/neu gyffuriau wedi dod yn sefydledig yn ystod gofal, mae'r cyfnod o bontio i fyw'n annibynnol yn adeg o newid cymdeithasol, emosiynol a diwylliannol sylweddol sy'n gwaethygu'r perygl o ddwysáu camddefnyddio sylweddau.<sup>207</sup>

Mae strwythurau eisoes ar waith i ddarparu cymorth parhaus i bobl ifanc sy'n gadael gofal i'w helpu i bontio i fyw'n annibynnol hyd at 25 oed, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.<sup>208</sup> Dylai gwasanaethau camddefnyddio sylweddau weithio ar y cyd â gwasanaethau a, lle y bo'n briodol, sefydlu llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau arbenigol sy'n ymatebol i anghenion lluosog a chymhleth a amlygwyd.

---

<sup>205</sup> Llywodraeth Cymru. 2020. Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed. 2020. Ar gael yn:

[Adolygiad o'r dystiolaeth ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed | LLYW.CYMRU](#)

<sup>206</sup> Alderson H, Brown R, Copello A, Kaner E, Tober G, Lingham R, McGovern. (2019). The key therapeutic factors needed to deliver behavioural change interventions to decrease risky substance use (drug and alcohol) for looked after children and care leavers: a qualitative exploration with young people, carers and front line workers. *BMC Medical Research Methodology* 19,38. Ar gael yn: [The key therapeutic factors needed to deliver behavioural change interventions to decrease risky substance use \(drug and alcohol\) for looked after children and care leavers: a qualitative exploration with young people, carers and front line workers | BMC Medical Research Methodology | Full Text \(biomedcentral.com\)](#)

<sup>207</sup> Ward J, Henderson Z, Geoffrey, P. (2003) One problem among many: drug use among care leavers in transition to independent living. Llundain: Y Swyddfa Gartref. Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau. [One problem among many: drug use among care leavers in transition to independent living. - Drugs and Alcohol](#)

<sup>208</sup> Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Social Services and Well-being \(Wales\) Act 2014 \(legislation.gov.uk\)](#)

### 3.6.6 Prosesau cynllunio pontio o fewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r strwythur a'r prosesau presennol o fewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn mynnu bod pobl ifanc yn pontio i wasanaethau i oedolion / yr ystad carchardai diogel i oedolion pan fyddant yn 18 oed. Mae strwythurau o'r fath yn hwyluso goruchwyliaeth estynedig o bobl ifanc y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed yn unol â gofynion dedfrydu a thrwyddedu o dan adran 256AA Deddf Adsefydlu Troseddwyd 2014.<sup>209</sup> O fewn yr ystad carchardai pobl ifanc, gallai person ifanc 18 oed gael ei symud i garchar benodol neu uned benodol ar gyfer oedolion ifanc 18-21 oed.

#### 3.6.6.1 Pobl ifanc a atgyfeirir o dan 'Rybuddiad Ieuenctid' neu orchymyn ymyrraeth statudol uwch

Mae'r prosesau pontio rhwng Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi pan fydd person ifanc wedi cael ymyrraeth statudol uwch wedi'u hamlinellu yn rhan o'r Safonau Cenedlaethol<sup>210</sup> a'r Arweiniad ar Reoli Achosion a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<sup>211</sup> Yn rhan o'r safonau hyn, mae'n ofynnol i fyrdau rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid a sefydliadau diogel sefydlu dulliau sy'n rhoi'r sicrwydd canlynol iddynt:

- fod systemau a dulliau lleol yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r ffaith bod symudiadau / newidiadau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid yn gallu digwydd yn aml.
- bod systemau lleol ar waith sy'n dangos hyblygrwydd a'r gallu i ddarparu parhad o ran asesu, cynllunio a darparu ymyriadau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid sy'n symud / newid.
- bod cynllunio ac arweinyddiaeth ar bob lefel, ynghyd â llywodraethu cryf a chyfrifoldebau clir, yn ofynnol i leihau i'r eithaf, cyn belled ag sy'n rhesymol ac yn ymarferol, unrhyw bosibilrwydd o effaith negyddol y gallai unrhyw newid ei chael ar blentyn.
- bod dull cadarn o ddal gwasanaethau ac asiantaethau i gyfrif os bydd y cynllun pontio a/neu ailsefydlu ar gyfer plentyn yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n annigonol.

#### 3.6.6.2 Pobl ifanc a atgyfeirir ar gyfer Gwarediad Adferol Cymunedol neu waith 'Atal'

O ran pobl ifanc a atgyfeirir i'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn rhan o ymyriadau llai ffurfiol, fel Gwarediad Adferol Cymunedol neu atgyfeiriad 'Atal', nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn mynnu bod prosesau pontio ffurfiol yn cael eu cynnal. Fel y

---

<sup>209</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2014). Deddf Adsefydlu Troseddwyd 2014. [Offender Rehabilitation Act 2014 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/256/section/1)

<sup>210</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2014). Safonau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid

<sup>211</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2014). Arweiniad ar reoli achosion

cyfryw, dylai'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid sicrhau bod prosesau cynllunio pontio yn cael eu cynnal yn rhan o ddull amlasiantaethol yn unol â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a llwybrau lleol.

### **3.6.7 Egwyddorion allweddol ar gyfer pontio o wasanaethau pobl ifanc i wasanaethau oedolion <25 oed**

Mae NICE yn darparu canllawiau i sicrhau bod oedolion yn cael eu cynorthwyo'n briodol wrth bontio o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau i oedolion.<sup>212</sup> Dylai'r canllawiau hyn lywio'r gwasanaethau a ddarperir a'r gwerthusiad ohonynt. Mae'r egwyddorion arweiniol allweddol sy'n llywio'r gwasanaethau a ddarperir fel a ganlyn:

- Dylai pobl ifanc a'u gofalmwyr gael eu cynnwys wrth ddylunio, darparu, a gwerthuso gwasanaethau.
- Dylai'r gwasanaethau a ddarperir ar draws asiantaethau gael eu hintegreiddio a'u cydlynu i sicrhau proses bontio ddidrafferth a graddol.
- Dylai'r gofal a ddarperir fod yn briodol yn ddatblygiadol, wedi'i seilio ar gryfderau a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylid dyrannu gweithiwr a enwyd i arwain y broses o gydlynu'r gofal a ddarperir.
- Dylid sicrhau parhad cymorth cyn ac ar ôl pontio er mwyn hwyluso ymgysylltiad.
- Dylid annog gofalmwyr i gymryd rhan, pan fo'n briodol.
- Dylid darparu hyfforddiant i'r gweithlu er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gymwys ac yn hyderus i ddarparu gofal sy'n briodol yn ddatblygiadol.
- Dylai dadansoddiad o fylchau lywio'r broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n lleol. Mae dadansoddiad o fylchau yn llywio dealltwriaeth o anghenion oedolion ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal gan wasanaethau plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu derbyn gofal gan wasanaethau i oedolion.

### **3.6.8 Astudiaeth achos – Arfer da wrth gynllunio pontio**

Ym mis Ebrill 2017, comisiynwyd model gwasanaeth integredig yng Ngwent i geisio cynorthwyo pobl ifanc ag anghenion camddefnyddio sylweddau i bontio i wasanaethau i oedolion. Strwythurwyd y model ochr yn ochr â darparwyr

---

<sup>212</sup> Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. 2016. Pontio o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. Ar gael yn: [Transition from children's to adults' services for young people using health or social care services](#)

gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r trydydd sector, Bwrdd Iechyd, a CAMHS, ac roedd yn cynnig:

- Ymyriadau ar draws haenau 2 a 3.
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.
- Cymorth i deuluoedd.
- Atal a gweithgareddau.

Mae swyddogaethau craidd y tîm yn cynnwys amlygu, cynllunio, cydlynu a chynorthwyo pobl ifanc i bontio i'r ddarpariaeth i oedolion, gan ychwanegu at ddogfennau protocol gweithio ar y cyd a sefydlwyd yn flaenorol er mwyn sicrhau cyfathrebu clir a rhannu gwybodaeth er budd pobl ifanc rhwng gwasanaethau. Mae pob cam o'r protocol yn cydnabod bod gweithio ar y cyd, asesu risg cyfannol a chynllunio gofal amlasiantaethol yn arfer gorau ac yn ceisio hyrwyddo ymgysylltiad gwell â thriniaeth a chanlyniadau gwell.

Ar yr adeg pontio, dylai prosesau a threfniadau gael eu trafod â'r person ifanc yn rhan o gam cynllunio gofal. Dyma'r adeg pryd yr amlygir cymorth ychwanegol sy'n angenrheidiol. Os bydd person ifanc yn teimlo bod angen iddo barhau i gael cymorth ar yr adeg pontio, dylai'r canlynol ddigwydd i sicrhau proses bontio ddidrafferth:

- Trafod pontio i wasanaethau i oedolion ymhell cyn y dyddiad pontio
- Gyda'r person ifanc, archwilio gwasanaethau cymorth ychwanegol ar gyfer oedolion sydd ar gael i gefnogi ei anghenion, a'i gyfeirio atynt.
- Dechrau pontio i adeiladau / swyddfeydd y gwasanaethau i oedolion trwy gynnal apwyntiadau un i un yno. Bydd hyn yn galluogi'r unigolyn i ymgysylltu â'r amgylchedd a'r gweithwyr, gan leihau pryderon.
- Mynd ar daith o amgylch yr adeilad / swyddfeydd ar gyfer oedolion, gan esbonio sut mae gwasanaethau i oedolion yn wahanol i wasanaethau i blant.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n enwi 'Gweithiwr Pontio' yn y tîm pobl ifanc.
- Cyflwyno'r unigolyn i weithgareddau a gwaith grŵp a gynhelir yn y gwasanaethau i oedolion ar hyn o bryd pan fo'n briodol.
- Cyflwyno'r person ifanc i aelodau staff yn y gwasanaethau i oedolion. Yn ddelfrydol, dylid ei gyflwyno i'r aelod o staff a fyddai'n ymgymryd â'r achos.
- Cysylltu â gwasanaethau eraill i bobl ifanc sy'n cynorthwyo'r unigolyn er mwyn rhannu gwybodaeth am y broses bontio sy'n cael ei chynnal.
- Darparu eiriolaeth i'r person ifanc yn y gwasanaethau i oedolion a chynnal cyfarfodydd ar y cyd i hyrwyddo pontio gwasanaethau.
- Cwblhau adborth gyda'r unigolyn ar ddiwedd y cyfnod pontio, os amlygir anghenion gwell.
- Sicrhau bod gan y gwasanaethau i oedolion Hyrwyddwr Pobl Ifanc i gynorthwyo pobl ifanc iau na 25 oed.

### 3.7 Gadael gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau triniaeth cysylltiedig gyda chynllun a heb gynllun

#### 3.7.1 Cefndir

Dylai cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer ymadael roi hyder i bobl ifanc yn eu gwydnwch personol eu hunain, a'r gallu i adnabod pan fydd angen cymorth arnynt eto yn y dyfodol, o bosibl. Er mwyn datblygu i'r cam lle y cytunir ar ymadael wedi'i gynllunio ar y cyd, mae ymgysylltiad â gwasanaethau ac aros ynddynt yn hanfodol. Dylai'r Offeryn Monitro Canlyniadau Plant a Phobl Ifanc ynghyd â'r Cynllun Gofal Integredig, lywio'r penderfyniadau a wneir ynglŷn ag amseru ymadael â gwasanaethau heb gynllun, gan gynnwys cwblhau yn y cyfarfod ymadael.

Mae nifer o ddulliau a allai gynyddu ymgysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chyfraddau aros ynddynt, ac felly lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael y gwasanaethau hyn heb gynllun, gan gynnwys:

- Arferion gwaith allweddol cryf a chyson, gan gynnwys cynnig cymorth ymarferol, eiriolaeth a sesiynau cyswllt lled-ffurfiol sy'n canolbwyntio ar ddileu materion a allai rwystro ymgysylltu'n effeithiol â thriniaeth e.e. tai ansefydlog, problemau â pherthnasoedd, dyled, trafnidiaeth.<sup>213</sup>
- Trefnu cyfarfodydd a sesiynau mewn mannau nad yw'n anodd i'r person ifanc eu cyrraedd, fel ei gartref ei hun neu adnoddau cymunedol lleol.<sup>185</sup>
- Dangoswyd bod cyswllt lled-ffurfiol ac anffurfiol ag ymarferwyr, gan eu gweld fel 'pobl go iawn', yn arbennig o effeithiol wrth weithio gyda grwpiau anodd ymgysylltu â nhw, gan gynnwys y rhai hynny o gymunedau ethnig lleiafrifol, menywod ifanc a'r rhai hynny â phroblemau iechyd meddwl.<sup>185, 214</sup>

Yn yr un modd ag oedolion, mae pwysigrwydd ymgysylltu â gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau ac aros ynddynt yn amlwg i bobl ifanc, ac mae tystiolaeth bod gadael gwasanaethau heb gynllun yn cael effaith negyddol ar lefelau defnyddio sylweddau, iechyd corfforol a seicolegol, teulu a pherthnasoedd, tai ac amgylchiadau cymdeithasol, a throseddau a gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Yn ôl data hunan-adrodd o Gymru,<sup>215</sup> ar ôl gadael gwasanaethau heb gynllun:

- Adroddodd 61% eu bod yn defnyddio mwy o gyffuriau.
- Adroddodd 25% eu bod yn yfed mwy o alcohol.
- Adroddodd 26% eu bod wedi colli eu cartref.

---

<sup>213</sup> Noel, P.E. (2006). The impact of therapeutic case management on participation in adolescent substance abuse treatment. *American Journal of Drug and Alcohol Abuse*, 32 (3), 311-327.

<sup>214</sup> Duroy, T.H., Schmidt, S.L. a Perry, P.D. (2003). Adolescents' and young adults' perspectives on a continuum of care in a three year drug treatment program. *Journal of Drug Issues*, 34 (4), 801-832.

<sup>215</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2010) Ffactorau dylanwadol a goblygiadau gadael gwasanaethau camddefnyddio sylweddau heb gynllun yng Nghymru – Canllawiau ar gyfer lleihau ymadael â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau heb gynllun a hyrwyddo ailymgysylltu â nhw. Ar gael yn: [Microsoft Word - Influences and implications of unplanned drop out \(wales.nhs.uk\)](https://www.wales.nhs.uk)

- Adroddodd 34% eu bod yn ymwneud â mwy o weithgarwch troseddol ac adroddodd 9% arall eu bod wedi cael eu carcharu ar ôl gadael gwasanaethau heb gynllun.
- Adroddodd tua 50% fod iselder a symptomau seicolegol negyddol eraill wedi dechrau.
- Perygl uwch o orddos a marwolaeth cysylltiedig â chyffuriau.
- Llai tebygol o ddychwelyd i'r gwasanaeth neu argymhell y gwasanaeth i'w cyfoedion.

Dywedodd darparwyr gwasanaethau hefyd fod gadael heb gynllun yn arwain at ganlyniadau negyddol o ran ysgogiad ac ysbryd staff ac effaith bosibl negeseuon negyddol sy'n awgrymu bod defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu 'methu' gan y gwasanaethau.

### 3.7.2 Gadael Heb Gynllun:

Gadael heb gynllun yw pan fydd triniaeth yn cael ei thynnu'n ôl gan y darparwr.<sup>216</sup> Mae hyn yn cynnwys cleientiaid:

- Nad oeddent wedi mynychu neu ymateb i gyswllt dilynol.
- Sydd wedi symud o'r ardal (os symudodd y cleient o ardal ddaearyddol ond cafodd ei atgyfeirio i wasanaeth arall hefyd, dylai'r olaf gael ei gofnodi.).
- Sydd wedi'u cadw yn y ddalfa / yn y carchar.
- Sydd wedi marw.
- Sydd wedi gwrthod triniaeth.

Mae ymadawiadau â gwasanaethau heb gynllun yn digwydd gan amlaf ar ôl i berson ifanc ymddieithrio o wasanaeth neu lle nad yw wedi mynychu apwyntiadau dilynol a drefnwyd neu ymateb i gyswllt dilynol i ailymgysylltu. Mae Llywodraeth Cymru wedi diffinio digwyddiadau o'r fath yn flaenorol fel a ganlyn 'Mae'r darparwr triniaeth wedi colli cysylltiad â'r cleient am 8 wythnos neu fwy heb gynllun rhyddhau ac nid yw ceisiadau i ailymgysylltu'r cleient wedi bod yn llwyddiannus.'<sup>217</sup>

Ni ddylid tybio bod unrhyw achosion o ymddieithrio yn golygu nad oes angen cymorth ar y person ifanc mwyach. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw bryderon diogelu a allai ddeillio o'r ffaith bod y person ifanc yn ymddieithrio o gymorth. Mae'n bwysig sicrhau datrysiad cynhwysfawr ar ôl ymddieithrio er mwyn osgoi cau achos cyn pryd ac atal y person ifanc rhag cael ei ailgyflwyno i'r system yn ddiweddarach gyda phroblemau mwy hirsefydlog a chymhleth.

<sup>216</sup> Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau. Dyddiad Gweithredu: 1 Ebrill 2020. Diffiniad Busnes fersiwn 2.4. Ar gael yn: [Dogfennaeth Camddefnyddio Sylweddau - Iechyd a Gofal Digidol Cymru \(gig.cymru\)](https://gig.cymru/dogfennaeth-camddefnyddio-sylweddau-lechyd-a-gofal-digidol-cymru)

<sup>217</sup> Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. 2019. Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Fersiwn 1.5. Ar gael yn: [Dogfennaeth Camddefnyddio Sylweddau - Iechyd a Gofal Digidol Cymru \(gig.cymru\)](https://gig.cymru/dogfennaeth-camddefnyddio-sylweddau-lechyd-a-gofal-digidol-cymru)

Mae arfer gorau'n dangos y dylai'r gweithiwr allweddol, neu'r tîm ailymgysylltu, geisio cymryd camau rhesymol i ailymgysylltu a chadarnhau'r rhesymau dros ymddieithrio cyn y gellir cau achos fel ymadawiad heb gynllun. Ar hyn o bryd, pennir camau rhesymol o'r fath ar lefel gwasanaethau ac maen nhw'n amrywio ledled Cymru. Gallent gynnwys y canlynol yn nodweddiadol:

- Dau apwyntiad Heb Fynychu yn olynol heb ymateb i geisiadau'r gweithiwr allweddol i gysylltu rhwng yr apwyntiadau.
- Ceisiadau dilynol i gysylltu trwy ddull priodol (h.y. galwad ffôn / neges e-bost / neges destun / llythyr / cerdyn post / neges trwy drydydd parti pan fydd cydsyniad yn caniatáu hynny) a ddefnyddiwyd ar ôl yr apwyntiad diwethaf na fynychwyd, i roi gwybod i'r person ifanc fod yr achos yn cael ei gau a chyfleu gwybodaeth 'Gwahoddiad i Gysylltu'.

Pan fydd person ifanc yn ailymgysylltu â gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, fe ddylai gael ei weld cyn gynted â phosibl, heb gosb, a dylid asesu'r rhesymau dros ymddieithrio er mwyn atal hynny rhag digwydd eto.

Yn ystod y broses o asesu a ffurfio Cynllun Gofal Integredig yn barhaus, dylai trafodaeth â'r person ifanc gynnwys camau gweithredu a lliniaru ynglŷn â'r potensial ar gyfer ymddieithrio, gan fanylu ar ymatebion i'r cwestiynau canlynol, a chynnwys opsiynau a chamau gweithredu amgen:

- "Sut byddwn ni'n gwybod pan fydd ein gwaith gyda'n gilydd wedi'i gwblhau?"
- "Os oedd eich ysgogiad yn lleihau neu'ch amgylchiadau'n newid, beth allwn i / beth allem ni ei wneud i'ch helpu i aros mewn cysylltiad ac ymgysylltu / eich cadw ar y trywydd i gyflawni'ch nodau?"
- "Beth allai achosi i chi adael y gwasanaeth?"
- "Petaech chi'n gadael y gwasanaeth, sut byddech chi eisïau i fi ymateb?"
- "Pa fesurau allwn ni eu rhoi ar waith i leihau'r perygl o adael heb gynllun a hyrwyddo ymgysylltiad parhaus?"

Pan nodir bod person ifanc wedi gadael heb gynllun o fewn cyfnod o wyth wythnos ers y cysylltiad diwethaf ac mae'r person ifanc yn ailsefydlu cysylltiad ar gyfer cymorth parhaus (yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti), dylai'r cynllun triniaeth presennol gael ei ailagor. Mae'n rhaid i nodiadau achos gynnwys manylion unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â'r camau gweithredu ychwanegol sy'n ofynnol i gynnal ymgysylltiad, gan gynnwys diwygiadau i'r Cynllun Gofal Integredig.

Os bydd person ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa neu'r carchar, ac nid yw'r un o'r gwasanaethau amlddisgyblaethol, amlasiantaethol a ddarperir i'r unigolyn ar hyn o bryd yn cynnwys cymorth yn yr amgylchedd troseddau ieuenctid/carchar, dylid cysylltu â'r staff cymorth perthnasol yn y sefydliad a rhannu'r asesiad cynhwysfawr presennol a'r Cynllun Gofal Integredig â'r gweithiwr allweddol newydd er mwyn

sicrhau parhad gofal i'r person ifanc. Yn yr un modd, pan fydd y person ifanc yn cael ei ryddhau i'r gymuned, dylai trefniadau pontio cyn rhyddhau ac ailymgysylltu â gwasanaethau cymunedol gynnwys diweddaru'r asesiad a'r Cynllun Gofal Integredig i ailgychwyn cymorth yn y gymuned.

### 3.7.3 Gadael gyda Chynllun

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru<sup>218</sup> ar gyfer dewis y canlyniad 'Triniaeth wedi'i Chwblhau' yn datgan, 'Mae'r cleient wedi cyrraedd ei nod(au) triniaeth fel y cytunwyd ar ddechrau'r driniaeth'. Er mwyn deall ac asesu cwblhau triniaeth yn gywir, mae'n hollbwysig bod trafodaethau clir yn cael eu cynnal a nodau pendant yn cael eu gosod gyda'r holl asiantaethau cefnogol o'r cysylltiad priodol cynharaf a thrwy gydol y cymorth a'r driniaeth.

Dylai'r broses cynllunio ymadael fod yn rhan o Gynllun Gofal Integredig y person ifanc, a dylai'r person ifanc a'r holl wasanaethau sy'n darparu triniaeth a chymorth gytuno arni. Dylai gwasanaethau eraill a fanylir yn y Cynllun Gofal Integredig ac sy'n cynorthwyo'r person ifanc gael gwybod, gyda chydsyniad y person ifanc, bod cymorth yn dod i ben cyn yr apwyntiad wyneb yn wyneb ffurfiol olaf.

Dylai gwasanaethau ddarparu cyfleoedd ar gyfer cymorth cam-i-lawr, a chyfnodau 'Cadw mewn Cysylltiad' i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei dynnu'n ôl yn raddol a bod porth i ailymgysylltu â'r gwasanaeth ar gael pan fydd angen. Dylai gwaith cynllunio ar gyfer atal atglafychu a gwaith gwydnwch gael ei gwblhau cyn i'r cyfnod 'Cadw mewn Cysylltiad' ddechrau. Gallai hyn gynnwys cyfnodau cam-i-lawr ar ffurf apwyntiadau ffôn wedi'u trefnu ar ôl y cyfarfod wyneb yn wyneb olaf, gan ddarparu technegau atal atglafychu a chyfweld ysgogiadol.

Dylai gwasanaethau sicrhau bod pob person ifanc sy'n gadael gwasanaeth yn cael pecyn cymorth sy'n gysylltiedig â'i Gynllun Gofal Integredig cyn gadael – dylai hwn gynnwys manylion pwy i gysylltu ag ef os bydd ei sefyllfa'n newid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a theulu / cyfoedion (e.e. pobl ddiogel / cynllun diogelwch yn debyg i'r rhai a gwblheir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol). Dylai'r pecyn hwn gael ei ddatblygu ar y cyd â'r person ifanc.

Yn ystod y cyfarfod ymadael neu driniaeth olaf, dylid cwblhau Proffil Canlyniadau Triniaeth Plant a Phobl Ifanc wrth Ymadael, a dylai adolygiad o'r Cynllun Gofal Integredig gael ei drefnu yn ystod yr apwyntiad wyneb yn wyneb ffurfiol olaf, a/neu ar ddiwedd y cyfnod 'Cadw mewn Cysylltiad'. Yn ogystal, dylid annog y person ifanc i gwblhau ffurflen adborth ar y gwasanaeth wrth adael.

---

<sup>218</sup> Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. 2019. Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Fersiwn 1.5. Ar gael yn: [Dogfennaeth Camddefnyddio Sylweddau - Iechyd a Gofal Digidol Cymru \(gig.cymru\)](https://gig.cymru/Docfennaeth-Camddefnyddio-Sylweddau-lechyd-a-Gofal-Digidol-Cymru)

Dylid cynnig dewis i bobl ifanc sy'n gadael gwasanaethau gael eu hatgyfeirio i weithiwr / gwasanaethau gweithgareddau dargyfeiriol yn ystod y cyfnod 'Cadw mewn Cysylltiad'. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ddarparu gweithgareddau dargyfeiriol a chymorth parhaus pan fydd angen.

### **3.7.4 Gadael gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid**

Amlinellir prosesau cynllunio ymadael â Gwasanaethu Troseddau Ieuenctid yn y Safonau Cenedlaethol<sup>219</sup> a'r Arweiniad ar Reoli Achosion a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<sup>220</sup>

### **3.7.5 Rhannu gwybodaeth**

Mae rheoli ymadawiadau â gofal gyda chynllun a heb gynllun wedi'i seilio ar rannu gwybodaeth bersonol yn briodol gan gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn fframwaith unigol o egwyddorion a safonau cytunedig sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau wrth rannu gwybodaeth bersonol yng Nghymru. Mae WASPI yn offeryn a gefnogir gan Lywodraeth Cymru sy'n hwyluso cysondeb ac arfer da, sy'n hollbwysig wrth i wasanaethau symud fwyfwy tuag at fodelau mwy integredig a chydweithredol.

### **3.7.6 Mesurau canlyniadau**

Mae'r canllawiau cynllunio strategol, statudol ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a Chynlluniau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan fynnu bod partneriaid yn nodi newid a gwell effeithiolrwydd gan ddefnyddio dulliau fel Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau<sup>221</sup> neu Atebolrwydd yn Ôl Canlyniadau. Dylai cynlluniau gwasanaeth manwl ategu pwyslais ar ganlyniadau.

#### **3.7.6.1 Monitro canlyniadau Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc**

Dylai gwasanaethau gofnodi ac adrodd yn erbyn y canlyniadau canlynol yn ogystal ag adrodd i Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau:

- Cyflogaeth.
- Addysg.
- Hyfforddiant.
- Lleihau/atal ymddygiad camddefnyddio sylweddau.
- Lleihau ymddygiad troseddol.

---

<sup>219</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr (2014). Safonau ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid

<sup>220</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr (2014). Arweiniad ar reoli achosion

<sup>221</sup> Mae rhagor o wybodaeth am Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ar gael yn [Results Accountability | Results-Based Accountability and Outcomes-Based Accountability resources provided by the Fiscal Policy Studies Institute \(FPSI\)](#) a [RBA Implementation Guide \(raguide.org\)](#)

- Ailsefydlu cysylltiadau â'r teulu.
- Datrys materion yn ymwneud â llety.

Dylai canlyniadau gael eu monitro a'u hadrodd gan y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, dylent gael eu rhannu â'r holl bartneriaid allweddol a dylai'r wybodaeth gael ei defnyddio i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

## 4 Hyfforddi a datblygu'r gweithlu

### 4.1 Cefndir

Mae dull strategol o ddatblygu gweithlu'r sector yn hanfodol er mwyn darparu cymorth gwell i weithredu a darparu gwasanaethau triniaeth a chymorth amlddisgyblaethol, amlasiantaethol effeithiol ac addasol i blant a phobl ifanc <25 oed. Cydnabyddir bod angen gweithwyr pobl ifanc tra medrus a gwybodus ar draws lleoliadau gwarchodaeth a chymunedol er mwyn cynorthwyo darparwyr i gyflwyno gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau triniaeth cysylltiedig yn effeithiol. Bydd hyn yn hanfodol i weithredu'r argymhellion allweddol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gwasanaethau.

Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn defnyddio Safonau Craidd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau i adolygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae Safonau 23-25 yn cynnwys safonau craidd sy'n cysylltu â gwaith recriwtio, hyfforddi a datblygu priodol ar gyfer y gweithlu sy'n gweithio ym maes camddefnyddio sylweddau, sef yn benodol:

- Bod gan sefydliadau systemau rheoli adnoddau dynol ar waith sy'n:
  - i. Cefnogi staff ac yn gwerthfawrogi cyfraniad unigolion; ac yn,
  - ii. Trin staff gydag urddas a pharch, ac yn gwerthfawrogi, deall a pharchu amrywiaeth.
- Bod staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud yn unol â chanllawiau cenedlaethol sy'n bodoli.
- Bod yr holl ymyriadau'n cael eu darparu gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar gymwysterau priodol sy'n cael eu goruchwyllo pan fo'n briodol.

Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn defnyddio'r Safonau Craidd Camddefnyddio Sylweddau hyn i fesur ac asesu diogelwch ac ansawdd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

Mae bod â'r bobl iawn i ffurfio tîm cymwys yn rhan o broses barhaus sy'n dechrau cyn recriwtio a dethol, ac sy'n parhau ar hyd cyflogaeth ac ymlaen tan i'r unigolyn hwnnw adael y gwasanaeth. Mae strwythur adnoddau dynol a rheoli perfformiad

cadarn yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth a ddylai gynnwys arweinydd datblygu'r gweithlu.

Yn y byd sydd ohoni, mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc ag anghenion sy'n cyddigwydd sy'n fwy amrywiol a chymhleth. Mae'n hollbwysig bod y gweithlu'n dod yn fwy medrus a gwybodus fel bod ymarferwyr yn gallu ymgysylltu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ddiwylliannol ystyriol wrth gwblhau asesiadau manwl a Chynlluniau Gofal Integredig ac wrth ddarparu ymyriadau a dulliau ataliol effeithiol.

Mae Straen Trawmatig Cymru, sef menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn rheoli a chyflwyno rhaglen wella sy'n cynnig adnoddau wedi'u seilio ar dystiolaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymdrin ag unigolion sydd wedi profi trawma. Mae ffrydiau gwaith arbenigol ar gael ar gyfer grwpiau allweddol – gan gynnwys poblogaethau troseddol; ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl eraill sy'n ceisio noddfa; goroeswyr ymosodiad rhywiol; a thrais seiliedig ar rywedd. Yn rhan o fenter Straen Trawmatig Cymru, mae pecyn hyfforddiant sefydlogi emosiynol ar gael ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector – ac mae tîm Straen Trawmatig Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen hyfforddi gyflenwol.

## **4.2 Datblygu'r gweithlu a hyfforddiant ar draws pob sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc**

Mae'r gweithlu yn y sector pobl ifanc yn amlddisgyblaethol, felly mae angen ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod gofynion dysgu a datblygu amrywiol y gweithlu yn cael eu monitro'n weithredol ac yn gallu esblygu i fodloni anghenion a thueddiadau sy'n newid a chyflawni o fewn safonau arfer gorau.

Dylai'r holl wasanaethau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc, o fewn gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau troseddau ieuenctid, gydnabod ac ymateb i ddefnydd o sylweddau drwy gydol yr holl waith cynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio, sefydlu, arfer myfyriol, hyfforddiant, cynllunio ar gyfer ymadael a chymorth lles ar gyfer staff.

Cydnabyddir pwysigrwydd gweithwyr nad ydynt yn arbenigol sy'n gweithio ochr yn ochr â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig gan eu bod mewn sefyllfa dda i hwyluso ymyriadau trothwy isel. Fodd bynnag, mae gallu gwasanaethau gwybodaeth a chynghor i gynorthwyo pobl â phroblem camddefnyddio sylweddau yn dibynnu'n rhannol ar argaeledd gwasanaethau arbenigol ac anarbenigol eraill.

Ar hyn o bryd, nid oes un strategaeth datblygu'r gweithlu genedlaethol a chydlynol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio sylweddau, ond mae pob Bwrdd Cynllunio Ardal yn gyfrifol am ddarparu canlyniadau clir ar lefel leol. Fel y

cyfryw, dylai rhanbarth pob Bwrdd Cynllunio Ardal sicrhau bod hyfforddiant trothwy isel ac ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau achrededig, gan gynnwys sgiliau ymyrryd, yn cael ei ddarparu i helpu i atal a lleihau defnydd niweidiol a phroblemus o sylweddau. O ganlyniad i'r ystod o wasanaethau addysgol, chwaraeon a hamdden, cymorth a lles sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, dylai'r holl staff y tu allan i wasanaethau camddefnyddio sylweddau a chyfiawnder ieuencid arbenigol feddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ynglŷn â'r defnydd cymhleth o gyffuriau ac alcohol a niwed cysylltiedig.

### **4.3 Fframwaith datblygu'r gweithlu mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid**

Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Strategaeth Datblygu'r Gweithlu gynhwysfawr<sup>222</sup> sy'n cynnwys swyddogaethau cymorth uchelgeisiol, megis Cyngor Datblygu'r Gweithlu, Fframwaith Dysgu a Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid a Matrics Dysgu a Sgiliau. Mae Hwb Adnoddau ar gael sy'n cynorthwyo ymarferwyr i ffurfio "Canolfan Ragoriaeth". Gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli, mae rhai cyfyngiadau i'r dogfennau hyn a chyfeiriadau at Loegr.<sup>223</sup>

Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 'Uwch Gyngorwyr Ymarfer Effeithiol Goruchwyliaeth a Chymorth' yng Nghymru.<sup>224</sup> Mae gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- Cynnal eu gwybodaeth am y mentrau diweddaraf sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu (gan gyfeirio at yr Arweinydd Gweithlu Cenedlaethol).
- Cynorthwyo gwasanaethau cyfiawnder ieuencid i gael mynediad at gyfleoedd dysgu priodol.
- Sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn cael ei ystyried mewn gweithgareddau adolygu gan gymheiriaid, rheoli perfformiad a gwella gwasanaethau.
- Cyngori gwasanaethau ynglŷn â chymwysterau proffesiynol perthnasol sydd ar gael, gan gynnwys y Dystysgrif Ymarfer Effeithiol.
- Amlygu a choladu anghenion hyfforddi a materion eraill i'r Arweinydd Datblygu'r Gweithlu Cenedlaethol ym Mwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru ac yn genedlaethol.
- Amlygu a hwyluso'r broses o gyflwyno enghreifftiau o arfer da/effeithiol i dîm Ymchwil Gymdeithasol ac Ymarfer Effeithiol canolog y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

---

<sup>222</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Hwb datblygu'r gweithlu. Ar gael yn: [Workforce development - Youth Justice Resource Hub \(yjresourcehub.uk\)](https://www.yjresourcehub.uk/)

<sup>223</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2019) [Y Matrics Sgiliau Cyfiawnder Ieuencid Workforce Development Strategy, 2021-2023 - Youth Justice Board \(January 2021\) - Youth Justice Resource Hub \(yjresourcehub.uk\)](https://www.yjresourcehub.uk/)

<sup>224</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2019) [Y Matrics Sgiliau Cyfiawnder Ieuencid Workforce Development Strategy, 2021-2023 - Youth Justice Board \(January 2021\) - Youth Justice Resource Hub \(yjresourcehub.uk\)](https://www.yjresourcehub.uk/)

Mae Strategaeth Datblygu'r Gweithlu y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei llywodraethu gan y grŵp Llywodraethu Tystiolaeth ac Ymarfer gyda'r Arweinydd Datblygu'r Gweithlu sy'n gweithio ochr yn ochr â Grŵp Rheolaeth Weithredol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn rhoi cyfeiriad i'r gofynion a'r blaenoriaethau strategol hanfodol ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Cyfiawnder Ieuenctid.

#### **4.4 Datblygu'r gweithlu mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cymunedol a gwasanaethau cysylltiedig**

Mae Cymru Iachach<sup>225</sup> yn amlygu'r angen am weithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy ac uchel ei gymhelliad, gyda phwyslais penodol ar dystiolaeth sy'n dangos 'Mae'r modelau newydd gorau sy'n cael eu datblygu yng Nghymru yn rhannu nodwedd gyffredin: dull gweithredu amlddisgyblaethol eang lle gall pobl hyfforddedig weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a rhannu'r holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf...'. Er mwyn cyflawni hyn a chefnogi'r modelau gofal newydd, mae'n rhaid i wasanaethau gryfhau'r cymorth, yr hyfforddiant, y datblygiad a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r gweithlu gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau ar draws gyrfa gyfan a chefnogi eu hiechyd a'u lles.

Dylid sefydlu 'Grŵp Llywodraethu Tystiolaeth ac Ymarfer Effeithiol Cenedlaethol' i ddatblygu'r gweithlu camddefnyddio sylweddau, gan greu dull ar y cyd ledled Cymru ar gyfer addysg, hyfforddiant, a datblygiad; rhannu arfer gorau a sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir ar draws meysydd plant a phobl ifanc sy'n defnyddio sylweddau yn gysylltiedig â'r systemau cyfiawnder ieuenctid a chyfiawnder troseddol.

Ar hyn o bryd, nid oes un strategaeth datblygu'r gweithlu gydlynol ledled Cymru yn dilyn cwblhau Strategaeth y Gweithlu Camddefnyddio Sylweddau yn 2010. Galwodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru<sup>226</sup> (Ionawr 2018) am Un System Ddi-dor ledled Cymru ac mae gwaith wedi cael ei wneud tuag at hyn, ond mae dadansoddi pellach ar draws y sector ei hun yn dangos ychydig iawn o bwyslais ar gamddefnyddio sylweddau. Mae'r niferoedd cynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth, sy'n ehangach na chamddefnyddio sylweddau, yn golygu bod angen i ymarferwyr ymgysylltu'n effeithiol a deall yr heriau a'r anghenion cymorth cyfannol sydd gan blant a phobl ifanc. Mae'r gallu i asesu person ifanc yn gyfannol a darparu ymyriadau a thechnegau ataliol priodol wedi'u teilwra yn allweddol i atal niwed pellach.

---

<sup>225</sup> Llywodraeth Cymru (2018) Adroddiad Cymru Iachach [Cymru Iachach \(llyw.cymru\)](#)

<sup>226</sup> Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018) [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad Terfynol \(llyw.cymru\)](#)

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyffuriau ac Alcohol<sup>227</sup> yn disgrifio'r gwahanol dasgau a gweithgareddau sy'n berthnasol i faes gwaith penodol ac yn esbonio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol sy'n ofynnol i'w cyflawni. Yn ogystal, mae'r Achrediad Elusen Ddibynadwy<sup>228</sup> yn datgan y dylai fod ymrwymiad i ddysgu sefydliadol a gwella'n barhaus – yn hytrach na phroses 'untro', ac mae'n ofynnol i sefydliadau'r trydydd sector adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn dangosyddion diffiniedig Elusen Ddibynadwy (PQASSO yn ffurfiol).

Dylid cytuno ar 'Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol' cenedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc hyd at 25 oed (a'u teuluoedd) sy'n defnyddio sylweddau. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys:

- Cymwyseddau craidd fel Diogelu, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Cyfrinachedd a Ffiniau Proffesiynol.
- Lles a gwydnwch sylfaenol sy'n cydnabod ac yn ymateb yn briodol i faterion diwylliannol sensitif fel LHDTTC+, lleiafrifoedd ethnig, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, digartrefedd, tlodi a dulliau sy'n ystyriol o drawma.
- Dysgu a datblygu arbenigol sy'n benodol i weithio gyda defnyddwyr cyffuriau ac alcohol hirsefydlog, fel gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, cyngor ar leihau niwed ac ymyriadau arbenigol.

---

<sup>227</sup> Sgiliau ar gyfer Iechyd (2008) Canllaw i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyffuriau ac Alcohol (DANOS) [Skills for Health: Drugs and Alcohol National Occupational Standards \(DANOS\)](#)

<sup>228</sup> Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Sicrhau Ansawdd yn Sefydliadau'r Trydydd Sector 2019 [WCVA. Quality Assurance in Third Sector Organisations 2019](#)